Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Hawliau plant yng Nghymru

Awst 2020



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddPPIA**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPPIA@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddPPIA**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Hawliau plant yng Nghymru

Awst 2020

www.senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddPPIA

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Lynne Neagle AS**
Llafur Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Dawn Bowden AS**
Llafur Cymru



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Suzy Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Siân Gwenllian AS**
Plaid Cymru



**Laura Anne Jones AS**
Ceidwadwyr Cymreig

---

Roedd yr Aelod canlynol hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Janet Finch-Saunders AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion** .......... **8**

**1. Y cefndir** .......... **10**

**2. Hawliau plant** .......... **13**

Beth mae'r Confensiwn yn ei wneud? .......... 13

Sut yr adlewyrchir y Confensiwn yng nghyfraith Cymru .......... 14

Hawliau plant yng Nghymru: cyd-destun .......... 15

**3. Dylanwad y Mesur ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru** .......... **18**

Gwelededd hawliau plant .......... 18

Cyfrifoldeb i sicrhau "sylw dyledus" ar draws Llywodraeth Cymru .......... 32

Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ymhlith y Cabinet .......... 35

Ein barn ni .......... 37

**4. Dulliau i helpu i weithredu'r Mesur** .......... **40**

Y Cynllun Hawliau Plant .......... 40

Ein barn ni .......... 44

Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant .......... 44

Capasiti staffio ar hawliau plant yn Llywodraeth Cymru .......... 56

Ein barn ni .......... 58

**5. Dylanwad hawliau plant ar wariant y Llywodraeth** .......... **61**

Prosesau gosod cyllideb Llywodraeth Cymru .......... 62

Ein barn ni .......... 68

**6. Gwybodaeth am hawliau plant** .......... **71**

Rhoi gwybodaeth i blant a phobl ifanc .......... 72

Ymwybyddiaeth ymysg oedolion .......... 80

Ein barn ni .......... 83

Ffyrdd o gwyno .......... 85

Ein barn ni .......... 88

Cwynion yn uniongyrchol i'r Cenhedloedd Unedig ........ 89

Ein barn ni ........ 90

**7. Hawl plant i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw ........ 91**

Cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt ........ 91

Ein barn ni ........ 97

**8. Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Cenhedloedd Unedig ........ 99**

Ymateb yn ffurfiol i argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ........ 101

Ein barn ni ........ 105

**9. Cryfhau'r sefyllfa gyfreithiol ar hawliau plant ........ 107**

Cyrff cyhoeddus ........ 108

Ein barn ni ........ 112

Ymgorffori'r Confensiwn ymhellach yng nghyfraith Cymru ........ 113

Ein barn ni ........ 117

Adolygu rôl Comisiynydd Plant Cymru ........ 118

Ein barn ni ........ 120

# Rhagair y Cadeirydd

O holl gytuniadau'r Cenhedloedd Unedig, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Confensiwn) yw'r un sy'n cael ei gadarnhau amlaf. Rydym yn gwybod mor bwysig yw hawliau plant, a'u harwyddocâd o'u troi'n realiti. Maen nhw'n effeithio ar bob agwedd ar fywyd plentyn neu berson ifanc, o'u hiechyd meddwl, i a ydyn nhw'n cael eu hamddiffyn a'u cadw'n ddiogel, i leisio'u barn i'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau ar eu rhan. Dyna pam, ers sefydlu'r Pwyllgor hwn, yr ydym wedi gweithio'n galed i sicrhau bod hawliau plant yn ganolog i'n holl waith: wrth inni graffu ar bolisi, deddfwriaeth a gwariant y llywodraeth.

Ym mis Mehefin 2019, ddegawd bron ers ei gyflwyno, roeddem yn teimlo ei bod yn bryd edrych i weld a yw Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn dylanwadu ar syniadau Llywodraeth Cymru a'r ffordd y mae'n dyrannu ei chyllid. Roeddem am wybod a oedd y ddyletswydd "sylw dyledus" a'r ddyletswydd i hybu dealltwriaeth o'r Confensiwn a geir yn y Mesur, ac a welwyd fel dyletswydd arloesol pan gafodd ei phasio, yn arwain at ganlyniadau gwell i blant a phobl ifanc ledled Cymru.

Ym mis Ebrill 2020, yn sgil yr amgylchiadau digynsail yn ymwneud â phandemig coronafeirws, gwnaed y penderfyniad anodd – ond angenrheidiol – i ohirio cyhoeddi'r adroddiad hwn ar hawliau plant yng Nghymru. Y rheswm dros hyn yw sicrhau bod yr adnoddau cyhoeddus angenrheidiol yn gallu canolbwyntio ar yr argyfwng iechyd cyhoeddus dybryd.

Cafodd yr adroddiad hwn ei ddrafftio a'i dderbyn cyn y rheoliadau cyfyngiadau symud. Drwy gydol yr argyfwng hwn, mae ein Pwyllgor wedi monitro'n agos effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc. Nid oes fawr o amheuaeth bod coronafeirws a'r mesurau a gymerwyd i'w reoli wedi effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc yn sylweddol. Caiff hyn ei amlygu'n glir yn sgil yr aflonyddwch i hawl plant i gael addysg a'r hawl i chwarae, cyswllt cyfyngedig â ffrindiau a theulu yn benodol i blant sy'n derbyn gofal, a'r cyfyngiadau ar fynediad i glybiau a gweithgareddau. Yr hyn sy'n llai clir yw a fu ystyriaeth systematig o hawliau plant ymysg y llywodraeth wrth ddatblygu ei hymateb i'r pandemig. Rydym yn benderfynol o fonitro ymrwymiad diweddar y Prif Weinidog i ystyried y ffordd orau o gyflwyno asesiadau o'r effeithiau posibl o gynnal neu leddfu cyfyngiadau ar gydraddoldeb a hawliau plant a chyflawni dyletswyddau eraill.[1]

[1] Cwestiwn Ysgrifenedig - **WQ80487 (e)**

Mae ein gwaith craffu diweddar ar effaith y coronafeirws ar blant a phobl ifanc wedi'u harwain i ddod i'r casgliad bod yn rhaid cyflawni hawliau plant a phobl ifanc fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, nawr yn fwy nag erioed. Mae'n rhaid iddo fod yn ganolog wrth wneud penderfyniadau ac mae'n rhaid i'r dystiolaeth dros hynny fod yn llawer mwy tryloyw.

Mae'n hymchwiliad ar hawliau plant wedi'n harwain i'r casgliad bod yna gynnydd i'w wneud o hyd. Clywsom rwystredigaeth glir gan randdeiliaid ynglŷn â chyflymder y Mesur wrth ddylanwadu ar bolisi a gwariant. Mae yna ddiffyg cyfeiriad at hawliau plant mewn dogfennau strategol allweddol, a dim digon o dystiolaeth bod y dyletswyddau yn y Mesur yn cael eu hystyried a'u harfer ar draws Llywodraeth Cymru gyfan. Mae rhai o'r dulliau a roddwyd ar waith i helpu i weithredu'r ddeddfwriaeth hon, megis Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant, yn cael eu cynhyrchu'n llawer rhy hwyr yn y broses o ddatblygu polisi. Mae hyn yn dangos i ni nad yw hawliau plant yn sbarduno penderfyniadau Llywodraeth Cymru yn unol â'r ddeddfwriaeth a fwriadwyd.

Gosododd y Mesur ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod oedolion a phlant yn gwybod am y Confensiwn. Er hynny, pan glywson ni gan blant a phobl ifanc, mae'n amlwg nad oes dull systematig o ddweud wrthynt am eu hawliau. Yn yr un modd, datgelodd tystiolaeth fod bwlch o ran gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau plant ymhlith y cyhoedd. Ni all plant a phobl ifanc hawlio'u hawliau os nad ydynt yn gwybod beth ydyn nhw. Daethom i'r casgliad y dylid mynd i'r afael â hyn trwy strategaeth genedlaethol i godi ymwybyddiaeth. Rydym hefyd yn dweud y dylai Llywodraeth Cymru ddweud wrth blant sut y gallan nhw gwyno os nad yw pethau'n gweithio'n dda – a hynny mewn ffordd sy'n hawdd ei deall.

Er bod cyrff cyhoeddus yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ac yn cael symiau sylweddol o arian cyhoeddus, nid yw'r Mesur yn gosod dyletswyddau arnynt. Nid yw Llywodraeth Cymru bob amser yn gallu sicrhau bod hawliau plant yn cael dylanwad uniongyrchol ar y gwasanaethau y mae plant a phobl ifanc yn eu cael a'r penderfyniadau y mae cyrff cyhoeddus yn eu gwneud. Gan hynny, rydym wedi'n hargyhoeddi y bydd ymestyn y dyletswyddau yn y Mesur i gyrff fel awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn helpu i sicrhau gwelliannau yn hyn o beth.

Mae llawer mwy i'w wneud i sicrhau bod y ddeddfwriaeth bresennol hon yn gweithio'n effeithiol. Rhaid rhoi pwyslais o'r newydd ar sicrhau bod y Mesur hwn yn cael ei weithredu'n iawn. Credwn y byddai arweinydd penodedig yn y Cabinet a hyfforddiant i Weinidogion Cymru ar y dyletswyddau yn y Mesur yn cyfrannu rywfaint at sicrhau hyn. Rydym wedi gwneud argymhellion ymarferol yn yr

adroddiad hwn gan gredu y byddan nhw, o'u datblygu, yn helpu ar y daith tuag at wireddu hawliau i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

**Lynne Neagle AS,**
**Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Y dylai Llywodraeth Cymru ailddatgan ymrwymiad pendant i roi sylw dyledus i hawliau plant ym mhob penderfyniad y mae'n ei wneud, ar sail Asesiad cadarn o'r Effaith ar Hawliau Plant oni bai bod rheswm clir dros beidio ag ymgymryd ag un. .......... Tudalen 37

**Argymhelliad 2.** Y dylai rôl i Weinidog gael ei chreu ar y cyfle nesaf gyda chyfrifoldebau clir a diffiniedig ar gyfer plant a phobl ifanc ynghyd â rôl bendant o ddwyn y Cabinet i gyfrif dros gyflawni darpariaethau'r Mesur. .......... Tudalen 38

**Argymhelliad 3.** Y dylai Llywodraeth Cymru fewnosod darpariaeth yn ei Chynllun Hawliau Plant diwygiedig i holl Weinidogion Cymru ymgymryd â hyfforddiant cychwynnol a dilynol ar ddyletswydd "sylw dyledus" y Mesur. .......... Tudalen 39

**Argymhelliad 4.** Y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys yn y dull cwyno yn ei Chynllun Hawliau Plant diwygiedig yr hawl i herio penderfyniad i beidio â chynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar unrhyw faes o ddatblygu polisi. ..... Tudalen 58

**Argymhelliad 5.** Y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r holl Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant sydd wedi'u cwblhau, gan gynnwys asesiadau ar benderfyniadau polisi nad ydynt yn ddeddfwriaethol, a hynny fel rhan o'r drefn. .......... Tudalen 60

**Argymhelliad 6.** Y dylai Llywodraeth Cymru ailddatgan ei hymrwymiad i sicrhau bod y gofynion deddfwriaethol o ran hawliau plant yn cael eu hadlewyrchu'n llawn ac yn effeithiol yn ei phenderfyniadau ariannol ar draws pob portffolio, a hynny trwy ddiwygio'i Chynllun Gwella'r Gyllideb yn gyflym er mwyn egluro'r camau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd "sylw dyledus" yn y Mesur. .......... Tudalen 69

**Argymhelliad 7.** Y dylai Llywodraeth Cymru ddychwelyd i gyhoeddi Asesiad unigol o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer ei Chyllideb Ddrafft i ddangos ei bod yn cydymffurfio â'r Mesur, nes y gellir sicrhau'r Pwyllgor hwn y gall yr Asesiad Effaith Integredig Strategol sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb Ddrafft ddangos bod y ddyletswydd i roi "sylw dyledus" i'r Confensiwn wedi'i harfer. .......... Tudalen 70

**Argymhelliad 8.** Y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi strategaeth codi ymwybyddiaeth genedlaethol gyda chanlyniadau mesuradwy i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd, gan gynnwys plant, o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol. .......... Tudalen 85

**Argymhelliad 9.** Y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod addysg hawliau dynol, gan gynnwys hawliau plant gan gyfeirio at y Confensiwn, yn cael ei dysgu o dan Gwricwlwm newydd Cymru. ........................................................................................................Tudalen 85

**Argymhelliad 10.** Y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys dull cwyno cryfach ac addas i blant yn ei Chynllun Hawliau Plant diwygiedig i rymuso plant a phobl ifanc i geisio iawn pan fo angen hynny ac i gynnal eu hawliau. ....................................Tudalen 89

**Argymhelliad 11.** Y dylai Llywodraeth Cymru alw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gadarnhau Protocol Dewisol 2014 i'r Confensiwn er mwyn rhoi hawl i blant unigol gyflwyno sylwadau yn uniongyrchol i'r Cenhedloedd Unedig.........................Tudalen 90

**Argymhelliad 12.** Y dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei Chynllun Hawliau Plant diwygiedig strategaeth glir i sicrhau cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn trafodaethau ar benderfyniadau gan Lywodraeth Cymru sy'n effeithio arnynt. ...........................................................................................................................................Tudalen 98

**Argymhelliad 13.** Y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ymateb strategol manwl i Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn 2016 o fewn y chwe mis nesaf. Dylai hyn gynnwys manylion y cynnydd a wnaed yn erbyn yr holl argymhellion a pha gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â meysydd pryder. ....................................................................................................................................Tudalen 106

**Argymhelliad 14.** Y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi diweddariad blynyddol o'r cynnydd a wneir yn erbyn Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, i'w osod gerbron y Senedd ac i fod yn destun gwaith craffu blynyddol gan y pwyllgor perthnasol. ..................................................................Tudalen 106

**Argymhelliad 15.** Y dylai pob corff cyhoeddus datganoledig (megis awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol) gael eu gosod o dan ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau i bob corff cyhoeddus datganoledig ynghylch yr hyn y mae hyn yn ei olygu o ran eu swyddogaethau beunyddiol a sut y caiff cydymffurfiaeth ei monitro. ........Tudalen 113

**Argymhelliad 16.** Y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r penderfyniad i beidio â throsglwyddo'r cyfrifoldeb dros benodi ac ariannu Comisiynydd Plant Cymru i'r Senedd, a hynny ar y cyfle cyntaf i ddeddfu......................................................................Tudalen 121

# 1. Y cefndir

**1.** Ym mis Mehefin 2019, cytunodd y Pwyllgor y byddai'n cynnal ymchwiliad byr i hawliau plant yng Nghymru i adolygu effaith Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011[2] (y Mesur).

**2.** Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi "sylw dyledus" i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[3] (y Confensiwn) ym mhob penderfyniad a gweithred a wneir gan Weinidogion Cymru.

## Y ddyletswydd i roi "sylw dyledus"

**3.** Mae'r cysyniad o "sylw dyledus" neu "roi sylw" yn gyffredin mewn deddfwriaeth. Er enghraifft, gosododd Deddf Cydraddoldeb 2010[4] ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r angen i gyflawni'r amcanion a nodir o dan Adran 149 o'r Ddeddf honno.[5]

**4.** Nid yw "sylw dyledus" wedi'i ddiffinio yn y Mesur, ond mae'r Nodiadau Esboniadol yn egluro:

> "Mae'r ddyletswydd sylw dyledus yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi'r pwys priodol yn holl amgylchiadau'r achos i Ran 1 o'r Confensiwn a'r Protocolau [sef Confensiwn a Phrotocolau'r Cenhedloedd Unedig], gan eu cydbwyso â'r holl ffactorau eraill sy'n berthnasol i'r penderfyniad sydd o dan sylw."[6]

**5.** Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) wedi crynhoi'r ddyletswydd fel a ganlyn:

> "Mae rhoi sylw dyledus yn golygu bod yn rhaid i benderfynydd fynychu sylwedd penderfyniad yn gywir ac yn ymwybodol o'r hyn y mae'n rhaid ei ystyried o'r blaen ac ar adeg gwneud y penderfyniad, gan roi sylw i

---

[2] Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 .

[3] Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

[3] Deddf Cydraddoldeb 2010.

[5] Dyletswydd "sylw dyledus" Deddf Cydraddoldeb 2010 yw (a) dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; (b) hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu; (c) meithrin perthnasoedd da rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

[6] Nodiadau Esboniadol.

unrhyw amcan perthnasol. Mae'n rhaid i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ystyried tystiolaeth berthnasol ac ymarfer y ddyletswydd sylw dyledus gyda thrylwyredd, a meddwl agored. Dylai'r ddyletswydd gael ei hintegreiddio wrth gyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus."[7]

**6.** Ceisiodd ein hymchwiliad ystyried pa wahaniaeth y mae'r gyfraith hon wedi'i wneud a'i heffaith ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc.

**7.** Cytunwyd y byddem yn edrych ar y canlynol:

- i ba raddau y mae'r Mesur 2011 wedi dylanwadu ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ei dyraniadau ariannol ac a yw wedi cyflawni "mesurau cyffredinol" y Confensiwn o weithredu;
- a yw'r Mesur wedi arwain at ganlyniadau gwell i blant a phobl ifanc;
- a yw'r dyletswyddau yn y Mesur wedi'u hymgorffori'n effeithiol ar draws portffolios a pholisïau cabinet Llywodraeth Cymru;
- i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio sicrhau bod ei dyletswyddau yn y Mesur yn cael eu trosglwyddo i waith y cyrff cyhoeddus y mae'n darparu cyllid iddynt, gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrff y GIG;
- i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu ei dyletswydd i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn ymhlith y cyhoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc;
- sut mae'r ddyletswydd i roi "sylw dyledus" i'r Confensiwn yn cael ei gweithredu'n ymarferol ac a yw Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael eu defnyddio fel adnodd ystyrlon;
- effeithiolrwydd y Cynllun Hawliau Plant ac Adroddiad Cydymffurfiaeth diweddaraf Llywodraeth Cymru, ac i ba raddau y maent yn dangos tystiolaeth o weithredu digonol ar ran Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Mesur yn cael ei weithredu'n llawn; a

[7] Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Effaith Integreiddio Cyfreithiol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru, Awst 2018.

- pha mor effeithiol yw ymateb strategol Llywodraeth Cymru i Sylwadau Cloi[8] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

**8.** Cafodd tystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar eu casglu rhwng Gorffennaf a Thachwedd 2019, a cheir rhestrau llawn o'r rhain yn Atodiad A ac Atodiad B i'r adroddiad hwn. Fe wnaethom ddarparu adnodd 'Cyfarfod mewn Blwch'[9] i athrawon, gweithwyr ieuenctid, ac arweinwyr gweithgareddau ieuenctid ei ddefnyddio i hwyluso sesiwn gweithdy am hawliau plant er mwyn casglu barn plant a phobl ifanc. Buom hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Lleisiau Bach / Little Voices[10] i ymgysylltu â phlant o Ysgol Gynradd Awel y Môr, Port Talbot, ac Ysgol Pant y Rhedyn, Llanfairfechan, i glywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc am sut mae hawliau plant yn eu helpu a beth arall y gellid ei wneud.

**9.** Ar 6 Mai 2020, daeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru, neu'r Senedd fel y'i gelwir. O ganlyniad, mae cyfeiriadau yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'r enw newydd lle y bo'n bosibl.

**10.** Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein hymchwiliad.

---

[8] Cyfeirir at argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig fel "Sylwadau Terfynol". Cyhoeddodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ei ganfyddiadau o'i archwiliad diweddaraf o lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn 2016.

[9] Adnodd Cyfarfod mewn Blwch.

[10] Lleisiau Bach / Little Voices yw'r dull a ddefnyddir gan Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc i rymuso plant fel ymchwilwyr ac fel eiriolwyr, i helpu i ymgorffori hawliau dynol mewn lleoedd bob dydd i blant ac i ganiatáu i newid sy'n gynhwysol o ran oedran gael ei greu ar y cyd.

# 2. Hawliau plant

O holl gytuniadau'r Cenhedloedd Unedig, Confensiwn 1989 yw'r un sy'n cael ei gadarnhau amlaf, ac mae wedi'i gadarnhau gan 196 o'r 197 o Aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig. Mae'n nodi ystod eang o hawliau i bob plentyn o dan 18 oed ac yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i lywodraethau, awdurdodau cyhoeddus ac oedolion ei wneud i sicrhau y gall pob plentyn fwynhau ei holl hawliau.

## Beth mae'r Confensiwn yn ei wneud?

**11.** Mae gan y Confensiwn 54 o erthyglau. Bwriedir i'r hawliau yn y Confensiwn gael eu gweld fel cyfanwaith, heb fod unrhyw un hawl yn bwysicach na'i gilydd. Un peth sy'n ganolog i'r Confensiwn yw'r egwyddor bod gan bob plentyn hawliau sylfaenol, gan gynnwys:

- yr hawl i fyw, goroesi a datblygu;
- yr hawl i beidio â dioddef gwahaniaethu;
- yr hawl i amddiffyniad rhag trais, camdriniaeth neu esgeulustod;
- yr hawl i addysg sy'n galluogi plant i gyflawni eu potensial; a'r
- hawl i fynegi eu barn a chael gwrandawiad.[11]

**12.** Yn 2002, cafodd dau Brotocol Dewisol[12] eu hychwanegu at y Confensiwn. Mae un yn gofyn i lywodraethau sicrhau nad yw plant o dan 18 oed yn cael eu recriwtio'n orfodol i'w lluoedd arfog. Mae'r ail yn galw ar yr Aelod-wladwriaethau i wahardd puteindra plant, pornograffi plant a gwerthu plant yn gaethweision.

**13.** Mae Gwladwriaeth sy'n Barti yn wlad sydd wedi cadarnhau'r Confensiwn, ac sydd felly wedi'i rhwymo'n gyfreithiol ganddo. Cadarnhaodd y Deyrnas Unedig y

[11] Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

[12] Mae Protocolau Dewisol yn rhannau ychwanegol i gytuniad a all naill ai ymdrin ymhellach â rhywbeth yn y cytuniad gwreiddiol ymhellach, neu ymdrin â rhywbeth nad yw'r cytuniad gwreiddiol yn sôn amdano, megis mater nad oedd yn bodoli pan gafodd ei fabwysiadu gyntaf.

Confensiwn ym 1991. Mae rhai erthyglau o'r Confensiwn yn sail i ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â phlant, gan gynnwys Deddf Plant 1989.[13]

**14.** Yn 2014, cyflwynwyd trydydd Protocol Dewisol: y Protocol Dewisol ar weithdrefn gyfathrebu.[14] Pan gaiff ei gadarnhau gan Wladwriaeth sy'n Barti, mae'n rhoi hawl i blant unigol ddeisebu i gyflwyno sylwadau yn uniongyrchol i'r Cenhedloedd Unedig. Nid yw'r Protocol Dewisol hwn wedi'i gadarnhau gan y Deyrnas Unedig. Rydym yn trafod gwneud cwyn yn uniongyrchol i'r Cenhedloedd Unedig ym mhennod chwech.

## Sut yr adlewyrchir y Confensiwn yng nghyfraith Cymru

**15.** Er nad oedd yn Wladwriaeth sy'n Barti o ran y Confensiwn, deddfodd Llywodraeth Cymru i roi effaith bellach i'r Confensiwn yn y gyfraith ddomestig yng Nghymru trwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.[15] Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi "sylw dyledus" i'r Confensiwn ac i'r rhan fwyaf o'r ddau Brotocol Dewisol.

**16.** Er 2014 pan ddaeth y Mesur i rym yn llawn, mae'n ofynnol i'r ddyletswydd i roi "sylw dyledus" i'r Confensiwn fod yn gymwys i Weinidogion Cymru wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.

**17.** Mae'r Mesur hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau priodol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd, gan gynnwys plant, o'r Confensiwn a'r Protocolau.[16]

[13] Deddf Plant 1989.

[14] Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig, Optional Protocol to the Convention on the Rights of a Child on a communication procedure.

[15] Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

[16] Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

## Hawliau plant yng Nghymru: cyd-destun

### Y chwyddwydr cynnar ar blant a phobl ifanc

**18.** Roedd buddiannau plant a phobl ifanc yn amlwg ym mlynyddoedd ffurfiannol y Senedd. Rhoddwyd eu lles a'u diogelwch yn gadarn ar yr agenda wleidyddol pan gafodd canfyddiadau Ymchwiliad Waterhouse[17] eu cyhoeddi yn 2000. Cadarnhaodd canfyddiadau'r Ymchwiliad fod degawdau o gam-drin plant yn rhywiol ac yn gorfforol wedi digwydd yn eang mewn cartrefi gofal yn y Gogledd.[18]

**19.** Roedd sylw cynnar y Senedd ar blant a phobl ifanc hefyd yn deillio'n rhannol o'r setliad datganoli cynnar.[19] Yn wahanol i rai meysydd polisi eraill, roedd gan y Senedd lawer o'r pwerau angenrheidiol ym maes iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol i ganiatáu i Lywodraeth y dydd ddatblygu agwedd benodol at bolisi plant a phobl ifanc.[20]

**20.** Mae yna lawer o enghreifftiau lle gwelwyd Cymru yn arwain y ffordd i blant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys:

- mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i sefydlu Comisiynydd Plant yn 2001;
- yr amlygrwydd a roddir i faterion plant a phobl ifanc yn strwythurau cabinet cynnar Llywodraeth Cymru (gan gynnwys cael Gweinidog yr oedd ei bortffolio a'i deitl yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc ac is-bwyllgor cabinet i benderfynu ar bolisïau a oedd yn effeithio ar blant a phobl ifanc yn benodol);
- pasio Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) – y ddeddfwriaeth gyntaf o'i math yn y Deyrnas Unedig, gan ymgorffori'r Confensiwn yn y gyfraith ddomestig – yn 2011; a

---

[17] Adran Iechyd Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Lost in Care Report of the Tribunal of Inquiry into the Abuse of Children in Care in the Former County Council Areas of Gwynedd and Clwyd since 1974.

[18] Erthygl gan Wasanaeth Ymchwil y Senedd, Blaenoriaethu plant a phobl ifanc, 17 Mai 2016.

[19] Tudalennau gwe Senedd Cymru, Rôl y Senedd a sut mae'n gweithio, Hanes Datganoli Cymru.

[20] Erthygl gan Wasanaeth Ymchwil y Senedd, Blaenoriaethu plant a phobl ifanc, 17 Mai 2016.

- chyllid Llywodraeth flaenorol Cymru i'r Ddraig Ffynci.[21]

## Tirwedd sy'n newid i blant a phobl ifanc

**21.** Ers i'r Senedd basio'r Mesur yn 2011, mae newidiadau yn y dirwedd bolisi ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru wedi dod i'r amlwg.

**22.** Does dim portffolio i weinidog bellach sydd wedi'i ganoli ar blant, ac mae Llywodraeth Cymru wedi symud at gynlluniau, polisïau a deddfwriaeth fwy "addas i bob oed" yn hytrach na "phlentyn-benodol".[22] Yn 2014, rhoddodd Llywodraeth Cymru y gorau i'w chyllid ar gyfer y Ddraig Ffynci hefyd.

**23.** Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru ar y pryd, Keith Towler, bryd hynny fod Llywodraeth Cymru yn ymddangos yn rhy gyffyrddus â'i statws fel arloeswyr mewn hawliau plant rhyngwladol, gan ddweud bod gwasanaethau hanfodol a anelai at amddiffyn plant a phobl ifanc a oedd agored i niwed mewn perygl o gael eu colli, a hynny oherwydd diffyg gweledigaeth ac arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru.[23]

**24.** Disgrifiodd y Memorandwm Esboniadol a gafwyd pan gyflwynwyd y Mesur ym mis Mehefin 2010 fwriad Llywodraeth Cymru i symud tuag at ddull mwy blaengar, wedi'i seilio ar hawliau, tuag at bolisi ar gyfer plant a phobl ifanc.[24] Nododd mai'r Mesur oedd y dull canolog yn ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i wireddu'r Confensiwn yn raddol ac yn ei dull seiliedig ar hawliau o ddatblygu polisi o ran plant a phobl ifanc.[25]

**25.** Ddegawd yn ddiweddarach, mae'n hymchwiliad wedi ceisio archwilio pa effaith y mae'r Mesur wedi'i chael ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ei dyraniadau ariannol, ac effeithiolrwydd yr offer sydd ganddo i helpu i weithredu'r Mesur. Rydym hefyd wedi ystyried effaith gweithredoedd Llywodraeth Cymru i gynyddu dealltwriaeth o'r Confensiwn, ynghyd ag effaith ei gwaith i gynyddu cyfranogiad plant a phobl ifanc wrth i benderfyniadau gael eu gwneud.

---

[21] Y Ddraig Ffynci oedd Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru. Roedd yn sefydliad o dan arweiniad cymheiriaid a roddodd gyfleoedd i bobl ifanc hyd at 25 oed leisio barn ar faterion a oedd yn effeithio arnynt. Bu'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru'r dydd a fforymau ieuenctid a oedd yn cael eu rhedeg gan yr awdurdodau unedol, gan alluogi'r Ddraig Ffynci i ddylanwadu ar benderfyniadau ar wahanol lefelau gwleidyddol.

[22] Llywodraeth Cymru, Strategaeth pwysau iach; Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol; Law yn llaw at Iechyd Meddwl: Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru.

[23] Comisiynydd Plant Cymru – Adroddiad Blynyddol 2013/14..

[24] Memorandwm esboniadol.

[25] Memorandwm esboniadol.

Yn olaf, rydym wedi archwilio'r sefyllfa gyfreithiol ar hawliau plant yng Nghymru, a'r cyfrifoldeb o benodi'r Comisiynydd Plant yn erbyn y cefndir hwn.

# 3. Dylanwad y Mesur ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y Mesur wedi cael rhywfaint o ddylanwad cadarnhaol ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â phlant. Er hynny, mae pryderon nad yw'r ddyletswydd "sylw dyledus" wedi'i hymgorffori'n llawn ar draws y Llywodraeth. Amlygodd tystiolaeth ddiffyg cyfeiriad at y Confensiwn mewn dogfennau polisi allweddol, ac absenoldeb unrhyw hyfforddiant ffurfiol i Weinidogion Cymru ar sut i arfer y dyletswyddau yn y Mesur.

## Gwelededd hawliau plant

**26.** Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru sicrhau, wrth wneud penderfyniad am bolisi newydd (neu adolygiad o un sy'n bodoli eisoes) neu'n penderfynu ar unrhyw ddarpariaeth i'w chynnwys mewn deddfwriaeth, eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r Confensiwn a'r ddau Brotocol Dewisol. Mae yna nifer o ffyrdd – gan gynnwys mesurau cyfreithiol ac anghyfreithiol – o gyflawni hyn. Mae'r rhain yn cynnwys casglu'r lefel gywir o wybodaeth ystadegol i ddeall canlyniadau i blant a hefyd sicrhau bod yr hawliau o dan y Confensiwn yn hysbys ac yn cael eu deall yn eang gan blant, oedolion a chyrff cyhoeddus.

**27.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, tanlinellodd Comisiynydd Plant Cymru:

> "[...] mae'n bwysig cydnabod bod gan blant yng Nghymru yr holl hawliau hyn eisoes, yn rhinwedd eu hoedran. Mae eu hawliau'n deillio'n uniongyrchol o CCUHP, ac felly nid y Mesur sy'n rhoi'r hawliau hynny, mae'n syml yn eu tynnu i lawr i lefel cyfraith Cymru. Trwy wneud hynny, mae'r Mesur yn ymdrin â sut mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r hawliau hyn yng Nghymru."[26]

[26] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

**28.** Cafodd astudiaeth ar *Effaith Integreiddio Cyfreithiol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru*[27] ei chynnal yn 2018 gan y Dr Simon Hoffman a Sean O'Neill ar ran y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae'r ddau yn aelodau o Grŵp Monitro CCUHP Cymru[28] a darparwyd tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig fel rhan o'r ymchwiliad hwn. Dywedodd y Grŵp ei fod yn gefnogol iawn i'r Mesur.[29] Dywedodd Hoffman ac O'Neill hefyd ynglŷn â'u hastudiaeth:

> "[…] we were delighted to take on this work because this was the first opportunity we'd had to drill down and see what the effects have been over the last five years since the Measure's been in full force […]"[30]

**29.** Dywedodd adroddiad yr EHRC:

> "Nid oes gennym unrhyw amheuon wrth ddod i'r casgliad bod y Mesur wedi cyflawni ei amcan o ymwreiddio'r Confensiwn yn y broses o lunio polisïau yng Nghymru. Mae'r ddyletswydd sylw dyledus wedi sefydlu fframwaith newydd ar gyfer datblygu polisi, sydd yn ei dro wedi arwain at fwy o sylw i, ac amlygrwydd i, hawliau plant mewn prosesau polisi a wneir gan Weinidogion a'u swyddogion."[31]

**30.** Darparodd rhai tystion enghreifftiau o ble roeddent yn teimlo bod y ffocws a roddir i'r Confensiwn trwy'r Mesur yn cael effaith gadarnhaol ar bolisi. Cyfeiriodd Chwarae Cymru at astudiaeth ar raddfa fach sy'n awgrymu bod plant, ar y cyfan, yn fodlon â'u cyfleoedd i gyflawni eu hawl i chwarae, gan ychwanegu eu bod yn cytuno â chasgliad adroddiad yr EHRC bod y Mesur wedi arwain at fwy o welededd ar gyfer hawliau plant mewn prosesau polisi.[32] Dywedodd Estyn wrth y Pwyllgor eu bod yn croesawu:

> "[…] the explicit and strong emphasis given to furthering the United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC) through the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act and

---

[27] Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Effaith Integreiddio Cyfreithiol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru, Awst 2018.

[28] Mae Grŵp Monitro CCUHP Cymru yn gynghrair genedlaethol o asiantaethau anllywodraethol ac academaidd, sydd â'r dasg o fonitro a hybu'r Confensiwn yng Nghymru.

[29] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 5], 16 Hydref 2019.

[30] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 6], 16 Hydref 2019.

[31] Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Effaith Integreiddio Cyfreithiol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru, Awst 2018.

[32] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 10 – Chwarae Cymru.

> Draft ALN Code. The guidance issued by the Welsh Government around person-centred practice is starting to have an impact within schools."[33]

**31.** Tynnodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru sylw hefyd at gyfleoedd a ddarperir gan y Mesur i randdeiliaid allanol ddefnyddio iaith sy seiliedig ar hawliau yn fwy hyderus wrth ymwneud â phroses benderfynu Llywodraeth Cymru. Disgrifiwyd hyn fel datblygiad cadarnhaol.[34]

**32.** Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrth y Pwyllgor fod angen newid mwy sylfaenol i sicrhau bod y Mesur yn dod yn realiti ar gyfer hawliau plant ar draws y Llywodraeth. Dadleuai'r Comisiynydd:

> "The fundamental thing that we still need to do is win hearts and minds, I think, in understanding why it's important. It still feels to me like some of the things that Government has to do in relation to the Measure, people do them because they feel they have to do them, which means that they sometimes feel quite half-hearted, quite late and not very in-depth."[35]

**33.** Ychwanegodd y Comisiynydd:

> "Rwy'n falch o lawer o hanes Cymru ynghylch hawliau plant ac rwy'n ymwybodol iawn mai'r Mesur yw'r cam cyfreithiol cryfaf hyd yma o ran gweithredu hawliau plant yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, nid wyf yn teimlo bod mesur ein hunain yn erbyn gweddill y Deyrnas Unedig yn darged digon uchelgeisiol, ac fe hoffwn i weld Cymru'n cyrraedd y safonau rhyngwladol gorau oll."[36]

**34.** Awgrymodd y Comisiynydd fod yr adolygiad o Gynllun Hawliau Plant Llywodraeth Cymru, sy'n nodi'r trefniadau ymarferol i helpu i weithredu'r Mesur, yn gyfle i fod yn fwy uchelgeisiol:

> "We really saw it as a revision to move practice on and be ambitious, and unlike many other aspects where Government might be quite tied in to primary legislation, or whatever, and there's a limit to how far they can take things, there's actually lots of scope for them under the Measure to really be ambitious with the delivery of the Measure

---

[33] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 09 – Estyn.

[34] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 8], 16 Hydref 2019.

[35] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 377-378], 16 Hydref 2019.

[36] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

> through this scheme. We just felt it wasn't significantly different enough, the draft we've seen so far. For example, it didn't even take up the conclusions that the Government's own compliance report had said they were going to take forward when they revise the scheme."[37]

**35.** Amlygodd tystiolaeth Grŵp Monitro CCUHP Cymru gasgliadau yn adroddiad yr EHRC fod Cymru wedi mynd lawer ymhellach wrth ymgorffori'r Confensiwn yn y gyfraith ddomestig na rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Er hynny, dywedodd y Grŵp:

> "[…] I think we felt what emerged from that piece of research is that we're still on a journey, and if it's having the desired impact, as intended, and it's to be fully embedded across the whole of Government, there are areas and procedures that will require strengthening."[38]

**36.** Er hynny, yn ôl tystiolaeth Clybiau Plant Clybiau Plant Cymru, er bod y Mesur wedi dylanwadu ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru, "mae wedi bod yn broses araf".[39] Soniodd Hafal hefyd am bryderon na wnaed cynnydd digonol wrth sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r Mesur, gan nodi eu bod wedi cael anhawster gweld newid sylweddol mewn meysydd fel iechyd meddwl.[40]

**ASTUDIAETH ACHOS: Effaith y Mesur ar ddatblygu polisi**

Mae'r rhestr isod yn nodi rhai enghreifftiau a ddarparwyd inni mewn tystiolaeth ysgrifenedig o feysydd lle bernid bod y Mesur yn dylanwadu ar ddatblygiad polisi Llywodraeth Cymru, a hefyd feysydd polisi lle nad oedd effaith y Mesur yn weladwy:

**Wedi'u dylanwadu gan y Mesur**

Cyfiawnder Ieuenctid: atal, dargyfeirio cyn cyrraedd y llys a gwaith cymunedol

Addysg mewn Carchardai

Cynllun Gweithredu Tlodi Plant

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol

---

[37] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 389], 16 Hydref 2019.

[38] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 9], 16 Hydref 2019.

[39] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 12 – Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs.

[40] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 18 – Hafal.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Dechrau'n Deg

Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

Addysg rhyw a chydberthynas orfodol

Cyfranogi mewn Ysgolion

Hybu'r Confensiwn mewn ysgolion ac yn y cwricwlwm newydd

Strategaeth Gwaith Ieuenctid

Chwarae a'r ddyletswydd "digonolrwydd"

**Effaith y Mesur yn anweladwy**

Digwyddiadau hiliol mewn ysgolion a gwaharddiadau o ganlyniad i ddigwyddiadau hiliol. Diffyg adroddiadau a diffyg coladu ystadegau

Gwahardd o'r ysgol a defnyddio bythau ynysu

Oedran cyfrifoldeb troseddol

Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg: Wedi'u henwi fel materion allweddol mewn gwaith achosion gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Presenoldeb gorfodol mewn addoli ar y cyd mewn ysgolion

Gwariant y GIG ar Gaplaniaeth Gristnogol

Diffyg cymorth arbenigol at Epilepsi Anabledd Dysgu

Gwasanaethau iechyd meddwl

Gwasanaethau ieuenctid

Argaeledd Lleoliadau Gofal: lleoliadau maeth a lleoliadau diogel

Argaeledd gwasanaethau Canolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol

Llygredd aer oherwydd traffig a rheoliadau cynllunio annigonol

Ymyrraeth iechyd meddwl cynnar mewn ysgolion

Meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant

Mynediad plant at dai digonol

Tlodi plant

**37.** Yn ei thystiolaeth hi, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn fodlon bod y Mesur a'r trefniadau ategol yn dylanwadu ac yn effeithio ar waith i lunio polisïau a gwneud penderfyniadau ar y lefel gywir ac yn darparu fframwaith cadarn a phriodol ar gyfer ymgorffori hawliau plant.[41]

## Yr hyn a ddywedodd plant a phobl ifanc wrth y Pwyllgor

**38.** Rhoddodd y plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran yn ein hymgynghoriad 'Cyfarfod mewn Blwch'[42] eu barn i'r Pwyllgor am feysydd polisi lle nad oedd eu hawliau'n cael eu cyflawni:

> **"Hawl i bod diogel ar lein."**
>
> **"Diogelwch economaidd."**
>
> **"Do not bully: Article 23."**
>
> **"To be happy we need to try to stop bullies."**
>
> **"The right to a clean environment."**
>
> **"Your right to use your own language and celebrate your own culture and religion."**
>
> **"Access to post-16 education."**
>
> **"Transport is a big issue."**
>
> **"Improve the whole curriculum so it's more like the curriculum they have in Sweden and Norway."**
>
> **"Article 40 - your right to legal help if have been accused of a crime."**
>
> **"lgbt - article 2 relating to not being treated differently because of who they are."**
>
> **"The right to practice my own religion."**

[41] Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru.

[42] Cyfarfod mewn Blwch – Crynodeb ymgysylltu.

> **"Seeing family if they do not live with you."**
>
> **"Improving transport because some children are missing school and appointments."**
>
> **"Better policing."**
>
> **"We need the right to vote (article 12)."**
>
> **"School trips - I can't afford to go to trips and I am missing out."**
>
> **"I think you shouldn't be charged to go on a school trip since you have the right to have a break from working in school."**
>
> **"Police stations have closed, so police not there unless there is a problem. Drugs openly being sold - dealers don't bother to hide it - more people carrying knives to feel protected - more police presence needed."**

**39.** Roedd sylwadau rhai o'r hwyluswyr grŵp a gymerodd ran yn ein hymgynghoriad 'Cyfarfod mewn Blwch'[43] yn cynnwys:

> "A number of the group highlighted the issue of being protected from exposure to drugs. They felt that not enough was being done. One young person mentioned about a local shop knowingly selling Vapes to underage children. Also more work need to be done to educate adults on children's rights."
>
> "Improve the right to be safe because feeling safe is important."."
>
> "Many pupils talked about how poverty affected them and they felt that money shouldn't be a barrier to learning. They suggested all school trips be free."
>
> "YP felt that bullying was a major issue in and out of school."
>
> "They didn't feel safe and would like more children and youth provisions in place to report to."

[43] Cyfarfod mewn Blwch – Crynodeb ymgysylltu.

> "Young people thought that not being able to speak to each other in class or use the toilet can be against their rights. Disabled children are not supported due to cuts, they felt this was unfair."
>
> "YP have many concerns, biggest growing drugs problem and groups of youth."

## Canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc

**40.** Yn ogystal ag ystyried a yw'r Mesur wedi effeithio ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru, roeddem hefyd eisiau ystyried a oedd unrhyw ganlyniadau mesuradwy i blant a phobl ifanc.

**41.** Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrth y Pwyllgor:

> "Mae bodolaeth y Mesur a'i effaith ar bolisïau a chanllawiau yn cael ei weld yn araf, ac rwy'n cydnabod bod newid agweddau a meddylfryd yn cymryd amser, ond byddwn i'n dadlau bod y Mesur eisoes wedi gwneud hyn i ryw raddau yng nghyfnod pennu'r polisi. Rwy'n llai sicr o'r newid, neu nid wyf wedi ei weld mor amlwg eto yng nghyswllt canlyniadau i blant, ac mae'n bosibl bod modd egluro hynny yn sgil y diffyg ffocws ar gyflawni canlyniadau yn y Mesur ei hun na'r Cynllun fel y mae ar hyn o bryd."[44]

**42.** Dywedodd yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant:

> "Importantly, the Measure is not intended to prescribe policy outcomes, but is a device to influence the culture of policy-making within Welsh Government with the aim of securing better policy output, and in the long term, influencing better outcomes for children."[45]

**43.** Dywedodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wrth y Pwyllgor fod y Mesur wedi arwain at ganlyniadau gwell i blant a phobl ifanc ac na allai'r canlyniadau ond gwella yn sgil Symud Cymru Ymlaen o dan aden Llywodraeth Cymru.[46]

**44.** Roedd yr EHRC, a ddisgrifiodd y Mesur fel un a oedd yn dal yn gymharol newydd, yn dadlau:

[44] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[45] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 04 – Yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant.

[46] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 12 – Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs.

> "There is a lack of evidence that the Measure has directly improved outcomes for children and young people in Wales. There is also a lack of clarity on what outcomes Welsh Government want to improve for children and young people as a result of the Measure.
>
> [...] Welsh Government could specify strategic outcomes for children and young people that are based on evidence from robust and relevant sources. These outcomes should inform policy decisions made by Welsh Government Ministers. This could then be monitored to provide evidence of progress on improving outcomes for children and young people."[47]

**45.** Awgrymodd tystiolaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan hefyd y byddai'r cysylltiad rhwng y Mesur a chanlyniadau gwell i blant a phobl ifanc yn elwa o gael ei ddiffinio ymhellach ac y byddai hynny'n helpu o ran rhagor o ddealltwriaeth. Nododd y Bwrdd ei bod yn debygol y ceid ystod o enghreifftiau cadarnhaol o ganlyniadau yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar y lefel leol a'r rheiny gyda'i gilydd yn gallu dangos effeithiau a'r gydberthynas rhyngddynt.[48]

**46.** Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, roeddem am glywed gan blant a phobl ifanc ledled Cymru. Dyluniwyd ein hadnodd 'Cyfarfod mewn Blwch' i'w ddefnyddio yn lleoliad y cyfranogwr ac roedd yn cynnwys gweithgareddau ar gyfer pob lefel o ddealltwriaeth o hawliau plant, gwaith y Pwyllgor a'r Senedd. Cynhaliwyd 45 o sesiynau, gan gynnwys 866 o gyfranogwyr o bob un o bum rhanbarth etholaethol y Senedd.[49]


**47.** Gofynnwyd i'r ymatebwyr a roddodd dystiolaeth a oeddent yn credu bod eu hawliau wedi gwella ai peidio, a pha feysydd yr oeddent yn teimlo eu bod yn waeth neu'n well. Cafodd y sylwadau eu codio fel rhai negyddol neu gadarnhaol:

---

[47] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 26 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.


[48] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 21 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

[49] Cyfarfod mewn Blwch – Crynodeb ymgysylltu.




Ffynhonnell: Crynodeb ymgysylltu Cyfarfod mewn Blwch.[50]

**48.** Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd bleidleisio dros ba hawl y credent y dylai Llywodraeth Cymru "wneud mwy amdani". Dyma'r canlyniadau:




[50] Cyfarfod mewn Blwch – Crynodeb ymgysylltu.

Eu hawl i **iechyd corfforol ac iechyd meddwl da** gafodd y nifer fwyaf o bleidleisiau (179) a daeth eu hawl **i deimlo'n ddiogel yn yr ardal rwy'n byw ynddi** yn ail o drwch blewyn (178). Yn agos y tu ôl i'r rhain oedd eu hawl **i deimlo'n ddiogel gartref** (139), **i gael fy nghlywed gan bobl sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant** (137) a'u hawl **i gael addysg dda** (123).

Roedd nifer y bobl ifanc a ddewisodd eu hawl **i gael gafael ar gymorth a chefnogaeth os ydw i'n anabl** (44) a'u hawl **i gael mynediad at deithio** (38) yn debyg i **hawl arall nad yw wedi'i rhestru** (39).

Ffynhonnell: Crynodeb ymgysylltu Cyfarfod mewn Blwch.[51]

**49.** Yn ei thystiolaeth hi i'r Pwyllgor, nododd Llywodraeth Cymru:

- na fwriedir i'r Mesur ragnodi canlyniadau polisi;
- bod y ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn wedi'i gosod ar lefel genedlaethol yn fwriadol a'i bod yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer pob penderfyniad – gan gynnwys polisi a deddfwriaeth;
- bod y Mesur yn radicalaidd ac yn bellgyrhaeddol o ran ei gwmpas a'i natur;
- na ddylai'r Mesur "gael ei ystyried ar ei ben ei hun" gan ei fod yn "rhan allweddol o gymorth a her gynhwysfawr, ehangach, a gynigir er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hymgorffori ym mholisïau ac arferion Cymru".[52]

**50.** Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at y casgliadau yn adroddiad yr EHRC bod y Mesur wedi ymgorffori'r Confensiwn yn llwyddiannus wrth lunio polisïau yng Nghymru. Nododd hefyd fod ei dull gweithredu fel gweithrediaeth tuag at hawliau plant yn amlwg yn "dwyn ffrwyth", gan dynnu sylw at enghreifftiau diweddar y mae'n credu sy'n dangos cynnydd, megis: cyflwyno'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru); fframwaith Cwricwlwm Cymru 2022; ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymestyn yr etholfraint bleidleisio i bobl ifanc 16 a 17 oed.[53]

---

[51] Cyfarfod mewn Blwch – Crynodeb ymgysylltu.

[52] Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru.

[53] Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru.

## Cydymffurfiaeth ac atebolrwydd

**51.** Mae Adran 4 o'r Mesur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru osod adroddiad gerbron y Senedd bob pum mlynedd ar sut mae wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i ystyried hawliau plant yn y penderfyniadau y mae'n eu gwneud.[54] Nododd Cynllun Hawliau Plant 2014 ymrwymiad i lunio adroddiadau yng nghanol y tymor, a fyddai'n golygu llunio Adroddiad Cydymffurfiaeth bob dwy flynedd a hanner.[55] Cyhoeddwyd trydydd Adroddiad Cydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru, a'r diweddaraf, yn 2018.[56]

**52.** Mae'r Cynllun Hawliau Plant yn dweud:

> "Mae'r ymrwymiad hwn i dryloywder a chyd-drafod adeiladol, ynghyd â'r cytundeb sy'n ymwneud â phroses cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, yn rhoi cyfle parhaus i randdeiliaid a phartïon perthnasol eraill ddal Gweinidogion yn atebol ar y ffordd y maent yn gweithredu'r Mesur, ac i fynegi eu sylwadau ar y cynnydd a wneir.
>
> Bydd Gweinidogion yn sicrhau dadl mewn cyfarfod llawn o'r Cynulliad ar gynnwys yr Adroddiad Cydymffurfiaeth nesaf. Gellir gofyn hefyd i Weinidogion roi tystiolaeth i bwyllgorau'r Cynulliad i esbonio beth maent wedi'i wneud a gellir gofyn iddynt ymateb i gwestiynau gan Aelodau Cynulliad."[57]

**53.** Nododd Grŵp Monitro CCUHP Cymru yn eu tystiolaeth nhw nad oedd yr adroddiad diweddaraf, a gyhoeddwyd yn 2018, wedi bod yn destun unrhyw waith craffu gan y Senedd ar y pryd.[58]

**54.** Amlygodd tystiolaeth yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant atebolrwydd gwell y Mesur trwy'r gofyniad statudol a osodir ar y Gweinidogion i gyhoeddi Adroddiad Cydymffurfiaeth. Awgrymodd fod yr adroddiad yn gyfle ar gyfer dadlau a chraffu cyhoeddus, ac yn gyfle i ddwyn y Gweinidogion i gyfrif. Er hynny, cyfeiriodd hefyd

[54] Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

[55] Ar ôl cwblhau'r adroddiad hwn, mewn **Datganiad Ysgrifenedig** ar 17 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn dychwelyd i'r cylch adrodd pum mlynedd "yn sgil pandemig y coronafeirws a'r angen i ganolbwyntio adnoddau ar yr ymateb". Mae'n nodi y byddai cydymffurfiaeth yn erbyn y dyletswydd 'sylw dyledus' rhwng mis Chwefror 2018 a mis Rhagfyr 2022 bellach yn cael ei adrodd ym mis Ionawr 2023.

[55] Adroddiad ar Gydymffurfiaeth a'r ddyletswydd o dan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 – Mehefin 2015 – Ionawr 2018.

[56] Cynllun Hawliau Plant 2014.

[58] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 14 – Grŵp Monitro CCUHP Cymru.

at gasgliadau yn adroddiad yr EHRC a oedd yn dweud nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi manteisio i'r eithaf ar y cyfle i ddwyn y Gweinidogion i gyfrif am gydymffurfio â'r Confensiwn.[59] Nododd yr Arsyllfa fod adroddiad yr EHRC yn tynnu sylw:

> "[...] to the use of the due regard duty to influence policy and scrutinise Ministers by the CYPE Committee, e.g. scrutiny of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 (ALNETA), as an example of effective use of the Measure. However, it also noted that Assembly Members, other committees and on occasion the CYPE Committee, have not made the most effective use of the due regard duty during debates and scrutiny processes."[60]

**55.** Argymhellodd Achub y Plant:

> "[...] that the National Assembly should introduce a children's rights training programme for all Assembly Members and Committee staff in order for them to be able to properly scrutinise and hold Welsh Government to account on its application of the due regard duty and its commitments to children in Wales."[61]

## Dogfennau strategol allweddol

**56.** Nid yw dogfennau strategol allweddol Llywodraeth Cymru – *Mynd â Chymru Ymlaen*[62] *a Ffyniant i Bawb*[63] – yn cyfeirio'n benodol at hawliau plant na'r ddyletswydd "sylw dyledus" yn y Mesur.

**57.** Yn ôl Comisiynydd Plant Cymru "er gwaethaf galwadau i wneud hynny, mae'r Llywodraeth wedi colli cyfle i bortreadu ei hymrwymiad absoliwt i hawliau plant trwy hepgor hynny o Ffyniant i Bawb".[64] Ychwanegodd y Comisiynydd:

---

[59] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 04 – Yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant.

[60] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 04 – Yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant.

[61] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 22 – Achub y Plant.

[62] Llywodraeth Cymru, Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno mwy o swyddi o ansawdd gwell trwy economi gryfach a thecach, gwella a diwygio ein gwasanaethau cyhoeddus a chreu Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy.

[63] Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol, tudalen 4 Mae Ffyniant i Bawb yn cymryd ymrwymiadau allweddol Cymryd Ymlaen, yn eu gosod mewn cyd-destun tymor hir, ac yn nodi sut y maent yn cyd-fynd â gwaith gwasanaeth cyhoeddus ehangach Cymru i osod y sylfeini ar gyfer sicrhau ffyniant i bawb.

[64] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

> "Pan gyflwynir polisïau neu ymgyngoriadau, cyfeirir wedyn at y strategaeth hon fel y rheswm gwreiddiol neu'r cefndir ar gyfer cyflwyno darnau penodol o waith. Gwaetha'r modd, yn absenoldeb cysylltiadau clir â hawliau plant ar hyd y strategaeth hon, nid yw'r polisïau dilynol o ganlyniad wedi'u seilio ar ddull gweithredu seiliedig ar hawliau plant."[65]

**58.** Ategwyd y farn hon gan Achub y Plant, a ddywedodd fod absenoldeb cyfeiriad at hawliau plant yn *Ffyniant i Bawb* yn dystiolaeth nad yw adrannau eraill wedi blaenoriaethu hawliau plant i'r un graddau ag adrannau y bernir eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar ganlyniadau i blant.[66]

**59.** Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor:

> "The UNCRC and children's rights are implicit in 'Taking Wales Forward' and 'Prosperity for All', and children's rights are at the heart of the Government priorities."[67]

**60.** Mae pryderon ynghylch symudiad Llywodraeth Cymru tuag at strategaethau a strwythurau cynllunio i bob oed ac i ffwrdd o ddulliau penodol i blant yn thema a godwyd yn gyson gyda'r Pwyllgor hwn ar draws ein gwaith craffu. Un enghraifft yw'r symudiad i ffwrdd o Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc yr awdurdod lleol. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig hi, nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod dogfennau polisi allweddol, megis *Ffyniant i Bawb*, yn gynhwysol o ran oedran ac nad ydyn nhw'n rhoi ffocws strategol pwrpasol i Sylwadau Terfynol y Cenhedloedd Unedig.[68]

**61.** Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru hefyd fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015,[69] sy'n cael lle amlwg mewn llawer o strategaethau gan gynnwys *Ffyniant i Bawb*, yn cymryd agwedd pob oed ac nad yw'n amddiffyn hawliau cynhenid plant yn yr un modd ag a wnâi ymagwedd wedi'i seilio ar hawliau plant yn unig.[70]

---

[65] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[66] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 22 – Achub y Plant.

[67] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 5], 6 Tachwedd 2019.

[68] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 25 – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

[69] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

[70] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

## Cyfrifoldeb i sicrhau "sylw dyledus" ar draws Llywodraeth Cymru

**62.** Un o brif egwyddorion y Mesur yw bod hawliau plant yn "gyfrifoldeb i bawb".[71] Gan hynny, mae'r Mesur yn gymwys ar draws y Llywodraeth, i gydnabod y ffaith bod y dylanwadau pwysicaf ar hawliau plant yn ymestyn ar draws y Cabinet: datblygu economaidd, trafnidiaeth, yr amgylchedd a chynllunio. Y bwriad oedd sicrhau nad oedd cyflwyno hawliau plant yn perthyn i feysydd polisi fel addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn unig.

**63.** Mae portffolio presennol y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys hawliau plant a phobl ifanc, gan gynnwys y Confensiwn.[72] Cefnogi gwaith y Gweinidog yw'r rôl sydd wedi'i nodi i'r Dirprwy Weinidog.[73] Yn flaenorol, gellir dadlau bod mwy o amlygrwydd wedi'i roi i faterion plant a phobl ifanc yn strwythurau cabinet cynnar Llywodraeth Cymru, trwy gael Gweinidog yr oedd ei bortffolio a'i deitl yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc. Roedd yna is-bwyllgor cabinet hefyd yn unswydd i benderfynu ar bolisïau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.[74]

**64.** Amlygodd tystiolaeth gan Ddyneiddwyr Cymru bryderon nad yw dyletswyddau sy'n deillio o'r Mesur wedi'u hymgorffori'n llawn ar draws gweithgareddau Llywodraeth Cymru.[75] Mynegodd Comisiynydd Plant Cymru rwystredigaeth hefyd ynghylch y diffyg cydgysylltiad tybiedig ar draws y Llywodraeth ar faterion plant. Nododd tystiolaeth y Comisiynydd nad oedd yn ymddangos bod y Mesur wedi'i wreiddio'n llawn ar draws y Llywodraeth.[76] Dywedodd y Comisiynydd wrth y Pwyllgor:

> "[…] very often, policies are developed very much in one corner of Government or another. Some of that's very understandable for practical reasons—people have their portfolios and they work in them—but I think, again, that doing that analysis early on would alert people to where, actually, the issue in question crosses lots of areas of children's lives. So, some examples I would give would be home education, mental health in schools—they're two examples where we've

---

[71] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 13], 6 Tachwedd 2019.

[72] Llywodraeth Cymru, Cyfrifoldebau'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

[72] Llywodraeth Cymru, Cyfrifoldebau'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

[74] Erthygl gan Wasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Blaenoriaethu plant a phobl ifanc, 17 Mai 2016.

[75] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 08 – Dyneiddwyr Cymru.

[76] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

> really seen, over the last couple of years, things have got off to a false start really, or to a slow start, sometimes because it's been dealt with in one corner of Government and people haven't seen the importance of other portfolios being part of that. And I do think that early analysis and understanding, and thinking about the breadth of children's rights, would have really helped that."[77]

**65.** Dywedodd yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant ei bod yn ymddangos bod yna:

> "[…] an assumption that the due regard duty fell primarily on the Minister with responsibility for children. This assumption undermines the intended pervasive effect of the Measure."[78]

**66.** Dywedodd Achub y Plant wrth y Pwyllgor hefyd eu bod yn credu bod ymgorffori'r ddyletswydd "sylw dyledus" ar draws portffolios cabinet Llywodraeth Cymru wedi bod yn amrywiol, gan ychwanegu:

> "That embedding has been the most evident in departments that are perceived as having a direct influence over children's lives."[79]

**67.** Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fod tystiolaeth bod y Mesur yn cael ei ymgorffori ar draws y Llywodraeth yn bodoli mewn polisïau a chanllawiau. Yn fwy penodol, cyfeiriodd ei dystiolaeth at bortffolios yn swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio a oedd yn ymgorffori'r dyletswyddau a nodwyd yn y Mesur.[80]

**68.** Awgrymodd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent fod ymrwymiad clir i'r Mesur ar draws portffolios a pholisïau cabinet, ond nododd ei bod yn aneglur sut y gweithredir yr ymrwymiad hwn yn ymarferol.[81]

**69.** Nododd Chwarae Cymru rai datblygiadau cadarnhaol ar draws portffolios i helpu plant i gael mynediad at eu hawl i chwarae, gan gynnwys y terfyn cyflymder cenedlaethol disgwyliedig o 20mya. Er hynny, cydnabu ei bod yn anodd asesu a oedd y Mesur yn dylanwadu ar y penderfyniadau hyn.[82]

**70.** Dywedodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wrth y Pwyllgor fod yna adegau pan nad yw'n glir sut mae'r dyletswyddau yn y Mesur wedi'u hymgorffori ar draws

---

[77] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 380], 16 Hydref 2019.

[78] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 04 – Yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant.

[79] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 22 – Achub y Plant.

[80] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 06 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

[81] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 16 – Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent.

[82] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 10 – Chwarae Cymru.

y Llywodraeth yn effeithiol, ac felly y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau tryloywder i ddangos yn glir bod y Mesur wedi'i ymgorffori yn ei dyletswyddau.[83]

**71.** Pan ofynnwyd iddi egluro a yw ei rôl fel Dirprwy Weinidog yn cynnwys cyfrifoldeb am sicrhau bod y ddyletswydd "sylw dyledus" yn cael ei gweithredu ar draws holl bortffolios cabinet Llywodraeth Cymru, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

> "Well, the important thing about the Measure is that it means that children's rights are everybody's responsibility — the responsibility of all the Ministers. But, obviously, as the Deputy Minister, I hold the ring for children and young people's rights and entitlements, including the UNCRC, and I'm responsible for the Welsh Government's relationship with the children's commissioner.
>
> The First Minister also has functions relating to the appointment of the children's commissioner and formally responding to recommendations made by the children's commissioner in the commissioner's annual report. So, the First Minister also has a specific role, as well as me. The First Minister expects Welsh Government officials and ministerial colleagues to exercise the due regard duty with rigour and with an open mind, and make evidence-based and informed decisions. And there's not really any difference in any requirement for any of the Ministers […]"[84]

## Dulliau i sicrhau cyfrifoldeb am "sylw dyledus" ar draws y Cabinet

**72.** O ran sicrhau bod y cyfrifoldeb o roi "sylw dyledus" yn cael ei rannu ar draws Llywodraeth Cymru, dywedodd yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant wrth y Pwyllgor y dylai'r offer ymarferol sydd ar waith i helpu i weithredu'r Mesur, fel Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant, ddarparu gweithdrefn lle mae holl adrannau Llywodraeth Cymru yn ymwneud yn uniongyrchol â hawliau plant wrth ddatblygu polisïau.[85] Er hynny, canfu gwerthusiad o weithdrefn Llywodraeth Cymru ar gyfer Asesu'r Effaith ar Hawliau Plant, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, mai anghyson oedd y defnydd ar yr asesiad effaith hwn.[86] Daeth astudiaeth yr EHRC yn 2018 ar effaith y

---

[83] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 12 – Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs.

[84] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 13-14], 6 Tachwedd 2019

[85] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 04 – Yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant.

[86] Evaluation of the Welsh Government's Child Rights Impact Assessment procedure under the Children's Rights Scheme pursuant to the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, 2015.

Mesur i gasgliad tebyg.[87] Rydym yn trafod y mater hwn yn fanylach ym mhennod pedwar.

**73.** Awgrymodd Comisiynydd Plant Cymru y gallai dull, neu ystod o ddulliau, sicrhau bod cyfrifoldeb a rennir yn digwydd fel rhan o'r drefn ac yn effeithiol.[88] Dywedodd y Comisiynydd:

> "I'd be very keen to see a sub-committee of the Cabinet meeting, as we had early on in Assembly days, to talk about children. I did raise it with the First Minister at my first meeting with him, and he did take it away to think about. We haven't seen any progress on that, but he did say that they would be doing some more themed scrutiny, sometimes involving outside speakers, in Cabinet meetings, and that children's rights or child poverty could be part of that, but I'm afraid I don't have any information about whether that's been taken forward."[89]

**74.** Mewn ymateb, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor:

> "[…] as a Government, we are focused on delivering practical actions that make it better for children and young people. Establishing a Cabinet committee, of itself, would not achieve anything. I think possibly there are more effective ways of ensuring cross-Government action. For example, in the future, the Cabinet will be meeting to discuss a whole-Government approach to family poverty, particularly in responding to citizens who are in debt, and looking at family poverty as a whole. And that involves everybody, the whole of the Cabinet, and so that's the way that the cross-cutting themes are being addressed by the Cabinet."[90]

## Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ymhlith y Cabinet

**75.** Yn sgil yr egwyddor bod rhaid gweithredu'r Mesur ar draws y Cabinet, gwnaethom hefyd gymryd tystiolaeth ar ba gefnogaeth sydd ar gael i sicrhau bod y Gweinidogion yn gallu cyflawni eu dyletswyddau. Trafodir hyfforddiant i swyddogion ar y broses o Asesu'r Effaith ar Hawliau Plant ym mhennod pedwar.

[87] Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Effaith Integreiddio Cyfreithiol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru, Awst 2018.

[88] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[89] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 396], 16 Hydref 2019.

[90] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 17], 6 Tachwedd 2019.

**76.** Adroddodd Comisiynydd Plant Cymru yn ei thystiolaeth ysgrifenedig nad oes hyfforddiant i'r Gweinidogion ar sut i arfer "sylw dyledus" i hawliau plant trwy eu rôl. He hyfforddiant gorfodol, meddai'r Comisiynydd, "byddwn i'n dal i bryderu na fyddai hynny o bosibl yn trosi'n ddatblygiad polisi gwell ar draws y Llywodraeth".[91]

**77.** Dywedodd Achub y Plant wrth y Pwyllgor:

> "[…] without a strong body of knowledge about children's rights amongst all officials and Ministers, it will be difficult to ensure that the due regard duty will be effective across Welsh Government cabinet portfolios and policy. We are particularly concerned that training for Ministers and civil servants is not compulsory. Our belief is that such training should be a requirement at both induction and at a change of role."[92]

**78.** Dywedodd Chwarae Cymru y dylai Gweinidogion Cymru ymgymryd â hyfforddiant fel rhan o'r drefn.[93] Cefnogwyd y farn hon gan Grŵp Monitro CCUHP Cymru.[94]

**79.** Pan ofynnwyd iddi faint o'r 14 aelod o Gabinet Llywodraeth Cymru sydd wedi derbyn hyfforddiant penodol i'w helpu i gyflawni eu cyfrifoldeb cyfreithiol i roi "sylw dyledus" i hawliau plant wrth wneud penderfyniadau yn eu portffolios ers ymgymryd â'u swyddi fel Gweinidogion, atebodd y Dirprwy Weinidog:

> "Obviously, some of us have had training on children's rights, but this mandatory training is not in place […]"[95]

**80.** Yn ychwanegol at hyn, ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog atom ar 25 Tachwedd 2019 a nododd:

> "Mae amrywiaeth eang o hyfforddiant, gwybodaeth ac adnoddau ar gael i Weinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn gwneud hawliau plant yn rhan annatod o'r broses o ddatblygu polisi a darparu gwasanaethau. Bydd Gweinidogion hefyd yn cael cyngor cynhwysfawr gan eu swyddogion ynghylch goblygiadau'r cyngor polisi y maent yn ei ystyried mewn perthynas â hawliau plant. Mae'r cyngor hwn o gymorth

---

[91] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 29 – Comisiynydd Plant Cymru.

[92] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 22 – Achub y Plant.

[93] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 10 – Chwarae Cymru.

[94] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 14 – Grŵp Monitro CCUHP Cymru.

[95] Y Pwyllgor Plant, Pobl ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 20], 6 Tachwedd 2019.

sylweddol i Weinidogion yn y maes hwn – er nad yw'n gyfystyr â hyfforddiant ffurfiol.

[...] Nid oes rhaid i Weinidogion ddilyn hyfforddiant gorfodol ym maes hawliau plant ar hyn o bryd. Fodd bynnag, fel y soniais yn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor, byddwn yn agored i'r syniad o ysgrifennu at Weinidogion eraill Llywodraeth Cymru i gynnig y cyfle i gael hyfforddiant o'r fath."[96]

## Ein barn ni

**81.** Rydym yn croesawu barn rhai o'r tystion bod y Mesur wedi cael effaith gadarnhaol ar weledede hawliau plant yng Nghymru. Er hynny, mae llawer mwy i'w wneud a rhaid i hawliau plant a phobl ifanc fod yn ganolog i syniadau a gwariant Llywodraeth Cymru. Mae'n amlwg nad yw hyn yn wir bob amser. Rhaid rhoi pwyslais o'r newydd ar weithredu'r Mesur hwn yn iawn.

**82.** Rydym yn cydnabod na fwriadwyd erioed i'r Mesur ragnodi canlyniadau penodol ar gyfer plant a phobl ifanc. Er hynny, yn y tymor hwy, byddai dangos canlyniadau gwell o ganlyniad i'r Mesur yn ffordd ddefnyddiol o ddangos llwyddiant y ddeddfwriaeth hon.

**83.** I'r perwyl hwn, mae casglu a chyhoeddi gwybodaeth ystadegol gadarn yn rhan bwysig o gyflawni'r "mesurau cyffredinol" o weithredu'r Confensiwn.

**84.** Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan randdeiliaid ynghylch cyflymder dylanwad y Mesur ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â phlant a phobl ifanc. Ddeng mlynedd ers ei gyflwyno, nid ydym yn derbyn bod y Mesur yn "gymharol newydd", ac rydym yn credu bod llawer o gynnydd i'w wneud o hyd. Er bod y Mesur wedi darparu sylfaen dda i alluogi'r rhanddeiliaid i lobïo Llywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud â hawliau plant, rydym yn cefnogi'r galwadau iddi fod yn fwy egnïol. Rydym yn cytuno bod adolygu'r Cynllun Hawliau Plant yn gyfle i gael mwy o eglurder ar sut y bydd canlyniadau gwell yn cael eu cyflawni yn ymarferol.

**Argymhelliad 1.** Y dylai Llywodraeth Cymru ailddatgan ymrwymiad pendant i roi sylw dyledus i hawliau plant ym mhob penderfyniad y mae'n ei wneud, ar sail Asesiad cadarn o'r Effaith ar Hawliau Plant oni bai bod rheswm clir dros beidio ag ymgymryd ag un.

---

[96] Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – 25 Tachwedd 2019.

**85.** Rydym yn nodi'r sylwadau a wnaed gan y rhanddeiliaid ar ddiffyg craffu penodol gan y Senedd ynglŷn â'r ddyletswydd "sylw dyledus" yn y Mesur ac ynglŷn ag Adroddiad Cydymffurfiaeth 2018 Llywodraeth Cymru. Pan gafodd yr adroddiad hwnnw ei gyhoeddi, roedd y Pwyllgor eisoes wedi cytuno i gynnal adolygiad ehangach o effeithiolrwydd y Mesur a fyddai'n cynnwys craffu ar yr Adroddiad Cydymffurfio, a hynny er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr amser a oedd ar gael i ni. Mae'r Pwyllgor hwn wedi rhoi cryn dipyn o ffocws hefyd i Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant, yn enwedig wrth graffu ar y Gyllideb Ddrafft ac yn ein hymchwiliad tair ffordd ar asesiadau effaith yn 2019. Cafodd ein barn ar egwyddorion cyffredinol y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) ei fframio'n glir yng nghyd-destun hawliau plant. Byddwn yn myfyrio ar y pwyntiau a godwyd yn y dystiolaeth ac yn rhoi ystyriaeth lawn i'r Confensiwn yn ein holl ymchwiliadau.

**86.** Rydym yn pryderu am y diffyg cyfeiriad at y Confensiwn yn nogfennau strategol allweddol Llywodraeth Cymru a'r hyn y gallai hyn ei ddweud wrth y Pwyllgor am ba mor ganolog yw'r Mesur i syniadau Llywodraeth Cymru. Mae'n ymddangos bod ei absenoldeb yn tanseilio ethos y Mesur o ymgorffori'r ddyletswydd "sylw dyledus" ar draws y Llywodraeth gyfan. Nodwn ddatganiad y Dirprwy Weinidog bod hawliau plant yn "ymhlyg" yn y dogfennau hyn. Er hynny, nid ydym o'r farn bod hyn yn ddigonol o ran ymdrech i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hawliau plant yng Nghymru.

**87.** Clywsom nad oes tystiolaeth ddigonol bod y ddyletswydd "sylw dyledus" i'w gweld ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru. Nodwn y pryderon bod canfyddiad bod y ddyletswydd yn y Mesur yn disgyn ar y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros blant yn unig. Rhannwyd llawer o enghreifftiau gyda ni hefyd lle nad yw'n eglur a gafodd y Mesur ddylanwad ar benderfyniad neu faes polisi penodol neu beidio. Nodwn sylwadau'r Dirprwy Weinidog fod hyn yn "gyfrifoldeb i bawb".

**88.** Yn ychwanegol at y ffaith bod y ddyletswydd "sylw dyledus" yn gyfrifoldeb ar draws y Cabinet, byddai'n ddatganiad cryf o ymrwymiad i blant a phobl ifanc pe bai yna bortffolio i Weinidog wedi'i ganoli ar blant a rôl bendant o ddwyn aelodau'r Cabinet i gyfrif ynglŷn â'r ddyletswydd "sylw dyledus". Credwn y byddai hyn yn gam sylweddol tuag at sicrhau bod pob penderfyniad a wneir gan Lywodraeth Cymru yn rhoi "sylw dyledus" i hawliau plant.

**Argymhelliad 2.** Y dylai rôl i Weinidog gael ei chreu ar y cyfle nesaf gyda chyfrifoldebau clir a diffiniedig ar gyfer plant a phobl ifanc ynghyd â rôl bendant o ddwyn y Cabinet i gyfrif dros gyflawni darpariaethau'r Mesur.

**89.** Clywsom bryderon ynghylch diffyg hyfforddiant systematig i Weinidogion Cymru ynghylch eu cyfrifoldebau o dan y Mesur. Rydym hefyd yn nodi tystiolaeth Llywodraeth Cymru a nododd fod y "Gweinidogion yn ymwybodol o'u dyletswydd i roi ystyriaeth gytbwys i hawliau plant a CCUHP" a bod canllawiau ar gynghori'r Gweinidogion ar gael i swyddogion, "gan gynnwys eu rhwymedigaethau mewn perthynas â rhoi sylw dyledus i CCUHP fel rhan o'r broses o lunio polisïau".[97] Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Dirprwy Weinidog yn agored i ystyried yr hyn a allai fod yn briodol ac yn credu ei bod yn hanfodol bod unrhyw aelod o'r Cabinet nawr neu yn y dyfodol yn ymgymryd â hyfforddiant ffurfiol yn hyn o beth.

**Argymhelliad 3.** Y dylai Llywodraeth Cymru fewnosod darpariaeth yn ei Chynllun Hawliau Plant diwygiedig i holl Weinidogion Cymru ymgymryd â hyfforddiant cychwynnol a dilynol ar ddyletswydd "sylw dyledus" y Mesur.

[96] Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru.

# 4. Dulliau i helpu i weithredu'r Mesur

Mae'r Mesur yn ymgorffori ystyriaeth y Confensiwn yng nghyfraith Cymru. Amlinellir y trefniadau ymarferol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hystyried yn y gwaith y mae'n ei wneud yn ei Chynllun Hawliau Plant.[98] Mae'r Cynllun hwn yn nodi bod y broses o Asesu'r Effaith ar Hawliau Plant yn ddull allweddol ar gyfer cyflawni dyletswyddau'r Gweinidogion ar hawliau plant. Er hynny, datgelodd ein hymchwiliad ddiffyg hyder yn y broses asesu ac yng ngallu Llywodraeth Cymru i'w chymhwyso'n effeithiol.

## Y Cynllun Hawliau Plant

**90.** Mae Adran 2 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru lunio Cynllun Hawliau Plant.[99] Cymeradwywyd fersiwn gyfredol y Cynllun, sef yr ail, gan y Senedd yn 2014.[100]

**91.** Mae'r Cynllun yn nodi'r trefniadau o ran y canlynol:

- sicrhau bod gwaith codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant priodol ar gael ac yn cael eu hybu a'u defnyddio'n weithredol;
- rhoi proses i Asesu'r Effaith ar Hawliau Plant ar waith;
- cyflwyno dulliau ynglŷn ag atebolrwydd a chydymffurfio;
- darparu gwybodaeth a chanllawiau ar sut y gellir dwyn Gweinidogion Cymru i gyfrif am gydymffurfio â'r ddyletswydd "sylw dyledus";
- sicrhau bod y Cynllun yn cael ei adolygu yn ôl yr angen; a
- sicrhau dealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau o ran y holl elfennau hyn.

[97] Cynllun Hawliau Plant 2014.

[99] Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

[99] Cynllun Hawliau Plant 2014.

## Gohirio'r Cynllun Hawliau Plant diwygiedig

**92.** Mae Adran 2 o'r Mesur yn caniatáu i Weinidogion Cymru adolygu neu ail-wneud y cynllun unrhyw bryd.

**93.** Yn Adrodiad Cydymffurfio 2018, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn mynd i ystyried ac ymgynghori ar ddiwygiadau i'r Cynllun Hawliau Plant, a chynnig Cynllun diwygiedig i gael cymeradwyaeth y Cynulliad.[101] Roedd disgwyl i hwn gael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2018, ond nid oedd wedi cael ei ryddhau pan fuon ni'n ystyried yr adroddiad hwn.

**94.** Ym mis Awst 2019, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor ei bod yn debygol y câi'r Cynllun Hawliau Plant diwygiedig ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2020:

> "Mae fy swyddogion wrthi'n gweithio gyda'r sector plant, gan gynnwys ein grŵp o randdeiliaid arbenigol, y Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant1 , ar ddogfen ddiwygiedig. Byddwn yn trafod y drafft diweddaraf o'r Cynllun Hawliau Plant yn ein cyfarfod nesaf gyda'r Grŵp Cynghori ar 11 Medi 2019. Yn sgil y cyfarfod hwn, byddwn yn symud ymlaen i gynnal proses ymgynghori, gan dargedu plant a phobl ifanc hefyd, gyda'r bwriad o ddod i gytundeb ynghylch y Cynllun newydd yn ystod gwanwyn 2020."[102]

**95.** Gan gyfeirio at yr oedi cyn cyhoeddi, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru:

> "Mae fy nhîm a minnau wedi codi hyn yn rheolaidd gyda swyddogion ers hynny, gan nad oedd y gwaith hwn, gwaetha'r modd, yn dod i'r amlwg."[103]

### Datblygu'r Cynllun diwygiedig

**96.** Dywedodd papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ei bod yn cydnabod gwerth cyngor allanol arbenigol ac yn croesawu her gan y sector. Cyfeiriodd at ei Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant (CRAG) fel un o'r dulliau i helpu i yrru hawliau plant ymlaen a nododd ei bod yn gweithio'n agos gyda'r CRAG i ddatblygu fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun. Nododd y papur hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi

---

[100] Adroddiad ar gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd o dan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 – Mehefin 2015 – Ionawr 2018.

[102] Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

[103] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

ymrwymo i arddel dull cydweithredol i sicrhau bod y Cynllun newydd mor effeithiol â phosibl.[104]

**97.** Cododd y Comisiynydd Plant bryderon ynghylch y broses a fabwysiadwyd ar gyfer datblygu'r Cynllun diwygiedig. Amlygodd na chafodd y drafft diwygiedig ei rannu tan ddyddiau yn unig cyn cyfarfod y CRAG ym Mai 2019 yr oedd i fod i gael ei ystyried ynddo:

> "Mae fy swyddfa yn ymgynghorai statudol ar gyfer unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun, ac roeddem ni'n pryderu ein bod ni wedi cael cyn lleied o rybudd bod angen ymateb cyn bod bwriad i'r cynllun fod yn destun ymgynghori cyhoeddus. Roeddem ni'n siomedig iawn o weld mai ychydig iawn o newidiadau a wnaed yn y drafft diwygiedig, er gwaethaf ymrwymiadau clir yn Adroddiad Cydymffurfiaeth 2018."[105]

**98.** Yn eu tystiolaeth nhw, pwysleisiodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru bwysigrwydd y Cynllun Hawliau Plant a'i ddisgrifio fel y llawlyfr ar gyfer gweithredu'r ddyletswydd "sylw dyledus" ar draws y Llywodraeth, ond nododd fod angen ei adnewyddu.[106] Gan gyfeirio at yr oedi wrth gyhoeddi, roedd y Grŵp yn teimlo, ar ôl pwyso a mesur, ei bod yn bwysig bod yr ymgynghoriad ar y Cynllun diwygiedig yn ystyrlon:

> "[…] it was important that they [Llywodraeth Cymru] got it [y Cynllun diwygiedig] right in the first place before it was published, because I think the last thing we want to do is then providing comments on something that isn't fit for purpose. So, I think it's important that it is fit for purpose, and we wanted then to reflect that back to Welsh Government and say, 'Well, you've missed the target; let's get it right before it goes out there'."[107]

**99.** Adleisiwyd y farn hon gan yr EHRC[108] a dangosodd tystiolaeth Comisiynydd Plant Cymru mai dyna farn y CRAG hefyd. Gan fod y Cynllun presennol yn dal yn weithredol, ychwanegodd y Comisiynydd y byddai'n well ganddi "rywfaint o oedi

---

[103] Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru.

[105] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[106] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 82], 16 Hydref 2019.

[107] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 82], 16 Hydref 2019.

[108] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 290], 16 Hydref 2019.

gyda'r cynllun diwygiedig os yw hynny'n golygu y bydd y canlyniad terfynol yn well o safbwynt gwaith hawliau plant yn y Llywodraeth".[109]

**100.** O ran yr oedi, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

> "[…] on the children's rights scheme, obviously, this is a very important document, and we are working very closely with the children's rights advisory group to develop a new version of the children's rights scheme. Obviously, it does take time to work collaboratively, but it is slower than we'd hoped; I'd have to acknowledge that."[110]

## Diwygiadau i'r Cynllun yng ngoleuni argymhellion y Cenhedloedd Unedig

**101.** Mae Adran 13.2 o'r Mesur yn dweud:

> "Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn pen chwe mis ar ôl i'r Pwyllgor wneud unrhyw awgrym neu argymhelliad cyffredinol o dan erthygl 45(d) seiliedig ar adroddiad gan y DU, ystyried p'un ai i adolygu neu ail-wneud y cynllun yng ngoleuni'r awgrym hwnnw neu'r argymhelliad hwnnw."[111]

**102.** Y tro diwethaf i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig gyhoeddi ei ddyfarniad ar ba gynnydd a wnaed i gyflawni hawliau plant ledled y Deyrnas Unedig oedd 2016.[112]

**103.** Amlygodd tystiolaeth Comisiynydd Plant Cymru y gofyniad statudol yn y Mesur fod rhaid "ystyried o leiaf a oes angen diwygio'r Cynllun" yng ngoleuni'r Sylwadau Terfynol.[113] Dywedodd y Comisiynydd:

> "Nid wyf yn ymwybodol bod hyn chwaith erioed wedi digwydd […]"[114]

---

[109] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[110] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 104], 6 Tachwedd 2019.

[111] Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

[112] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn Concluding Observations on the fifth periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland, 2016.

[113] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[114] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

## Ein barn ni

**104.** Rydym yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd dulliau ymarferol i helpu i weithredu'r Mesur i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â'u dyletswydd i roi "sylw dyledus" i'r Confensiwn.

**105.** Fel rhan o'n hymchwiliad, cafwyd neges glir gan y rhanddeiliaid bod angen adolygu'r Cynllun Hawliau Plant, a hynny ar y sail bod angen ystyried barn allanol ar effeithiolrwydd y Cynllun, a bod angen cyflawni ymrwymiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn ei Adroddiad Cydymffurfiaeth diwethaf.

**106.** Roeddem yn falch o glywed bod Llywodraeth Cymru bellach yn gweithio'n agos gyda'r CRAG ar ddatblygu'r Cynllun diwygiedig. Rydym hefyd yn nodi barn rhanddeiliaid ar daro'r cydbwysedd cywir rhwng cael y Cynllun newydd yn iawn, a'r oedi parhaus cyn ei gyhoeddi.

**107.** Er hynny, rydym yn ymwybodol bod y gwaith ar ddatblygu Cynllun newydd wedi bod yn mynd rhagddo ers bron i ddwy flynedd. Er ein bod yn cydnabod bod trefniadau ar waith gyda pharhad y Cynllun presennol, credwn y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi Cynllun diwygiedig at ddibenion ymgynghori a chytuno gan y Senedd fel mater o flaenoriaeth. Nodwn yr amserlenni disgwyliedig ar gyfer cyhoeddi yng ngwanwyn 2020. Rhaid cyflawni'r gwaith hwn yn gyflym heb unrhyw oedi pellach, a rhaid iddo ystyried Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 2016.

## Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant

**108.** Bydd ystod eang o benderfyniadau Llywodraeth Cymru yn cael rhywfaint o effaith ar blant. Defnyddir Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIAs) yn rhyngwladol i ddarparu ffordd systematig o asesu sut y gall penderfyniadau roi effaith i'r Confensiwn. Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig wedi dweud:

> "Ensuring that the best interests of the child are a primary consideration in all actions concerning children (art. 3 (1)), and that all the provisions of the Convention are respected in legislation and policy development and delivery at all levels of government demands a continuous process of child impact assessment (predicting the impact of any proposed law, policy or budgetary allocation which affects children and the enjoyment of their rights) and child impact evaluation (evaluating the actual impact of implementation). This process needs

to be built into government at all levels and as early as possible in the development of policy".[115]

**109.** Mae'r broses asesu wedi'i nodi yn y Cynllun Hawliau Plant fel dull i gynorthwyo Gweinidogion Cymru a'r swyddogion i roi "sylw dyledus" i'r Confensiwn. Er hynny, nid oes dyletswydd statudol i ymgymryd â'r asesiadu hyn.

**110.** Mae'r broses o asesu'r effaith ar hawliau plant yn cynnwys chwe cham allweddol a a ddylai gael eu dilyn wrth ystyried perthnasedd ac effaith bosibl unrhyw benderfyniad ar blant a phobl ifanc:




Ffynhonnell: Cynllun Hawliau Plant 2014.[116]

**111.** Mae'r Cynllun Hawliau Plant yn nodi'r broses gyhoeddi ar gyfer yr Asesiadau hyn:

- "Bydd pob Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a wneir yn ôl deddfwriaeth yn cael ei gyhoeddi. Mae hyn yn wir hefyd ar gyfer is-ddeddfwriaeth sy'n cynnwys, er enghraifft, rheoliadau a wneir o dan ddeddfwriaeth sylfaenol.
- O ran penderfyniadau anneddfwriaethol, bydd pob Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael eu rhestru ar wefan Llywodraeth Cymru a byddant ar gael ar gais trwy'r blwch postio pwrpasol. Fodd bynnag, gall Gweinidogion unigol ddewis cyhoeddi Asesiadau penodol.

[115] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, General Comment No. 5 (2003)..
[115] Cynllun Hawliau Plant 2014.

- Bydd Gweinidogion yn ystyried sut y gall cyd-drafod effeithiol gyda rhanddeiliaid wella'r broses Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant. Byddant yn cael eu hannog i gyhoeddi Asesiadau fel rhan o unrhyw ymgynghori cyhoeddus er mwyn cael adborth ar gynnwys a chasgliadau'r Asesiad."[117]

**112.** Mae'r Cynllun yn disgrifio'r broses asesu fel un sy'n amrywio o feddwl am effaith penderfyniadau ar blant yn ystod gweithgareddau o ddydd i ddydd, hyd at gymhwyso templed asesu effaith strwythuredig yn ffurfiol ynghyd â chofnod o'r canlyniad a'r penderfyniadau. Mae'n mynd ymlaen i ddweud, os bydd y swyddogion yn penderfynu bod penderfyniad yn berthnasol i blant a phobl ifanc ac yn effeithio arnynt, y byddant yn defnyddio'r templed asesu.[118]

**113.** Mae'r Cynllun yn dweud bod awgrymiadau yn y templed asesu i helpu'r swyddogion yn eu dadansoddiad, i ddangos tystiolaethu bod hawliau plant wedi'u hystyried a bod pob cyfle wedi'i gymryd i nodi ffyrdd o wireddu'r hawliau perthnasol cyn i'r Gweinidogion wneud penderfyniadau. Mae'r Cynllun hefyd yn nodi bod y templed asesu yn gysylltiedig â phob cam ym mhroses benderfynu'r Gweinidogion ac yn cael ei gymhwyso ar draws pob adran.[119]

**114.** Mae materion a ddaeth i'r amlwg yn y dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn wedi cadarnhau pryderon y mae'r Pwyllgor hwn eu hunan wedi'u mynegi yn ystod y Pumed Cynulliad, yn enwedig wrth graffu ar Gyllidebau Drafft olynol Llywodraeth Cymru. Mae cwestiynau ynghylch a gafodd Asesiadau eu cynnal, eu hamseriad, eu hansawdd ac yn y pen draw pa wahaniaeth y maent wedi'i wneud i gyd yn bethau yr ydym wedi mynegi pryderon amdanynt o'r blaen.

## Amseru Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant

**115.** Roedd pryderon ynghylch pryd yn y broses benderfynu y mae'r Asesiad yn cael ei gynnal yn fater a godwyd gyda ni yn ystod yr ymchwiliad hwn. Mae hyn hefyd yn gysylltiedig â chwestiwn cyhoeddi Asesiadau a pha bryd. Mae'r diffyg cyhoeddi systematig yn golygu ei bod yn llai eglur pryd yn y broses y cafwyd yr Asesiad.

**116.** Dywedodd Briff gan UNICEF yn 2017, *Strengthening Child's Rights Impact Assessment in Wales*:

[116] Cynllun Hawliau Plant 2014.
[117] Cynllun Hawliau Plant 2014.
[118] Cynllun Hawliau Plant 2014.

> "Practice has varied quite extensively to date – while we found many good examples of CRIA, we also found CRIA that were drafted too late in the policy development process, becoming one-off products drafted to record and communicate decisions rather than to inform them."[120]

**117.** Er bod yr Asesiadau wedi gwella, dywedodd Barnardo's Cymru wrth y Pwyllgor fod y mwyafrif i raddau helaeth yn fesur o'r sylw a roddwyd i erthyglau'r Confensiwn a sut y cydymffurfiwyd â nhw i gefnogi penderfyniad yn hytrach na dadansoddiad o effaith yr opsiynau yn y penderfyniad.[121]

**118.** Dywedodd yr EHRC wrth y Pwyllgor:

> "I think we need to shift away from this tick-box process exercise of impact assessments in and of themselves to more changing the culture of policy making, which some of the principles of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 do encourage in terms of integration with other legislation, involvement and long-term thinking. So, it's about that shift to different ways of policy making in and of itself, so it's not just about that bit of paper that you tick through. So, it's starting at the beginning and having a full engagement process all the way through."[122]

**119.** Esboniodd Comisiynydd Plant Cymru:

> "[…] mae'r arfer o gwblhau CRIA tua diwedd y cyfnod datblygu, i adlewyrchu penderfyniadau a wnaed eisoes, yn ddigon cyffredin, ac mae'n golygu bod hawliau, mewn gwirionedd, yn cael eu ffitio o amgylch y penderfyniadau, yn hytrach na chael eu defnyddio i yrru datblygiad a bwriad polisïau."[123]

**120.** Dywedodd y Comisiynydd Plant hefyd fod ei swyddfa wedi ymateb i ryw 17 o ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru yn 2018-19:

> "We ask every time for the CRIA. They're very often not being done, and, of course, we're only responding to the ones that have got a child element in them, or they're coming to us late […] So, they're not there

[120] Briff UNICEF – Strengthening Child Rights Impact Assessment in Wales, 2017.

[121] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 19 – Barnardo's Cymru.

[122] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 301], 16 Hydref 2019.

[123] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

> early enough, and sometimes we feel that they've been put together on request."[124]

**121.** Adleisiodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru'r pryderon hyn, gan rybuddio "one of the issues is that not all CRIAs are done at the right time, not as early as possible, when they should be done".[125]

**122.** Yn ystod ei thystiolaeth lafar, gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog a oedd hwn yn ddarlun yr oedd hi'n ei adnabod ac a oedd Asesiadau'n cael eu defnyddio fel dull i gyfiawnhau penderfyniadau a oedd eisoes wedi'u gwneud. Dywedodd y Dirprwy Weinidog:

> "I can see that the paperwork might be the end of a process, whereas the discussions will have taken part during the process. Because I think it's really important that we look on children's rights and the CRIAs as being something that isn't limited to one bit of paper at one stage, but it's an ongoing process—something that goes on the whole time."[126]

## Amlder cymhwyso Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant

**123.** Roedd pa mor aml yr ymgymerir ag Asesiadau CRIAs ac i ba benderfyniadau y dylid eu cymhwyso yn fater arall a godwyd gyda ni.

**124.** Yn 2018, canfu adroddiad yr EHRC ar effaith y Mesur:

> "Wrth wneud sylwadau ar CRIA fel agwedd ar ddatblygu polisi, nododd nifer o randdeiliaid y methiant i ragnodi CRIA fel gofyniad statudol i bob polisi fel gwendid yn y Mesur."[127]

**125.** Er bod "cyflwyno CRIA wedi helpu i godi proffil hawliau plant wrth ddatblygu polisi yng Nghymru", nododd adroddiad yr EHRC yn 2018 mai 'afreolaidd ac anghyson' oedd eu defnydd yn ymarferol ac roedd hynny "weithiau'n tanseilio gweithredu'r ddyletswydd sylw dyledus yn sylweddol".[128]

---

[124] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 403], 16 Hydref 2019.

[125] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 61], 16 Hydref 2019.

[126] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 76], 6 Tachwedd 2019.

[127] Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Effaith Integreiddio Cyfreithiol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru, Awst 2018.

[128] Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Effaith Integreiddio Cyfreithiol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru, Awst 2018.

**126.** Dadleuai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd er bod rhywfaint o dystiolaeth bod y ddyletswydd "sylw dyledus" yn y Mesur wedi gwella gwelededd plant a phobl ifanc, "mae'n anodd penderfynu i ba raddau mae'r Mesur wedi gwella'r canlyniadau heb orfodi cyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant".[129]

**127.** Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, dywedodd Hafal wrth y Pwyllgor:

> "[…] due regard is simply the starting point but too often this is treated as a tick box exercise and not part of a longer term more complex commitment in ensuring the rights of the child. In addition, due regard is inadequate and the impact upon children (especially the most vulnerable) found when the Measure is applied, is deemed lower in priority than economic benefits (amongst others – trade and industry being the biggest)."[130]

**128.** Cawsom dystiolaeth a amlygodd yr amrywio wrth gymhwyso'r broses asesu. Er enghraifft, codwyd diffyg asesiadau ar gyfer gosod cyllideb a rhai ymgynghoriadau polisi gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.[131]

**129.** Nododd Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2017-18 hefyd fod swyddfa'r Comisiynydd wedi gofyn am asesiadau ar y penderfyniadau cyllidebol canlynol ond nad oedd y rhain ar gael: Y Grant Gwisg Ysgol; Y Grant Cyflawniad Ethnig Lleiafrifol; a Rhaglen Gyswllt Ysgolion Cymru Gyfan.[132]

**130.** Argymhellodd Chwarae Cymru yn eu tystiolaeth nhw y dylid ymgymryd ag asesiadau yn gyson ar yr holl bolisïau, penderfyniadau ar gyllidebau a deddfwriaeth arfaethedig sy'n debygol o effeithio ar blant a phobl ifanc.[133]

**ASTUDIAETH ACHOS: Pryderon ynghylch peidio â chymhwyso Asesiadau at benderfyniadau ar gyllidebau**

Ym mis Hydref 2019, dywedodd Ysbyty Plant Noah's Ark yng Nghymru wrth y Pwyllgor nad yw'r Mesur wedi'i ddefnyddio i ddylanwadu ar ddiwylliant cyllido a darparu ymchwil iechyd ac awgrymodd, er eu bod wedi gofyn am Asesiad o'r

[129] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 24 – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

[130] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 36 – Hafal.

[131] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 24 – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

[131] Comisiynydd Plant Cymru – Adroddiad Blynyddol 2015/16.

[133] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 10 – Chwarae Cymru.

Effaith ar Hawliau Plant ynglŷn â phenderfyniad i newid y model cyllido ar gyfer ymchwil iechyd, nad oedd un wedi'i ddarparu iddynt hyd yn hyn.[134]

Yn eu tystiolaeth lafar, dywedodd cynrychiolwyr wrth y Pwyllgor "after several attempts over period of a year, we have asked Welsh Government to apply a CRIA to the review of the activity-based funding model. Perhaps because civil servants know we are giving evidence today, we recently received an e-mail to say that they will now apply CRIA to this process. We are waiting to see the evidence –"[135]

Mewn gohebiaeth a ddaeth i law ym mis Tachwedd 2019, cadarnhaodd Ysbyty Plant Noah's Ark yng Nghymru nad oeddent eto wedi gweld yr Asesiad ar gyfer y newid polisi hwn a mynegodd bryderon difrifol na fyddai'r newidiadau yn y model cyllido yn codi ymchwil glinigol bediatreg Cymru allan o'i chylch tlodi, a'u bod yn teimlo ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gallu "dangos eu gwaith i ni".[136]

Nododd gohebiaeth bellach a ddaeth i law ym mis Ionawr 2020 hyn: "there is no evidence on the Welsh Government website to indicate that a CRIA has been undertaken into the review of the Activity Based Funding Model, or as part of the decision making regarding the significant amount of public funds that will be spent on the health and social care research infrastructure by the Welsh Government 2020-2025".[137]

**131.** Wrth ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor am y broses Asesu, dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor:

> "[…] in the same way with other impact assessments, of which there are around 17 that we have to consider, we have to first of all look at and consider whether a full children's rights impact assessment needs to be completed. And it could be that, in some cases, a decision has been taken that a full children's rights impact—. I can't comment on this particular one, but a full children's rights impact assessment may not be needed in some cases. And therefore it's not that the CRIA hasn't been made available or that there is a lack of potential transparency; it

[134] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 157], 16 Hydref 2019.

[135] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 158], 16 Hydref 2019.

[136] Llythyr Ysbyty Plant Noah's Ark yng Nghymru – 20 Tachwedd 2019.

[137] Llythyr Ysbyty Plant Noah's Ark yng Nghymru – 8 Ionawr 2020.

> could well be that, as part of that initial process, there is a clear decision that a children's rights impact assessment may not be needed."[138]

## Ansawdd y broses Asesu Effaith

**132.** Mae ansawdd yr Asesiadau ac i ba raddau y maent felly wedi dylanwadu'n ystyrlon ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru yn fater a godwyd mewn tystiolaeth.

**133.** Cododd Comisiynydd Plant Cymru bryderon ynghylch dyfnder y dadansoddi a wnaed yn yr Asesiadau.[139] Dywedodd y Comisiynydd yn ei thystiolaeth ysgrifenedig fod y diffyg dadansoddi ynglŷn â'r opsiynau a lliniaru unrhyw ganlyniadau negyddol yn y broses yn arwain at asesiad diffygiol:

> "Yr hyn fyddai orau gennyf fi ei weld yw cydnabod unrhyw elfennau negyddol neu ddiffygion mewn polisi neu benderfyniad yn y fan honno, ond gyda chamau lliniaru clir, a bwriadau i adolygu'r sefyllfa'n barhaus […]
>
> Byddai'n annhebygol i unrhyw bolisi fod â goblygiadau cwbl gadarnhaol neu niwtral ar gyfer y boblogaeth gyfan, felly mae sôn am y pethau cadarnhaol yn unig yn gwneud yr asesiad yn anghyflawn ac o bosibl yn gamarweiniol yn fy marn i."[140]

**134.** Nododd y Comisiynydd Plant fod y Gweinidogion yn dibynnu ar hyn o bryd ar gasgliad yr Asesiad fel y brif ffordd y maent yn arfer "sylw dyledus" a "dylent bryderu nad yw'r cyngor sy'n cael ei ddarparu iddynt o reidrwydd wedi'i seilio ar ystyriaeth lawn o'r holl faterion perthnasol fel rhan o'r dadansoddiad ehangach hwnnw".[141]

**135.** Awgrymodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru y dylid cael cyfle i ailedrych ar Asesiad ymhen blwyddyn ar ôl i'r ddeddfwriaeth neu'r polisi gael eu cyflwyno:

> "It [CRIA] should be a working document setting out, 'This is what our intention is and this is what expectation is, in terms of policy and legislation.' But, as we know, it doesn't always follow through in that

[138] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, para 93], 6 Tachwedd 2019.

[139] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 404], 16 Hydref 2019.

[140] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[141] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

> way. So, there's an opportunity then to reflect on that and revisit the CRIA."[142]

**136.** Dywedodd tystiolaeth Llywodraeth Cymru:

> "Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn nodi'n glir y broses y dylai swyddogion ei dilyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â phroses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i roi sylw dyledus a sut i roi cyngor sy'n caniatáu i Weinidogion roi ystyriaeth gytbwys i faterion, gan gynnwys sut mae erthyglau CCUHP wedi cael eu hystyried."[143]

**137.** Aeth ymlaen i ddweud bod y broses asesu yn gymharol newydd ac felly roedd yn croesawu adborth ar yr Asesiadau a gynhaliwyd hyd yn hyn, gan ychwanegu:

> "Ein nod yw rhoi dull gweithredu cymesur sy'n helpu i sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant o ansawdd uchel."[144]

## Ymgysylltu â'r rhanddeiliaid yn ystod y broses Asesu

**138.** Un llwybr sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i wella ansawdd ei hasesiadau yw ymgysylltu â'r rhanddeiliaid perthnasol a chael eu hadborth. Mae'r Cynllun Hawliau Plant yn dweud:

> "O fewn canllawiau gweithdrefnol, anogir swyddogion i ddefnyddio'r templed Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant fel rhan o'r arfer o gyd-drafod â rhanddeiliaid wrth ymgynghori."[145]

**139.** Croesawodd Comisiynydd Plant Cymru y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â'r CRAG yn fwy diweddar yn ystod cyfnod datblygu rhai Asesiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.[146]

**140.** Dyweodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru hefyd:

> "[...] a number of us [members of the CRAG] have had an opportunity to engage with officials who are developing CRIAs at an early process, prior to their being published. So, I think two recent positive examples

---

[142] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 60], 16 Hydref 2019.

[142] Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru.

[143] Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru.

[144] Cynllun Hawliau Plant 2014.

[146] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

have been the CRIA on the abolition of reasonable punishment [...] That went into a great deal of detail in terms of international research evidence. You could tell that the person who had written it had engaged with the process, had engaged more widely and had really considered the whole CRIA process [...] More recently there is a consultation out on home education as well."[147]

**141.** Er hynny, nododd Achub y Plant yn eu tystiolaeth nhw fod y broses asesu yn methu ag ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc.[148]

**142.** Cyfeiriodd yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant at hyn yn eu tystiolaeth nhw, gan gyfeiriodd at adroddiad yr EHRC yn 2018 a ddaeth i'r casgliad nad yw'r broses asesu'n ymgysylltu'n ddigonol â phlant. Nododd fod hyn yn "both a failure in CRIA good practice, but also a breach of children's rights under the UNRC (Article 12[149])".[150]

**ASTUDIAETH ACHOS: Arferion gorau Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant**

Cyfeiriwyd at yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ynglŷn â'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) yn y dystiolaeth fwy nag unwaith fel enghraifft o arferion da.

"Cafodd y CRIA [...] ei baratoi'n drylwyr, gyda chroesgyfeirio at ymchwil berthnasol, ac roedd yn cynnwys opsiynau i liniaru unrhyw effaith negyddol bosibl a nodwyd."[151]

"Mae'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) [...] yn enghraifft gadarnhaol o Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant sydd wedi cynnwys dadansoddiad."[152]

"That [CRIA] went into a great deal of detail in terms of international research evidence. You could tell that the person who had written it had engaged with

[147] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 59-60], 16 Hydref 2019.

[148] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 22 – Achub y Plant.

[149] Mae Erthygl 12 yn dweud bod gan blant hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

[150] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 04 – Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant.

[151] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[152] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 19 – Barnardo's Cymru.

> the process, had engaged more widely and had really considered the whole CRIA process."[153]

## Symud tuag at asesiadau effaith integredig

**143.** Nododd yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant yn eu tystiolaeth nhw fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu symud tuag at fodel asesiad effaith integredig (IIA). Nododd yr Arsyllfa eu bod nhw, ynghyd ag aelodau eraill o'r CRAG, wedi codi gyda Llywodraeth Cymru yr angen i gadw ffocws ar Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Lant fel rhan o asesiadau integredig. Roedd yn croesawu cadw Asesiadau o'r Effaith ar Hawiau Plant fel agwedd ar IIAs, ond nododd bryderon y bydd y ffocws ar hawliau plant yn cael ei wanhau fel rhan o'r symudiad.[154]

**144.** Croesawodd Comisiynydd Plant Cymru'r templed newydd sy'n bwydo i mewn i'r model IIA gan fod hwnnw'n gofyn i'r ysgrifennwr nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol. Er hynny, awgrymodd y Comisiynydd "hyd yn oed gyda fformat newydd, nad yw'r CRIA a welais wedi dilyn hyn yn gyson, felly mae rhai yn syml wedi gofyn cwestiynau mwy cyffredinol am effaith, yn hytrach nag ystyried effaith gadarnhaol a negyddol yn benodol". Ychwanegodd y Comisiynydd, "Serch hynny, rwy'n teimlo bod adran glo yn dal ar goll, ac felly bod yr asesiad a'r cyngor i'r Gweinidog yn anghyflawn".[155]

**145.** Amlygodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru fod y materion a godwyd ynglŷn â chymhwyso Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant ar yr holl bolisïau, penderfyniadau ar gyllidebau a deddfwriaeth arfaethedig sy'n debygol o effeithio ar blant a phobl ifanc yr un mor berthnasol hefyd i'r model IIA wrth i hwnnw gael ei roi ar waith.[156]

**146.** Rydym yn ymdrin ag Asesiadau Effaith Integredig Strategol yn fwy manwl ym mhennod pump.

## Cyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'u cwblhau

**147.** Yn gysylltiedig ag amseriad Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant yn y broses benderfynu, y cyfeiriwyd ati yn gynharach yn yr adroddiad hwn, ceir cwestiwn a ddylent gael eu cyhoeddi a pha bryd.

---

[153] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 59-60], 16 Hydref 2019.

[154] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 04 – Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant.

[155] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[156] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 14 – Grŵp Monitro CCUHP Cymru.

**148.** Mewn cyferbyniad â'r datganiad yn y Cynllun Hawliau Plant y bydd pob Asesiad naill ai'n cael ei gyhoeddi neu ar gael ar gais (gweler para 111 uchod), cadarnhaodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru yn eu tystiolaeth nhw nad yw pob Asesiad ar gael yn gyhoeddus fel rhan o'r drefn.[157] Ychwanegodd y Grŵp nad oes proses gyson ar draws y Llywodraeth gyfan ynglŷn â chyhoeddi'r Asesiadau hyn.[158]

**149.** Er bod Comisiynydd Plant Cymru yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'r Cynllun Hawliau Plant presennol, cyfeiriodd at bryderon bod peidio â chyhoeddi Asesiadau ynghylch penderfyniadau polisi y tu allan i faes deddfwriaeth yn golygu nad oes yna gymhelliant i gwblhau'r asesiad yn gynnar.[159]

**150.** Dywedodd Gwasanaeth Seicoleg Gymunedol, Seicoleg a Therapïau Plant a Theuluoedd Gwent ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan:

> "To be able to effectively hold the Welsh Government to account, and in the spirit of transparency, Child Rights Impact Assessments should be published as a matter of course, rather than be 'available upon request'."[160]

**151.** Argymhellodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw y dylid sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gael fel rhan o'r drefn i randdeiliaid allanol ac i blant a phobl ifanc graffu arnynt, gan y byddai hyn:

> "not only enhance accountability, by enabling external players, including children and young people to be better able to hold Ministers to account but also enable them to gain an enhanced understanding of why and how certain decisions had been made and how due regard had been fully taken into account."[161]

**152.** Adleisiwyd y safbwyntiau hyn gan Chwarae Cymru.[162]

**153.** Ym mis Tachwedd 2019, ysgrifennodd y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru yn gofyn am restr lawn o'r Asesiadau presennol gan nad oeddent wedi'u rhestru ar y

[157] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 61], 16 Hydref 2019.

[158] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 66], 16 Hydref 2019.

[159] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 406], 16 Hydref 2019.

[160] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 25 – Gwasanaeth Seicoleg Gymunedol, Seicoleg a Therapïau Plant a Theuluoedd Gwent, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

[161] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 14 – Grŵp Monitro CCUHP Cymru.

[162] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 10 – Chwarae Cymru.

wefan bryd hynny.[163] Atebodd y Dirprwy Weinidog ym mis Rhagfyr 2019 gyda dolen i restr o'r Asesiadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a dywedodd:

> "[…] mae'r wefan Hawliau Plant newydd gael ei lansio o'r newydd ac roeddwn eisiau gwneud yn siŵr bod y dolenni perthnasol i'r Asesiadau'n gweithio cyn ymateb."[164]

## Capasiti staffio ar hawliau plant yn Llywodraeth Cymru

**154.** Yn ychwanegol at ein barn ar gefnogaeth i'r Gweinidogion i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Mesur, mae mater capasiti staff Llywodraeth Cymru hefyd yn rhywbeth a godwyd gyda ni. Pan ddaeth y Mesur i rym gyntaf cafodd Tîm Gweithredu Mesur (MIT) ei greu i adlewyrchu'r angen am gefnogaeth arbenigol ar draws yr holl bortffolios.

**155.** Mae'r Cynllun Hawliau Plant yn dweud y gall swyddogion fynd at yr MIT i gael cymorth ynglŷn ag asesiadau cychwynnol.[165]

**156.** Nododd gwerthusiad Hoffman a Morse yn 2015 o Asesiadau Llywodraeth Cymru o'r Effaith Hawliau Plant fod yr MIT yn adnodd gwerthfawr i liniaru diffyg ymwybyddiaeth gyffredinol a diffyg gwybodaeth briodol am hawliau plant ymhlith swyddogion Llywodraeth Cymru.[166]

**157.** Er hynny, dywedodd yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant wrth y Pwyllgor:

> "We note changes in personnel engaged in the MIT since the 2015 study, with dissipation of expertise. We also note that the MIT appears to have lost its identity, and is no longer held out as a referral body for those working on CRIA within the Welsh Government. To some extent this is mitigated by the work of the Children's Branch within Welsh Government, and the opportunity provided by the Children's Rights Advisory Group (CRAG) to gain external insight into child rights issues that arise in relation to policy proposals."[167]

---

[163] Llythyr at y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: 13 Tachwedd 2019.

[164] Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: 10 Rhagfyr 2019.

[164] Cynllun Hawliau Plant 2014.

[166] Evaluation of the Welsh Government's Child Rights Impact Assessment procedure under the Children's Rights Scheme pursuant to the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, 2015.

[167] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 04 – Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant.

**158.** Pan ofynnwyd iddi a oedd digon o allu yn Llywodraeth Cymru i helpu i weithredu'r Mesur, ymatebodd y Dirprwy Weinidog:

> "[…] I think it's certainly true to say that there's been a significant change in members of the team. That is, actually from the time that this started, there's been a huge change in members. But I'm sure you'll be pleased to hear that, this year, we have taken steps to increase the number of staff in the children's rights team, to support the important work in this area."[168]

## Hyfforddiant i swyddogion ar broses Asesu'r Effaith ar Hawliau Plant

**159.** Amlygodd tystiolaeth fod Adroddiad Cydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru 2018 yn nodi comisiynu, cydlynu a chefnogi hyfforddiant fel un swyddogaeth i gefnogi dealltwriaeth ddigonol o'r Confensiwn a'r gofynion ynglŷn â "sylw dyledus" a ragnodir gan y Mesur. Nododd yr Adroddiad Cydymffurfiaeth fod 648 o swyddogion ar draws pedair adran wedi cwblhau'r hyfforddiant ar-lein yn ystod y cyfnod dan sylw, sef nifer sylweddol is nag yn y cyfnod blaenorol. Nododd Chwarae Cymru fod hyfforddiant i swyddogion yn holl-bwysig, yn enwedig y rhai sy'n arwain ar ddatblygu Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant.[169]

**160.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor:

> "We have done a significant level of training on developing the CRIAs. Certainly we did that when the Measure was first introduced, and that has been supplemented regularly ever since."[170]

**ASTUDIAETH ACHOS: Pryderon ynghylch capasiti'r swyddogion ac effaith hynny ar effeithiolrwydd CRIAs**

Er bod **Achub y Plant** yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant ar draws ystod eang o'i meysydd polisi, mae ganddynt rai pryderon nad yw'r Asesiadau mor effeithiol ag y gallent fod oherwydd diffyg hyfforddiant ac arbenigedd ymysg y swyddogion. Nododd Achub y Plant fod y farn hon yn cael ei hategu gan Adroddiad Cydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru yn 2015 a oedd yn dweud bod gwybodaeth ac ymwybyddiaeth gyfyngedig o hawliau plant ymysg y swyddogion a oedd ymgymryd ag asesiadau yn wendid yn y broses asesu.

[168] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 102], 6 Tachwedd 2019.
[169] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 10 – Chwarae Cymru.
[170] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 77], 6 Tachwedd 2019.

**Dywedodd Achub y Plant Cymru:**

"We believe that this had led to some CRIAs not being adequate. For example, the CRIA drawn up for the Childcare Funding (Wales) Act was deeply flawed as it did not consider the effects of the policy on those children who were not eligible for the scheme; and therefore, did not meet the Welsh Government's obligations under the UNCRC."[171]

## Ein barn ni

**161.** Rydym yn pryderu am y nifer fawr o faterion a godwyd gyda ni ynghylch proses Asesu'r Effaith ar Hawliau Plant ac a yw'n effeithiol wrth wireddu'r nodau y tu ôl i'r Mesur.

**162.** Rydym wedi clywed tystiolaeth gref nad yw'r Asesiadau hyn yn cael eu cymhwyso'n gyson at bolisïau, deddfwriaeth a phenderfyniadau ar gyllidebau. Rydym hefyd yn nodi'r pryderon a godwyd bod yr asesiadau hyn wedi dod yn ymarfer blwch ticio mewn rhai achosion, i gyfiawnhau neu gyfleu penderfyniad a wnaed eisoes. Rydym yn glir yn ein barn bod rhaid i'r broses asesu gael ei hymgorffori yn natblygiad unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru o'r dechrau, ac na ddylid ei chymhwyso'n ôl-weithredol.

**163.** Rydym yn cytuno â'r farn bod yr asesiadau hyn yn cael eu drafftio'n llawer rhy hwyr yn y broses datblygu polisi. Yn ein barn ni, mae hyn yn dangos yn glir nad yw hawliau plant yn gyrru penderfyniadau Llywodraeth Cymru fel y dylent.

**164.** Rydym yn cydnabod nad yw cynhyrchu Asesiadau o'r Effiath ar Hawliau Plant yn ofyniad statudol. Er hynny, clywsom rywfaint o dystiolaeth nad oedd asesiadau ar gael ar gais, er gwaethaf y gofyniad yn y Cynllun Hawliau Plant iddynt fod ar gael os ydynt yn bodoli. At hynny, credwn y dylid cael hawl i herio penderfyniad i beidio ag ymgymryd ag asesiad.

> **Argymhelliad 4.** Y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys yn y dull cwyno yn ei Chynllun Hawliau Plant diwygiedig yr hawl i herio penderfyniad i beidio â chynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar unrhyw faes o ddatblygu polisi.

**165.** Rydym yn croesawu'r ymgysylltiad cadarnhaol â rhanddeiliaid wrth ddatblygu rhai asesiadau mwy diweddar. Mae'r dull hwn yn amlwg yn arwain at asesiadau effaith gwell a mwy effeithiol, megis yr asesiad ar gyfer y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru).

[171] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 22 – Achub y Plant.

**166.** Er hynny, hoffem weld mwy o dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn y broses asesu, gan fod y Confensiwn yn glir mai hawl plant i gael eu clywed ac i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt sydd bwysicaf. Nid ydym yn credu bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei dyletswydd o roi "sylw dyledus" heb yr ymgysylltiad hwn.

**167.** Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r broses asesu i sicrhau bod pob agwedd ar effaith polisi yn cael ei hystyried yn ofalus. Rydym wedi'n perswadio gan y dystiolaeth bod ystyried canlyniadau negyddol a'r dulliau lliniaru cysylltiedig yn allweddol i'r broses hon. Nid yw'n foddhaol bod rhai asesiadau ond yn crynhoi rhai trafodaethau a fu'n llwyddiannus ac nad ydynt yn rhoi unrhyw awgrym o syniadau nad aflwyddiannus. Rydym hefyd yn gweld gwerth mewn ailedrych ar asesiadau flwyddyn ar ôl i'r polisi neu'r ddeddfwriaeth gael eu cyflwyno, er mwyn myfyrio, fel yr awgrymwyd gan Grŵp Monitro CCUHP Cymru.

**168.** Rydym wedi clywed tystiolaeth nad yw pob asesiad ar gael yn gyhoeddus ac yn brydlon. Mae cyhoeddi'r holl asesiadau sydd wedi'u cwblhau yn bwysig o safbwynt atebolrwydd a thryloywder. Rydym yn ymwybodol bod anawsterau cychwynnol wedi bod wrth gyrchu asesiadau ar wefan Llywodraeth Cymru, ond rydym yn croesawu'r ymdrechion diweddar a wnaed i unioni hyn fel rhan o adnewyddiad ar dudalennau gwe hawliau plant Llywodraeth Cymru. Er hynny, mae'n ymddangos bod diffyg eglurder o hyd ynghylch nifer yr asesiadau sydd wedi'u cwblhau ac sydd wedi'u cyhoeddwyd ar y wefan ar sail y ffigurau a ddarparwyd yn y dystiolaeth.[172]

**169.** Er bod Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant yn offeryn ar gyfer datblygu polisi, maent hefyd yn offeryn i ni ac eraill graffu ar y penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'i dyletswydd "sylw dyledus". Gan hynny, rydym o'r farn bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau ar unwaith i wella argaeledd yr asesiadau er mwyn rhoi hyder yn y broses. Credwn y dylid cyhoeddi pob asesiad fel rhan o'r drefn, ni waeth a ydynt yn benderfyniadau ar ddeddfwriaethol neu beidio.

**170.** Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd argaeledd yr asesiadau hyn i blant a phobl ifanc. Fel yr amlygwyd gan Grŵp Monitro CCUHP Cymru mewn tystiolaeth, gallai cyhoeddi asesiadau helpu i gefnogi eu dealltwriaeth o ganlyniadau ac o'r penderfyniadau a wneir ar faterion a allai effeithio arnynt. Mae hyn, yn ein barn ni, yn cryfhau'r angen am fwy o dryloywder ynglŷn â'r broses gyfan.

[172] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 14 – Grŵp Monitro CCUHP Cymru.

**171.** Rydym yn pryderu am leihau'r capasiti staffio a cholli arbenigedd o bosibl yn Llywodraeth Cymru ynglŷn â chymhwyso hawliau plant, a'r broses o asesu'r effaith ar hawliau plant yn benodol. Credwn fod rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi asesiadau yn dangos y materion capasiti hyn. Mae'n siomedig nodi'r gostyngiad yn nifer y swyddogion sy'n ymgymryd â hyfforddiant ar ddatblygu asesiadau dros y blynyddoedd diwethaf, a'r effaith y mae'n ymddangos bod hyn wedi'i chael ar rai asesiadau o ganlyniad.

**172.** Rydym yn croesawu'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i gynyddu nifer y staff a lefelau gwybodaeth swyddogion y Llywodraeth. Rhaid monitro hyn er mwyn cynnal y lefelau hyn yn y dyfodol.

**Argymhelliad 5.** Y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r holl Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant sydd wedi'u cwblhau, gan gynnwys asesiadau ar benderfyniadau polisi nad ydynt yn ddeddfwriaethol, a hynny fel rhan o'r drefn.

# 5. Dylanwad hawliau plant ar wariant y Llywodraeth

Er bod y Confensiwn yn glir bod rhaid i lywodraethau weithio o fewn terfynau'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau bod hawliau plant wedi'u hymgorffori ym mhob penderfyniad, mae yna bryderon amlwg nad yw hawliau plant yn cael eu cynnwys yn ystyrlon yng nghynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru.

**173.** Mae'r Mesur yn golygu y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y ddeddfwriaeth, y polisïau a'r penderfyniadau sy'n effeithio ar blant yn cydymffurfio â'u hawliau dynol.

**174.** Mae Erthygl 4 o'r Confensiwn yn dweud:

> "States Parties shall undertake all appropriate legislative, administrative, and other measures for the implementation of the rights recognized in the present Convention. With regard to economic, social and cultural rights, States Parties shall undertake such measures to the maximum extent of their available resources and, where needed, within the framework of international co-operation."[173]

**175.** Er bod llawer o enghreifftiau lle na chanfuwyd bod hawliau plant yn dylanwadu ar benderfyniadau gwariant Llywodraeth Cymru, dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fod Llywodraeth Cymru, yn unol â nodau Erthygl 4 o'r Confensiwn, wedi buddsoddi mewn gwasanaethau blynyddoedd cynnar trwy'r rhaglen Dechrau'n Deg i geisio lliniaru effaith tlodi mewn ardaloedd difreintiedig.[174] At ei gilydd, clywsom fod cwestiynau sylweddol yn bodoli ynghylch i ba raddau y mae adnoddau'n cael eu dyrannu mewn ffordd sy'n cyflawni gofynion Erthygl 4 mewn ffordd systematig. Fe glywsom fan lleiaf nad yw hyn yn cael ei wneud mewn ffordd dryloyw.

**176.** Un pryder penodol oedd nad oedd Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'u cyhoeddi ynglŷn â Chyllidebau Drafft olynol Llywodraeth Cymru. Yn ystod y

---

[173] Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

[174] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 06 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

blynyddoedd diwethaf cafwyd symudiad tuag at gyhoeddi asesiadau effaith integredig. Mae'r cwestiwn a yw'r asesiadau integredig hyn yn dystiolaeth ddigonol o gydymffurfio â'r Mesur yn bryder a godwyd gyda ni yn ystod yr ymchwiliad hwn.

**ASTUDIAETH ACHOS: Diffyg gwariant ar wasanaethau caplaniaeth i blant o gredoau eraill**

Mae Erthygl 14 yn dweud bod rhaid i'r Gwladwriaethau sy'n Barti barchu hawl y plentyn i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd. Mae hefyd yn dweud y gall rhyddid i amlygu crefydd neu gredoau ddod o dan y cyfyngiadau hynny a ragnodir gan y gyfraith ac sy'n angenrheidiol i amddiffyn diogelwch y cyhoedd, trefn, iechyd neu foesau, neu hawliau a rhyddid sylfaenol eraill yn unig.[175]

Yn y cyd-destun hwn, mynegodd Dyneiddwyr Cymru siom nad yw GIG Cymru yn cydnabod yr angen am ofal ysbrydol ehangach i blant â chredoau sydd y tu allan i'r rhai a drafodir gan dimau caplaniaeth traddodiadol.

Dywedodd y dystiolaeth nad oedd gwariant blynyddol o £1.2m ar draws GIG Cymru ar gaplaniaeth Gristnogol yn darparu'n effeithiol ar gyfer y rhai sydd â chredoau eraill.[176]

## Prosesau gosod cyllideb Llywodraeth Cymru

**177.** Amlinellodd tystiolaeth Comisiynydd Plant Cymru ei phryderon ynghylch y diffyg ystyriaeth ar gyfer hawliau plant fel rhan o'r drefn yn y broses o bennu'r gyllideb. Dywedodd y Comisiynydd fod hyn wedi arwain:

> "[...] at benderfyniadau i dorri rhai llinellau cyllideb heb ddealltwriaeth wirioneddol o'r hyn roedd y gyllideb honno'n ei ddarparu a'r manteision i blant, nac ystyriaeth chwaith ynghylch a oes unrhyw linellau cyllideb yn gorgyffwrdd neu'n gadael bylchau lle mae un adran yn rhagdybio y bydd un arall yn delio gyda'r ddarpariaeth honno."[177]

**178.** Gan gyfeirio at ganfyddiadau adroddiad yr EHRC yn 2018, amlygwyd y diffyg Asesiad penodol o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18 yng nghyflwyniad ysgrifenedig Grŵp Monitro CCUHP Cymru.[178] Yn

---

[175] Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

[176] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 08 – Dyneiddwyr Cymru.

[177] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[178] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 14 – Grŵp Monitro CCUHP Cymru.

eu tystiolaeth lafar, nododd y Grŵp fod angen cynnal asesiad llawn o'r effaith yn erbyn y gyllideb.[179] Dywedodd y Grŵp hefyd:

> "The UN committee has been very vocal on this, and provided general comment 19 on public budgeting to help states be more transparent in their budgets, because, whilst we're seeing CRIAs against particular policy development, we haven't got that holistic flavour of what's being spent on children and what the impact is, where are potential cuts being made, or where there's money moved from one pot to the other. It's very difficult for us outside of Government to get a full flavour of what the impact of this is going to be on children's expenditure."[180]

**179.** Nodwyd bod Asesiad penodol o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i hepgor o broses y gyllideb hefyd gan yr EHRC, a oedd yn deall bod Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) wedi'i baratoi yn ei le, a hwnnw'n cynnwys cyfeiriad at nifer o amcanion, gan gynnwys hawliau plant. Dywedodd yr EHRC:

> "In its General Comment on the General Measures of Implementation, the UN Committee has clearly stated that governments cannot tell whether they are fulfilling children's economic, social and cultural rights, which are included in the Convention, to the maximum extent of available resources, as Article 4 of the Convention requires, unless they can "identify the proportion of national and other budgets allocated to the social sector and, within that, to children, both directly and indirectly."[181]

**180.** Dywedodd Achub y Plant wrth y Pwyllgor:

> "[…] our belief is that the full potential of the Measure is yet to be realised as children's rights are not embedded across all areas of Government activity for example the failure to apply a CRIA to the Welsh Government budget meant that the Welsh Government failed to comply with its own Child Rights Scheme."[182]

---

[179] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 41], 16 Hydref 2019.

[180] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 41], 16 Hydref 2019.

[181] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 26 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

[182] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 22 – Achub y Plant.

**ASTUDIAETH ACHOS: Diffyg "sylw dyledus" ar gyfer penderfyniadau ar gyllidebau**

Cododd Comisiynydd Plant Cymru bryderon ynghylch y diffyg ystyriaeth i hawliau plant mewn nifer o benderfyniadau ar gyllideb Llywodraeth Cymru.

"Rhai enghreifftiau o hyn yw grantiau gwisg ysgol a chyllid ar gyfer dysgwyr o dan anfantais, ac arian ar gyfer Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgol Cymru Gyfan (SchoolBeat) a ddarparwyd ar y cyd â'r Heddlu. Er fy mod i'n falch bod dylanwad fy swyddfa a'r Pwyllgor hwn, yn ogystal ag eraill, wedi llwyddo i wyrdroi'r penderfyniadau hynny, byddai CRIA manwl wedi gallu nodi'r meysydd hynny lle roedd gorgyffwrdd cyn i'r penderfyniadau cyllideb gael eu cyhoeddi."[183]

**181.** Ym mis Mawrth 2019 ar y cyd â'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, a'r Pwyllgor Cyllid, cyhoeddodd y Pwyllgor hwn adroddiad ar *Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol*.[184] Un o'r argymhellion ynddo oedd y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu gweithio gyda'r Comisiynydd Plant a'r EHRC i sicrhau bod y gofynion deddfwriaethol ynglŷn â chydraddoldeb a hawliau plant yn cael eu hadlewyrchu'n llawn ac yn effeithiol yn y broses asesu sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad gan gydnabod bod rhagor o waith i'w wneud.[185]

**ASTUDIAETH ACHOS: Dadansoddiad o dlodi plant fel rhan o'r broses gosod cyllideb**

Tynnodd Comisiynydd Plant Cymru sylw at dystiolaeth yn Adroddiad Llywodraeth Seland Newydd ynghylch Tlodi Plant yn 2019 – The Wellbeing Budget.[186]

Awgrymwyd bod y dadansoddiad hwn o sut y gall y gyllideb effeithio ar dlodi plant yn enghraifft o'r arferion gorau.

---

[183] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[183] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau; a'r Pwyllgor Cyllid Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol.

[185] Ymateb Llywodraeth Cymru.

[186] Llywodraeth Seland Newydd Child Poverty Report – The Wellbeing Budget, Mai 2019.

**Dywedodd y Comisiynydd Plant:**

"They have actually done the kind of analysis we'd be looking for from the budget, which is really looking at all aspects of the budget and any impact that may have on children's poverty."[187]

## Gwario ar hawliau plant ym maes iechyd

**182.** Tynnodd rhai o'r 26 o gyflwyniadau ysgrifenedig a gawsom fel rhan o'r ymchwiliad hwn sylw at effaith y Mesur ar feysydd polisi penodol, a'r amlycaf oedd iechyd plant.[188]

**183.** Mae'r Confensiwn yn cynnwys ystod o erthyglau sy'n berthnasol i iechyd plant. Er enghraifft, mae Erthygl 6 yn dweud bod rhaid i Wladwriaethau sy'n Bartïon gydnabod bod gan bob plentyn yr hawl gynhenid i fywyd a sicrhau bod y plentyn yn goroesi ac yn datblygu i'r graddau mwyaf posibl.[189]

**184.** Erthygl 24 o'r Confensiwn yw'r fanylaf o ran iechyd. Mae'n dweud hyn:

> "States Parties recognize the right of the child to the enjoyment of the highest attainable standard of health and to facilities for the treatment of illness and rehabilitation of health. States Parties shall strive to ensure that no child is deprived of his or her right of access to such health care services."[190]

**ASTUDIAETH ACHOS: Tryloywder y gwariant ar iechyd plant**

**Dywedodd Ysbyty Plant Noah's Ark yng Nghymru** wrth y Pwyllgor fod gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth glir, o dan Erthygl 4 o'r Confensiwn, i ddangos a yw'n cyflawni hawliau plant i iechyd i'r graddau mwyaf o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Dywedodd fod tystiolaeth dryloyw ar wariant ar blant ynglŷn ag ymchwil iechyd yn offeryn hanfodol wrth gyflawni'r rhwymedigaeth hon ac wrth

[187] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 186], 16 Hydref 2019.

[188] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 05 – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, CRW 06 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, CRW 15 – Epilepsy Action, CRW 17 – Ysbyty Plant Noah's Ark yng Nghymru, CRW 18 – Hafal, CRW 20 – Ysgolion yr Eglwys yn Llandaf: Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru, Dinas Llandaf ac Ysgol yr Eglwys Gadeiriol, Llandaf, CRW 21 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

[189] Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

[190] Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

ddangos tystiolaeth o sut mae gwariant a thoriadau arfaethedig yn effeithio ar y canlyniadau i blant a phobl ifanc o safbwynt mwynhau eu hawliau.[191]

Dywedodd cynrychiolwyr yr Ysbyty wrth y Pwyllgor "we don't have an early cancer medicines unit" i blant yn y De.[192] "Whilst conversely we do have three such centres for adults: Velindre, Cardiff and Swansea".[193]

Mynegodd cynrychiolwyr Noah's Ark bryderon hefyd am ddiffyg gwariant tryloyw ar iechyd plant gan ddweud, er eu bod wedi gofyn amdano, "the figure for what is currently spent by Welsh Government on paediatric research is not forthcoming, so the lack of transparency in public expenditure on paediatric research means that it's currently not possible to tell, without more detailed analysis, whether the Welsh Government is using sufficient levels of expenditure to fulfil children's rights to the highest attainable standard of health."[194]

Mewn ymateb, dywedodd y **Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**:

"Health and Care Research Wales will be making increased investments in children's research in its 2020-25 infrastructure funding through research centres [...] And I understand that a new set of recommendations are expected to be submitted to Welsh Government in November that propose bringing in a more responsive and agile approach to distributing research delivery funding, particularly for children."[195]

Mewn gohebiaeth ddiweddarach, dywedodd **Ysbyty Plant Noah's Ark yng Nghymru**, er eu bod yn cydnabod y cyllid ar gyfer y canolfannau ymchwil hyn, nad yw'r cyllid hwnnw'n mynd i'r afael â'r bylchau yn y seilwaith mewn ymchwil bediatreg glinigol. Galwodd Noah's Ark am weld yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gwblhawyd fel rhan o'r broses newid seilwaith.[196]

---

[191] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 17 – Ysbyty Plant Noah's Ark yng Nghymru.

[192] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 202], 16 Hydref 2019.

[193] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 210], 16 Hydref 2019.

[194] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 215], 16 Hydref 2019.

[195] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 60], 6 Tachwedd 2019.

[196] Llythyr Ysbyty Plant Noah's Ark yng Nghymru – 20 Tachwedd 2019.

Dywedodd gohebiaeth bellach a ddaeth i law ym mis Ionawr 2020 “we still have not been able to access evidence on the Welsh Government’s overall spending on clinical paediatric research support and delivery”.[197]

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21

**185.** Wrth edrych ymlaen at graffu ar Gyllideb Ddrafft 2020-21 Llywodraeth Cymru, dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor:

> “Mae’r gwaith paratoi ar gyfer y gyllideb eleni wedi cael ei lywio gan ein hwyth maes trawsbynciol â blaenoriaeth, sef y blynyddoedd cynnar, gofal cymdeithasol, tai, sgiliau a chyflogadwyedd, gwell iechyd meddwl, datgarboneiddio, tlodi a bioamrywiaeth.
>
> Mae pob un o’r meysydd hyn wedi cael eu harwain gan Weinidog – sydd heb unrhyw gyfrifoldeb portffolio uniongyrchol am y maes blaenoriaethol uniongyrchol – sy’n gweithio ar draws y llywodraeth er mwyn sicrhau bod yr holl waith a wnawn mewn gwahanol adrannau yn cael yr effaith fwyaf bosibl, gyda’r adnoddau a fydd ar gael inni yng Nghyllideb 2020-21.”[198]

**186.** Disgrifiodd Comisiynydd Plant Cymru’r dull hwn fel “cam ymlaen”.[199] Er hynny, cododd y Comisiynydd ansicrwydd ynghylch a yw unrhyw Weinidog penodol “yn hybu hawliau plant yn benodol ar draws y gyllideb”.[200]

**187.** Mewn tystiolaeth lafar, gofynnodd y Pwyllgor i’r Dirprwy Weinidog sut roedd “sylw dyledus” i hawliau plant yn ffurfio rhan o drafodaethau’r Cabinet ynghylch y dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21, gan gynnwys unrhyw gyllid canlyniadol a allai fod ar gael yn sgil penderfyniadau ar gyllideb y Deyrnas Unedig. Atebodd y Dirprwy Weinidog:

> “An integrated assessment enables us to understand the impact of decisions on different groups of people and how they affect different issues. So, we have to look at how these decisions affect children[...]
>
> Individual policy teams, in preparing for the budget and in coming forward with proposals, look at whether we need an impact

---

[197] Llythyr Ysbyty Plant Noah’s Ark yng Nghymru – 8 Ionawr 2020.

[197] Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru.

[199] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 382], 16 Hydref 2019.

[200] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 385], 16 Hydref 2019.

> assessment. It's part of a process, and it helps to inform decision making. So, that is already happening right throughout the Welsh Government, before we reach the stage where the decisions are made about how the budget allocations are made."[201]

**188.** O ran cyllid canlyniadol, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor:

> "If the consequentials come, as you know, they're not designated to any particular area—it's up to us here in Wales how that money is spent. And then we are in the process, which I think people have already described, where children's rights are embedded."[202]

## Ein barn ni

**189.** Nodwn yr ystod o dystiolaeth a gafwyd o ran dylanwad hawliau plant ar wariant Llywodraeth Cymru a'i effaith ar blant yng Nghymru.

**190.** Yn y cyd-destun hwn rydym hefyd yn nodi achosion manwl a ddarparwyd i dynnu sylw at faterion yn ymwneud â diffyg gwariant tryloyw ar iechyd ac ymchwil plant ac arwyddocâd ei effaith ar siawns bywyd rhai o'r plant mwyaf difrifol wael yng Nghymru.

**191.** Mae'r dystiolaeth a glywsom yn atgyfnerthu'n cred bod angen i'r broses o asesu'r effaith ar hawliau plant fod yn fwy tryloyw ac atebol fel y gall weithredu fel dull craffu ac fel offeryn cymorth i Weinidogion Cymru arfer eu dyletswydd "sylw dyledus".

**192.** Rydym yn dal i bryderu nad yw'r Mesur wedi'i ymgorffori'n llawn ar draws y Llywodraeth, fel y gwelir yn y diffyg trosolwg strategol o sut mae cyllideb y Llywodraeth yn hybu hawliau plant. Ein barn ni yw nad oes digon o ffocws ar hawliau plant ym mhrosesau gosod cyllideb Llywodraeth Cymru, sef safbwynt yr ydym wedi'i fynegi dro ar ôl tro yn ein gwaith craffu blynyddol ar Gyllidebau Drafft Llywodraeth Cymru.

**193.** Nodwn y dull a ddefnyddir gan Weinidogion Cymru ynglŷn â Chyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21. Er hynny, rydym yn cytuno â phryderon a godwyd gan y Comisiynydd Plant bod ansicrwydd ynghylch pa Weinidog fydd yn eiriol dros hawliau plant fel rhan o'r dull hwn. Mae'r ansicrwydd hwn yn

---

[201] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 31-32], 6 Tachwedd 2019.

[202] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 54], 6 Tachwedd 2019.

atgyfnerthu'n pryderon cynharach ynghylch yr angen am rôl benodol yn y Cabinet i sicrhau bod hawliau plant yn gyfrifoldeb ar y cyd.

**194.** Er bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad a wnaed yn ein cyd-adroddiad ar *Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol*[203] er mwyn sicrhau bod y gofynion deddfwriaethol ynglŷn â chydraddoldeb a hawliau plant yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn y broses SIIA, dywedodd hefyd fod arddel dull integredig yn caniatáu iddi ystyried penderfyniadau gwariant strategol trwy nifer o lensys er mwyn deall eu heffaith.[204] Mae gennym bryderon bod hawliau plant mewn perygl o gael eu gwanhau yn y broses hon. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i fyfyrio ar ei hagwedd at yr SIIA mewn cylchoedd cyllideb yn y dyfodol. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gyflawni'r gwaith hwn ac yn annog Gweinidogion Cymru i weithio gyda'r rhanddeiliaid i ddatblygu'r dull hwn ymhellach.[205]

**195.** Y ffordd y mae llywodraethau'n dyrannu cyllid yw un o'r arfau mwyaf pwerus sydd ganddyn nhw a rhai o'r penderfyniadau mwyaf arwyddocaol y maen nhw'n eu gwneud. Mae'r Pwyllgor hwn wedi cwestiynu'n gyson a yw gofynion y Mesur yn cael eu cyflawni o ran gwariant Llywodraeth Cymru ar draws ei phortffolios. Parhau mae'r pryderon hyn.

**196.** Mae'n siomedig nad yw Cynllun Gwella Cyllideb Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar,[206] sy'n amlinellu ei weledigaeth, gan gynnwys uchelgeisiau tymor byr a thymor canolig dros y 5 mlynedd nesaf yn cyfeirio at ofynion y Mesur, at blant a phobl ifanc, nac at y Confensiwn. Nodwn ei fod yn cyfeirio at Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ond nid at y Mesur. Mae'n arbennig o rwystredig ac anfoddhaol bod hyn yn digwydd ar ôl argymhellion yr adroddiad ar y cyd a gyhoeddwyd gennym y llynedd.

**Argymhelliad 6.** Y dylai Llywodraeth Cymru ailddatgan ei hymrwymiad i sicrhau bod y gofynion deddfwriaethol o ran hawliau plant yn cael eu hadlewyrchu'n llawn ac yn effeithiol yn ei phenderfyniadau ariannol ar draws pob portffolio, a hynny trwy ddiwygio'i Chynllun Gwella'r Gyllideb yn gyflym er mwyn egluro'r camau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd "sylw dyledus" yn y Mesur.

---

[202] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau; a'r Pwyllgor Cyllid Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol.

[204] Ymateb Llywodraeth Cymru.

[205] Ymateb Llywodraeth Cymru.

[206] Llywodraeth Cymru, Cynllun Gwella'r Gyllideb, Rhagfyr 2019.

**197.** Fel y nodwyd yn ein Hadroddiad ym mis Ionawr 2020 ynghylch *Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-2021*,[207] er ein bod wedi clywed esboniad y Llywodraeth am y symudiad tuag at gyhoeddi asesiadau effaith integredig nid ydym wedi'n hargyhoeddi bod y rhain, fel y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd, yn cydymffurfio â'r Mesur. Er y gallai hyn fod yn fater cyflwyniadol, nid ydynt yn rhoi hyder inni fod Cyllidebau Drafft yn cael eu datblygu mewn ffordd sydd wedi ystyried "sylw dyledus" yn benodol.

**198.** Ar y sail hon, hyd nes y gallwn fod yn dawel ein meddwl bod dyletswydd Llywodraeth Cymru i roi "sylw dyledus" i'r Confensiwn wedi'i hystyried yn amlwg fel rhan o'r SIIA, argymhellodd y Pwyllgor y dylai ddychwelyd i gyhoeddi Asesiad unigol o'r Efaith ar Hawiau Plant ynglŷn â'i Chyllideb Ddrafft i ddangos ei bod yn cydymffurfio â'r Mesur. Rydym wedi'n siomi bod y Llywodraeth wedi gwrthod yr argymhelliad hwn yn ei hymateb[208] i'n hadroddiad ynghylch *Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-2021*. Mae'r Pwyllgor hwn, ynghyd â'i ragflaenydd, wedi datgan ein pryder yn barhaus nad oes digon o ffocws ar hawliau plant yn y broses o osod y gyllideb.

**Argymhelliad 7.** Y dylai Llywodraeth Cymru ddychwelyd i gyhoeddi Asesiad unigol o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer ei Chyllideb Ddrafft i ddangos ei bod yn cydymffurfio â'r Mesur, nes y gellir sicrhau'r Pwyllgor hwn y gall yr Asesiad Effaith Integredig Strategol sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb Ddrafft ddangos bod y ddyletswydd i roi "sylw dyledus" i'r Confensiwn wedi'i harfer.

[207] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-2021, Ionawr 2020.

[208] Llywodraeth Cymru, Ymateb i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21, Chwefror 2020.

# 6. Gwybodaeth am hawliau plant

Yng ngoleuni'r ffaith bod y Confensiwn ar agor i lofnodwyr ers 30 mlynedd, mae Llywodraeth Cymru yn diweddaru ei hadnoddau hawliau plant.[209] Mae Erthygl 42 o'r Confensiwn yn dweud y dylai llywodraethau ymrwymo i sicrhau bod egwyddorion a darpariaethau'r Confensiwn yn hysbys i oedolion a phlant fel ei gilydd, trwy ddulliau priodol a gweithredol.[210] Adlewyrchir y ddyletswydd hon yn adran 5 o'r Mesur, ond rydym wedi clywed bod bylchau yn dal i fod yng ngwybodaeth plant ac oedolion o hawliau plant.

**199.** Mae Adran 5 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar y Gweinidogion i gymryd camau priodol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd (gan gynnwys plant) o'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol.[211]

**200.** Mae Cynllun Hawliau Plant Llywodraeth Cymru yn dweud:

> "Cred Llywodraeth Cymru fod hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn yn holl bwysig er mwyn galluogi'r cyhoedd, ac yn enwedig plant a phobl ifanc a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda hwy, i ddeall pa bryd 13 y mae rhywbeth sy'n effeithio arnynt yn ymwneud â gweithredu'r ddyletswydd sylw dyledus.
>
> Mae'n bwysig hefyd codi ymwybyddiaeth o'r mecanweithiau ar gael i blant a phobl ifanc sy'n gallu eu helpu hwy i ddeall diben y Mesur ac i herio neu holi ynghylch y ffordd y caiff y ddyletswydd sylw dyledus ei gweithredu. Bydd Gweinidogion yn ceisio sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn gwybod am y Mesur fel y gallant gynghori plant a phobl ifanc yn iawn a'u cefnogi os bydd angen.
>
> Bydd Gweinidogion yn ceisio sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn ymwybodol o'r Mesur fel y

[207] Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru.

[208] Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

[211] Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

> gallant gynghori plant a phobl ifanc yn briodol a'u cefnogi os bydd angen."[212]

## Rhoi gwybodaeth i blant a phobl ifanc

**201.** Ni all plant a phobl ifanc fynnu eu hawliau os nad ydyn nhw'n gwybod beth yw'r hawliau hynny. Yn yr un modd, ni all oedolion gyflawni rhwymedigaethau'r Mesur heb ddeall y dyletswyddau ynddo.

**202.** Soniodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru am bwysigrwydd adran 5 o'r Mesur:

> "[…] if we are going to embed UNCRC as part of our culture in Wales, people need to know about it and people need to understand the convention. So, I think it's really important that we increase knowledge of the convention, but that's only part of the process. We need to be able to increase understanding and then move towards where we're empowering young people to advocate on their own behalf or with others to defend their rights."[213]

**203.** Awgrymodd y Grŵp ei bod yn anodd mesur i ba raddau y mae gweithgareddau hyd yn hyn wedi cyflawni eu nod arfaethedig o gynyddu gwybodaeth am y Confensiwn, o gofio na chynhaliwyd arolwg cynhwysfawr o'r boblogaeth gyfan.[214]

**204.** Mewn cyferbyniad, cyfeiriodd tystiolaeth Comisiynydd Plant Cymru at Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 a ofynnodd i'r cyfranogwyr a oeddent wedi clywed am y Confensiwn a'r hyn yr oeddent yn ei ddeall:

- "Dywedodd 13% eu bod wedi clywed amdano a bod ganddyn nhw syniad gweddol o'r hawliau sydd dan sylw;
- Roedd 21% wedi clywed amdano, ond doedden nhw ddim yn sicr pa hawliau oedd dan sylw; a
- Doedd 65% ddim wedi clywed amdano."[215]

---

[210] Cynllun Hawliau Plant 2014.

[213] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 112-113], 16 Hydref 2019.

[214] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 14 – Grŵp Monitro CCUHP Cymru.

[215] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

**205.** Drwy ein hymgynghoriad ni ein hunain, roedd dwy ran o dair o'r 866 o bobl ifanc a gyflwynodd eu barn i'n harolwg 'Cyfarfod mewn Blwch' wedi clywed am "hawliau plant". Er hynny, dim ond traean oedd wedi clywed am y Confensiwn.[216]

**206.** Dywedodd adborth hwylusydd un grŵp:

> **"Dywedodd wyth o bobl ifanc mai'r sesiwn oedd y tro cyntaf iddyn nhw glywed am eu hawliau."**[217]

**207.** Cyfeiriodd hwylusydd arall at bobl ifanc a ddywedodd:

> **"Hwn oedd eu tro cyntaf iddyn nhw ddysgu am eu hawliau felly doedd ganddyn nhw ddim cysyniad o wella."**[218]

**208.** Dywedodd un o'r bobl ifanc wrth y Pwyllgor:

> **"I didn't understand rights when I was in year one but when I went up to juniors we talked more about them. Being older helps you understand the rights more."**[219]

**209.** Dywedodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru wrth y Pwyllgor fod adroddiad 2018 yr EHRC wedi nodi, ynglŷn â phlant, fod cyrchu gwybodaeth am y Confensiwn yn dibynnu i raddau helaeth ar a ydynt yn ymwneud ag unrhyw strwythurau a dulliau ymgysylltu ffurfiol ai peidio.[220] Ategwyd y farn hon mewn tystiolaeth gan Glybiau Plant Kids Clubs Cymru.[221]

**210.** Dywedodd Hafal wrth y Pwyllgor:

> "We know there are some excellent examples of such work with the Youth Parliament, the Wales Observatory, and engagement with Children in Wales but this is not uniform to all Children and Young

---

216 Cyfarfod mewn Blwch – Crynodeb ymgysylltu.

217 Cyfarfod mewn Blwch – Crynodeb ymgysylltu.

218 Cyfarfod mewn Blwch – Crynodeb ymgysylltu.

219 Cyfarfod mewn Blwch – Crynodeb ymgysylltu.

220 Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 14 – Grŵp Monitro CCUHP Cymru.

221 Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 12 – Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs.

> People and relies on specialist organisations rather than being seen as driven by Welsh Government. This also tends to be represented by CYP who are already positioned to act in this way and there needs much greater work for those CYP who are so disadvantaged that they would not be currently able to participate."[222]

**ASTUDIAETH ACHOS: Lleisiau Bach / Little Voices yn gweithio i gynyddu cymhwysiad hawliau plant yn eu gwaith**

Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, buom yn gweithio mewn partneriaeth â Lleisiau Bach / Little Voices i siarad â phlant oed ysgol gynradd. Roeddem am glywed yn uniongyrchol ganddynt sut mae hawliau plant yn helpu eu bywydau a beth arall y gellid ei wneud.

Mae'r prosiectau a ariennir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ym Mhrifysgolion Abertawe a Bangor yn defnyddio'r Confensiwn yn sail i'w gwaith i rymuso "plant fel ymchwilwyr".

Mewn prosiectau olynol dros ddeng mlynedd mae tîm Lleisiau Bach / Little Voices wedi bod yn cefnogi plant fel ymchwilwyr mewn cymunedau ledled Cymru.

Mae'r tîm wedi datblygu ffyrdd o alluogi plant i archwilio a dewis eu materion eu hunain ac ymgysylltu, ar sail eu cydfuddiannau fel dinasyddion, â'r oedolion sy'n gwneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau newid.[223]

**211.** Adroddodd Barnardo's Cymru ar ganlyniadau arolwg mewnol bach a gynhaliwyd gyda'u staff nhw a ddangosodd fod ychydig dros 80 y cant yn anymwybodol o gyfleoedd i blant a theuluoedd ddysgu am y Confensiwn. Roedd cyfranogwyr yr arolwg yn cydnabod bod rhai ysgolion, gwasanaethau eirioli a'r Comisiynydd Plant yn adnoddau a allai helpu i godi ymwybyddiaeth / dealltwriaeth o hawliau plant. Cydnabu Barnardo's Cymru fod y llywodraeth wedi gwneud cryn ymdrech i ddarparu adnoddau i symud ymlaen â hyn. Er hynny, dywedodd Barnardo's Cymru y dylai addysg ac ymwybyddiaeth barhau a chynyddu o ran eu cyrhaeddiad".[224]

**212.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru:

---

[222] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 18 – Hafal.

[223] Lleisiau Bach / Little Voices – Lleisiau Plant yn Cael eu Clywed.

[224] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 19 – Barnardo's Cymru.

> "Mae'n ofynnol i'r Llywodraeth wneud y Confensiwn yn hygyrch ac yn adnabyddus ledled Cymru. Mae hyn yn rhywbeth rydw i hefyd yn ei wneud fel rhan o'r drefn trwy gydol fy ngwaith, ond mae'n parhau i fod yn ddyletswydd ar Weinidogion i wneud hynny hefyd.
>
> Mae gofyn bod y Llywodraeth yn gwneud CCUHP yn hygyrch ac yn adnabyddus ledled Cymru. Mae hynny'n rhywbeth rwyf finnau'n ei wneud fel rhan o'r drefn ym mhob rhan o'm gwaith, ond mae dyletswydd ar Weinidogion i wneud hynny hefyd.
>
> […] Roedd grŵp ymgynghorol bach yn arfer bodoli ochr yn ochr â'r Grŵp Ymgynghorol ar Hawliau Plant (CRAG) oedd yn ymdrin yn benodol â gwaith Erthygl 42; ond nid yw bellach yn cyfarfod. Mae fy swyddfa wedi awgrymu y dylid ei ailgynnull ar wahanol adegau i gefnogi datblygiad strategaeth gyfathrebu gynhwysfawr, ond ni chafwyd ymateb i'r awgrym hwn."[225]

**213.** Awgrymodd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent fod lle i hybu'r Mesur a'i fuddion i blant a phobl ifanc yn ehangach i'r cyhoedd:

> "One of the most effective initiatives for embedding the principles of UNCRC, which currently exists in many schools across Gwent is the Right's Respecting School programme delivered through UNICEF. This initiative uses a whole school approach to embedding [sic] the principles of UNCRC. Through observations and feedback, this is one of the examples of an effective UNCRC approach across the region."[226]

**214.** Dywedodd yr EHRC, fel rhan o'u hymchwil nhw, fod y bobl ifanc a gymerodd ran yn eu gweithdai yn credu bod angen codi mwy o ymwybyddiaeth o hawliau plant trwy wybodaeth yn y brif ffrwd, nid dim ond trwy gynghorau ysgol neu fforymau ieuenctid.[227]

**215.** Dywedodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru wrth y Pwyllgor y dylai Gweinidogion Cymru ystyried datblygu strategaeth genedlaethol at hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn".[228] Ategwyd hyn gan Achub y Plant.[229]

---

[225] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[226] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 16 – Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent.

[227] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 26 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

[228] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 14 – Grŵp Monitro CCUHP Cymru.

[229] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 22 – Achub y Plant.

**216.** Nododd y Comisiynydd Plant y buddsoddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru mewn cynllun cyfathrebu newydd i ategu'r ffaith bod y Confensiwn yn agored i lofnodwyr ers 30 mlynedd. Dywedodd y Comisiynydd:

> "Fel rhan o'r gwaith hwn mae'r Llywodraeth wedi denu partneriaid allweddol i gefnogi'r gwaith, gan gynnwys fy swyddfa i. Rwyf wedi cael fy mhlesio gan y dull gweithredu hwn a'r buddsoddiad, a byddaf yn annog y Llywodraeth i barhau â'r dull hwn o weithio er mwyn sicrhau na chollir momentwm."[230]

**217.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor:

> "We are doing what we can to promote children's rights, and, as this is the thirtieth anniversary of the United Nations Convention on the Rights of the Child, we are making a particular effort to promote a knowledge and awareness of children's rights this year."[231]

**218.** Pan ofynnwyd iddi am y posibilrwydd o gael strategaeth codi ymwybyddiaeth genedlaethol, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

> "[…] we are working in close partnership with experts in communication to try to look at what longer-term promotion we can do to reach children […] But I think one of the keys to this is working with children to find out how we reach children generally, and, certainly, we are considering how we can do that."[232]

## Y Confensiwn a'r cwricwlwm

**219.** Awgrymodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru fod gwybodaeth am y Confensiwn yn dibynnu i raddau helaeth ar ba ysgol y mae disgybl yn mynd iddi.[233]

**220.** Dywedodd arweinydd sesiwn a gymerodd ran yn ein harolwg 'Cyfarfod mewn Blwch' fod yr ysgolion yn dal i beidio â hawliau plant, sy'n golygu nad yw cynifer o bobl ifanc yn gwybod amdanynt.[234]

**221.** Ymhlith y sylwadau eraill roedd pobl ifanc yn galw am yr angen i wneud y canlynol:

---

[230] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[231] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 125], 6 Tachwedd 2019.

[232] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 139], 6 Tachwedd 2019.

[233] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 14 – Grŵp Monitro CCUHP Cymru.

[234] Cyfarfod mewn Blwch – Crynodeb ymgysylltu.

**"Encourage rights in school."**[235]

**"Rights should be a set subject in school."**[236]

**222.** Nododd Llywodraeth Cymru ei chynlluniau ar gyfer diwygio addysg, gan gynnwys cyhoeddi cwricwlwm drafft newydd ym mis Ebrill 2019. Clywsom gan Gomisiynydd Plant Cymru y bydd lefelau ymwybyddiaeth yn methu â chodi, oni bai bod pob plentyn yn dysgu am ei hawliau trwy gydol ei gyfnod yn yr ysgol:

> "An important next step Government could take to implement children's rights is to make sure that, as we revise the new curriculum and put through the curriculum and assessment Bill, not only do we absolutely nail the fact that children will learn about their human rights and the rights of others—all human rights—but they will also learn in environments where their human rights are respected."[237]

**"Our pupils felt that the welsh government should make it compulsory for all schools to be rights respecting school and the teaching of rights should be in the curriculum." – Sylw gan arweinydd sesiwn 'Cyfarfod mewn Blwch'.**[238]

**223.** Roedd tystiolaeth yr EHRC yn ategu'r farn hon. Awgrymodd fod diwygio'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru yn gyfle i Lywodraeth Cymru gyflawni ei rhwymedigaethau rhyngwladol a domestig trwy weithredu addysg hawliau dynol mewn ysgolion yn llawn.[239]

**224.** Roedd y drafft a gyhoeddwyd yn nodi y câi cwricwlwm Cymru ei strwythuro o amgylch pedwar Diben Craidd a chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) yn hytrach na phynciau unigol. Rhoddodd nifer o gyflwyniadau[240] groeso i gynnwys addysg hawliau dynol yn y Cwricwlwm Drafft o dan y pwrpas sy'n anelu at ddatblygu plant a phobl ifanc fel "dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd" a'r MDPh Dyniaethau. Yn dilyn hynny,

[235] Cyfarfod mewn Blwch – Crynodeb ymgysylltu.

[236] Cyfarfod mewn Blwch – Crynodeb ymgysylltu.

[237] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 431], 16 Hydref 2019.

[238] Cyfarfod mewn Blwch – Crynodeb ymgysylltu.

[239] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 26 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

[240] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 08 – Dyneiddwyr Cymru, CRW 09 – Estyn

cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn derfynol *Cwricwlwm Cymru 2022*[241] ym mis Ionawr 2020, a gadarnhaodd fod cyfleoedd i ddysgu am hawliau dynol a'r Confensiwn wedi'u cynnwys yn y canllawiau statudol.

**225.** Dywedodd Achub y Plant wrth y Pwyllgor eu bod yn credu:

> "[...] that the Welsh Government must ensure that sufficient educational resources are available to schools to meet their requirements in the draft curriculum. We also believe that the Welsh Government should ensure that training is available for educators to ensure that the school's workforce is adequately skilled to meet schools' requirements under the new curriculum."[242]

**226.** Er hynny, nododd Comisiynydd Plant Cymru y byddai cynnwys dyletswydd "sylw dyledus" yn neddfwriaeth y cwricwlwm yn ddull effeithiol iawn i helpu Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, ac i gyflawni ei chyfrifoldeb dros fynnu cydymffurfiaeth lawn â'r Confensiwn."[243]

## Plant a addysgir gartref

**227.** Yn ystod yr ymchwiliad hwn, codwyd y cwestiwn sut y bydd plant nad ydynt mewn addysg brif ffrwd yn dysgu am eu hawliau.

**228.** Yng Nghymru, fel yng ngweddill y Deyrnas Unedig, mae'n orfodol i blentyn gael addysg addas, ond nid oes rhaid i hyn fod yn yr ysgol o reidrwydd.

**229.** Yn y blynyddoedd diwethaf mae Comisiynydd Plant Cymru wedi galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn anweledig a'u bod yn derbyn eu holl hawliau dynol[244] ac mae wedi mynegi rhwystredigaeth ynghylch cyflymder y cynnydd gyda hyn.[245] Er hynny, nododd y Comisiynydd fod y canllawiau drafft a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dangos symudiad mawr tuag at fodloni ei disgwyliadau o ran hawliau plant.[246]

**230.** Gofynnodd y Pwyllgor i Grŵp Monitro CCUHP Cymru sut y dylid sicrhau bod plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn ymwybodol o'u hawliau. Dywedodd y Grŵp wrth y Pwyllgor:

---

[241] Cwricwlwm i Gymru.

[242] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 22 – Achub y Plant.

[243] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[242] Comisiynydd Plant Cymru – Adroddiad Blynyddol 2018/19.

[245] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 20], 6 Tachwedd 2019.

[246] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 203], 6 Tachwedd 2019.

> "There needs to be more public awareness—a public awareness campaign around what does a human rights approach look like. That educates professionals, educates grandparents, everybody—the whole population. So, regardless of who's caring for children, and their circumstances, in terms of their education status, everyone has a broad understanding of the position and the priority given to human rights in Wales."[247]

## Cymhwyso hawliau mewn gwirionedd

**231.** Er bod llawer o blant yn ymwybodol o hawliau plant ac wedi clywed am y Confensiwn, clywsom rywfaint o dystiolaeth a awgrymodd nad yw llawer o bobl ifanc yn deall sut mae eu hawliau'n gymwys mewn gwirionedd.

> **"The group felt that generally there was a lack of information available to them about their rights in any tangible sense [...]" – Sylw gan arweinydd sesiwn 'Cyfarfod mewn Blwch'.**[248]

**232.** Dywedodd tystiolaeth ysgrifenedig ProMo-Cymru:

> "School age / attending Children and Young People (CYP) are relatively familiar and conversant with the UNCRC, the 42 articles. A significant gap emerges however, between this and their understanding of how the UNCRC impacts on their personal and individual reality."[249]

**233.** Dywedodd cynrychiolwyr yr EHRC wrth y Pwyllgor fod yna "a disconnect from practical application for children".[250] Tynnodd tystiolaeth y Comisiwn sylw at lefelau dealltwriaeth ymhlith pobl ifanc a gymerodd ran yn eu gweithdai ymchwil nhw:

> "Although the young people were able to talk about some of their experiences of accessing their rights [...] they did not link this with Welsh Government and the Children's Rights Measure. However, at the end of the workshop, when they could see the connections, they felt more empowered as they could understand that they had a right in

---

[247] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 118], 16 Hydref 2019.

[248] Cyfarfod mewn Blwch – Crynodeb ymgysylltu.

[249] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 23 – ProMo-Cymru.

[250] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 318], 16 Hydref 2019.

Welsh law to access their rights, which was more impactful than only linking it back to the UNCRC, a big international agreement."[251]

## Ymwybyddiaeth ymysg oedolion

**234.** Mae'r Cynllun Hawliau Plant yn nodi bod Tîm Gweithredu'r Mesur yn Llywodraeth Cymru yn arwain ar hybu'r Confensiwn ar ran y Gweinidogion. At hynny, mae'n nodi bod sefydliadau eraill hefyd wedi ymrwymo i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn, megis Comisiynydd Plant Cymru a rhanddeiliaid allanol eraill a phartïon eraill sydd â buddiant yn hyn o beth.[252]

**235.** Yn 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru. Argymhellodd yr adolygiad:

> "Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth genedlaethol gynhwysfawr newydd i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant. Dylai amodau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a g waith Comisiynydd Plant Cymru fod yn rhan o'r hyfforddiant i athrawon, gweithwyr cymdeithasol, personél iechyd a'r holl weithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, a dylent fod yn rhan orfodol o'r cwricwlwm mewn ysgolion."[253]

**236.** Bryd hynny, wnaeth Llywodraeth Cymru ddim derbyn na gwrthod yr argymhelliad, gan ailddatgan yn hytrach y dull yr oedd eisoes yn ei arddel.[254]

### Ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol

**237.** O gofio i ba raddau y mae dyletswyddau'r Mesur yn cael eu gweithredu ar draws yr holl bortffolios, mae gwybodaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol perthnasol yn hanfodol er mwyn sicrhau y caiff ei weithredu'n llwyddiannus.

**238.** Cyfeiriodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru at yr e-fodiwl hawliau plant o dan y Cynllun Hawliau Plant fel adnodd yr oedd un cyngor wedi'i ddefnyddio i hybu ymwybyddiaeth ymhlith ei staff.[255]

---

[251] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 26 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

[250] Cynllun Hawliau Plant 2014.

[253] Adolygiad Annibynnol o Rôl a Swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru, 10 Rhagfyr 2014.

[254] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig, Ymateb i argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o Swydd a Swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru, 15 Gorffennaf 2015.

[255] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 24 – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**239.** Dywedodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru fod Adroddiad Cydymffurfiaeth diweddaraf Llywodraeth Cymru yn rhestru nifer o fentrau ac adnoddau sy'n darparu hyfforddiant sector-benodol i weithwyr proffesiynol, a chroesawodd hynny.[256]

**240.** Manylodd papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar y cyllid y mae'n ei ddarparu i gefnogi sefydliadau proffesiynol trwy hyfforddiant arbenigol gan Brifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS). Nododd fod yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu am ddim i sefydliadau fel awdurdodau lleol, byrddau iechyd, swyddogion cyswllt heddlu a Chwaraeon Cymru, gan ddweud:

- Bod 1,627 o bobl o wyth gweithlu gwahanol wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant rhwng Hydref 2015 a Hydref 2018;
- Bod 91 y cant o'r cyfranogwyr o'r farn bod yr hyfforddiant o safon ragorol neu dda iawn, gyda dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y cyfranogwyr o'r Confensiwn yn cynyddu, a'r cyfranogwyr yn nodi eu bod yn teimlo eu bod yn gallu gweithredu a rhoi'r wybodaeth honno ar waith yn ogystal â rhannu eu gwybodaeth â'u cydweithwyr a'u sefydliadau eu hunain;
- Bod y contract gyda PCYDDS i ddarparu hyfforddiant wedi'i ymestyn i ddarparu hyfforddiant am ddim ar y Confensiwn a hawliau plant i bartneriaid yn y sector cyhoeddus.[257]

**241.** Nododd un bwrdd iechyd fod hyfforddiant amrywiol wedi bod ar gael a bod hyfforddiant penodol wedi bod ar bynciau fel Camfanteisio Rhywiol ar Blant, sydd wedi codi ymwybyddiaeth yn enwedig mewn ardaloedd yng Nghymru sy'n llai amrywiol eu diwylliant.[258]

**242.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig hi, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru:

> "Yn absenoldeb canolbwynt adnoddau wedi'i ddiweddaru ar hawliau plant yn Llywodraeth Cymru – rwy'n ymwybodol bod gwaith bellach yn digwydd i ddiwygio'r safle – rwyf hefyd wedi bod yn datblygu cyfres o adnoddau am ddim a chynnwys ar fy ngwefan, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gallu cael eu cyrchu trwy Hwb,[259] adnodd y gall athrawon,

---

256 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 113], 16 Hydref 2019.

255 Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru.

258 Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 06 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

259 Llywodraeth Cymru, Dysgu ac addysgu i Gymru, Y Cwricwlwm ar gyfer Cymru ac offer a deunyddiau addysgol am ddim.

> gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cyfranogiad ac eraill ei ddefnyddio [...][260]

**243.** Dywedodd Gofal Cymdeithasol Cymru wrth y Pwyllgor:

> "Credwn yn gadarn fod gwybodaeth am hawliau plant a phobl ifanc yn hanfodol i bob gweithiwr proffesiynol a allai roi gofal a chefnogaeth [...] Fel sefydliad, rydym o'r farn bod adroddiad y Comisiynydd Plant, Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru (2017) a'r ffframwaith sydd ynddo, yn bwysig yn ein gwaith i ymgorffori hawliau plant yn ffrydiau gwaith amrywiol ein busnes [...]"[261]

## Ymwybyddiaeth ymysg rhieni a gofalwyr

**244.** Codwyd y diffyg ymwybyddiaeth o hawliau plant ymysg rhieni, gofalwyr ac oedolion eraill yn y dystiolaeth. Galwodd un arweinydd sesiwn a gymerodd ran yn ein hymgynghoriad 'Cyfarfod mewn Blwch' am fwy o waith i roi cyhoeddusrwydd i hawliau pobl ifanc, gan ddadlau bod angen mwy o waith gyda rhieni i'w hannog i drafod materion fel hyn gyda'u plant.[262]

**245.** Cyfeiriodd tystiolaeth Comisiynydd Plant Cymru at ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 a nododd nad oedd 66 y cant o bobl mewn cartrefi â phlentyn o dan 16 oed wedi clywed am y Confensiwn.[263]

**246.** Pan ofynnwyd ble roedden nhw wedi clywed am hawliau plant, dywedodd un cyfranogwr mewn 'Cyfarfod mewn Blwch':

> **"100% in school - my mother does not understand."**[264]

**247.** Dywedodd un arweinydd sesiwn wrth y Pwyllgor fod aelodau o Uned Hawliau Plant Castell-nedd Port Talbot, YoVo, wedi dweud:

[260] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[261] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 07 – Gofal Cymdeithasol Cymru.

[262] Cyfarfod mewn Blwch – Crynodeb ymgysylltu.

[263] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[264] Cyfarfod mewn Blwch – Crynodeb ymgysylltu.

> **"They would like more to be done for children in care especially when receiving information and having their views listened to and acted upon."**[265]

**248.** Dywedodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru nad oedden nhw'n ymwybodol o unrhyw weithgarwch hyfforddi penodol a oedd yn ceisio codi ymwybyddiaeth ymhlith y boblogaeth yn gyffredinol, ond cyfeiriodd at ddeunyddiau copi caled ac e-adnoddau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru i hybu gwybodaeth am hawliau plant a'r Confensiwn.[266]

## Ein barn ni

**249.** Mae'n glir o'r dystiolaeth a ddaeth i law, a thrwy ein hymgynghoriad ein hunain â phobl ifanc, fod yna fylchau yn yr wybodaeth am hawliau plant ymhlith plant ac oedolion. Mae hyn yn amlwg yn rhwystro'r Mesur rhag cael effaith lawn.

**250.** Rydym yn croesawu'r gwaith da a wnaed gan lawer o sefydliadau ledled Cymru i geisio ennyn diddordeb pobl ifanc mewn hawliau plant. Gwelsom hyn o lygad y ffynnon pan fuom yn siarad â phlant mewn gweithdai a hwyluswyd gan Lleisiau Bach / Little Voices fel rhan o'n gwaith casglu tystiolaeth. Gwelsom hyn hefyd yn yr adborth gan lawer o'r grwpiau o blant a phobl ifanc a gymerodd ran yn ein hymgynghoriad 'Cyfarfod mewn Blwch'.

**251.** Er hynny, y rhai mwyaf gwybodus a mwyaf parod i gymryd rhan, at ei gilydd, yw llawer o'r plant a'r bobl ifanc sy'n ymwybodol o'r Confensiwn, ac maen nhw'n cymryd rhan yn rheolaidd mewn strwythurau ymgysylltu ffurfiol fel fforymau ieuenctid neu gynghorau ysgol. Rydym yn pryderu nad yw ymdrechion i hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hawliau plant yn cyrraedd pob plentyn, gan gynnwys y rhai a allai fod dan anfantais neu â llai o ymgysylltiad. Er ein bod yn croesawu'r wybodaeth sydd ar gael am hawliau plant mewn llawer o ysgolion, mae angen gwelliannau sylweddol er mwyn sicrhau bod plant nad ydyn nhw yn mynychu addysg brif ffrwd yn dysgu am eu hawliau. Gellir dadlau mai'r plant a'r bobl ifanc anoddaf eu cyrraedd y'w rhai sydd â'r angen mwyaf i wybod am eu hawliau ac mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau bod hyn yn digwydd.

---

[265] Cyfarfod mewn Blwch – Crynodeb ymgysylltu.

[266] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 14 – Grŵp Monitro CCUHP Cymru.

**252.** Mae'r Cynllun Hawliau Plant yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru "yn parhau i archwilio cyfleoedd, lle bo'n briodol, i weithio gydag eraill er mwyn sicrhau'r effaith mwyaf bosibl." wrth hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn.[267] Er hynny, clywsom dystiolaeth bod cyfleoedd wedi'u colli lle nad yw grwpiau cynghori sefydledig yn cael eu defnyddio i helpu i ddatblygu'r gwaith pwysig hwn.

**253.** Rydym yn pryderu am ddiffyg dealltwriaeth plant a phobl ifanc o hawliau plant mewn ystyr bendant. Roedd hyn yn amlwg o'n hymgysylltiad â phlant, lle roedd yn amlwg y gallai llawer enwi eu hawliau ond na allent bob amser egluro'n glir sut roedd y rheiny'n cael eu rhoi ar waith yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Credwn fod mwy o addysg ynghylch yr agwedd hon ar hawliau plant yn hanfodol mewn unrhyw weithgarwch cyfathrebu gan Lywodraeth Cymru.

**254.** Rydym yn croesawu'r dystiolaeth ynglŷn â'r hyfforddiant a'r mentrau a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru i gynyddu gwybodaeth am hawliau plant ymhlith gweithwyr proffesiynol. Rhaid i hyn barhau ar sail systematig.

**255.** Rydym yn ymwybodol o'r gwaith diwygio sy'n cael ei wneud ar dudalennau gwe hawliau plant Llywodraeth Cymru. Dylai'r gwaith hwn gael ei gwblhau fel mater o flaenoriaeth.

**256.** Mae diffyg ymwybyddiaeth o'r Confensiwn yn amlwg ymhlith oedolion. Clywsom yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc fod yna ddiffyg gwybodaeth eang am hawliau plant ymhlith rhieni yn benodol. Gan hynny, rydym yn cytuno â'r rhanddeiliaid bod angen gwneud mwy i gynyddu addysg ynghylch hawliau plant ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol.

**257.** Mae pryderon hefyd nad yw gweithwyr proffesiynol bob amser yn deall eu rhwymedigaethau o dan y Mesur. Unwaith eto mae angen mynd i'r afael â hyn yn systematig.

**258.** Nodwn fod rhywfaint o weithgarwch ar y gweill gyda mwy o ymdrechion yn cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru i hybu'r Confensiwn fel rhan o'i ben-blwydd yn ddeg ar hugain oed. Er hynny, credwn fod rhaid i'r ymdrechion hyn fod yn barhaus ac nid yn symbolaidd. Ein barn ni yw nad oes dull strategol ar hyn o bryd o hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau plant yng Nghymru.

**259.** Rydym o'r farn bod angen amlwg am strategaeth codi ymwybyddiaeth genedlaethol. Rhaid i'r strategaeth hon gynnwys adrannau sydd wedi'u targedu ar blant, oedolion a gweithwyr proffesiynol ar wahân, i helpu i gynyddu gwybodaeth

---

[265] Cynllun Hawliau Plant 2014.

am y Confensiwn. Rydym yn argymell yn gryf y dylai gynnwys gwybodaeth ar sut mae hawliau plant yn troi'n realiti, a manylion am y dulliau cwyno sydd ar gael i bobl ifanc.

**Argymhelliad 8.** Y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi strategaeth codi ymwybyddiaeth genedlaethol gyda chanlyniadau mesuradwy i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd, gan gynnwys plant, o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol.

**260.** Mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai anghyson yw'r ymagwedd yn y system addysg gyfredol at ddysgu am y Confensiwn. Clywsom gan randdeiliaid y gall addysg ar hawliau plant ddibynnu'n aml ar yr ysgol y mae disgybl yn mynd iddi.

**261.** Rydym yn cydnabod y risg bosibl y gallai plant a addysgir gartref golli allan ar ddysgu ffurfiol am y Confensiwn. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw strategaeth codi ymwybyddiaeth genedlaethol yn cyrraedd pob plentyn a pherson ifanc, waeth beth fo'u statws addysgol.

**262.** Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wrthi'n diwygio'r cwricwlwm ar hyn o bryd. Rydym wedi'n perswadio bod hyn yn gyfle i sicrhau bod gwybodaeth am hawliau plant yn cael ei chynyddu ymhlith plant yng Nghymru, ond byddwn yn myfyrio ar y dystiolaeth a gawsom yn ystod yr ymchwiliad hwn pan fyddwn yn gwneud gwaith craffu Cyfnod 1 ar Fil Cwricwlwm arfaethedig Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 9.** Y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod addysg hawliau dynol, gan gynnwys hawliau plant gan gyfeirio at y Confensiwn, yn cael ei dysgu o dan Gwricwlwm newydd Cymru.

## Ffyrdd o gwyno

**263.** Un o'r materion a godwyd yn y dystiolaeth oedd yr opsiynau sydd ar gael i blant a phobl ifanc sy'n teimlo nad yw Llywodraeth Cymru wedi cydymffurfio â gofynion y Mesur.

**264.** Mae'r Cynllun Hawliau Plant yn nodi y gellir gwneud cwynion trwy sylwadau uniongyrchol i Lywodraeth Cymru; sylwadau trwy Gomisiynydd Plant Cymru; trwy Aelodau o'r Senedd; neu drwy wneud cais am adolygiad barnwrol trwy'r llysoedd.[268]

**265.** Mae adroddiad 2018 yr EHRC yn dweud:

---

[266] Cynllun Hawliau Plant 2014.

> "Nid yw adroddiadau cydymffurfio Llywodraeth Cymru yn 2016 a 2018 yn darparu gwybodaeth ynghylch y defnydd o'r weithdrefn gwynion. Fe wnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru ac fe'n hysbyswyd yn anffurfiol na chafwyd unrhyw gwynion yn y cyfnod a gwmpaswyd gan adroddiad 2018 (2015-18).
>
> Hefyd fe wnaethom geisio gwybodaeth gan Gomisiynydd Plant Cymru sydd â grym i gefnogi plant i gyflwyno cwyn. Dywedodd CCfW wrthym na ofynnwyd i'r CCfW cyfredol ddarparu cymorth, ond trwy ei wasanaeth archwiliadau a chynghori, a thrwy ei waith polisi, roedd y CCfW wedi cynghori gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant ynghylch argaeledd mecanwaith cwynion."[269]

**266.** Yn ei thystiolaeth lafar, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog na fu unrhyw gwynion gan blant a phobl ifanc hyd yn hyn am y dyletswyddau o dan y Mesur.[270]

**267.** Hyd yn hyn, ni fu unrhyw her gyfreithiol ar sail methiant i gydymffurfio â'r Mesur. Awgrymodd adroddiad yr EHRC yn 2018 fod y diffyg her gyfreithiol yn deillio o'r trothwy tystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer adolygiad barnwrol a'r costau ariannol a'r amserlenni dan sylw. Dywedodd fod adolygiad barnwrol llwyddiannus yn gofyn am dystiolaeth gref i sefydlu unrhyw fethiant i roi "sylw dyledus", p'un a yw'r methiant yn fethiant gan y Gweinidogion ynteu gan awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn cael ei weld fel rhwystr sy'n atal her gyfreithiol gan fod angen dangos bod polisi mor anghyson â'r Confensiwn, neu mor afresymol, nes ei fod yn gwneud her yn anodd iawn.[271]

**268.** Er bod y ddyletswydd "sylw dyledus" wedi gwella atebolrwydd cyfreithiol trwy ychwanegu sail newydd ar gyfer achos yn y gyfraith gyhoeddus, nododd adroddiad yr EHRC nad yw iawn cyfreithiol ac adolygiad barnwrol wedi dod i'r amlwg fel dulliau atebolrwydd arwyddocaol o ran cydymffurfio â hawliau plant yng Nghymru.[272]

**269.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru:

---

[269] Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Effaith Integreiddio Cyfreithiol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru, Awst 2018.

[270] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 108], 6 Tachwedd 2019.

[271] Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Effaith Integreiddio Cyfreithiol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru, Awst 2018.

[272] Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Effaith Integreiddio Cyfreithiol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru, Awst 2018.

> "Er bod y Mesur yn gam pwysig ymlaen, nid yw'n gyfystyr ag ymgorffori CCUHP yn llawn ac yn uniongyrchol. Mae hynny'n golygu nad oes modd i aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys plant, herio'n uniongyrchol am dorri eu hawliau o dan CCUHP. Yr enghraifft agosaf ar lefel y Deyrnas Unedig yw Deddf Hawliau Dynol 1998 (HRA), lle mae'n rhaid i gyrff weithredu'n unol â'r hawliau y mae'n eu cyflwyno'n uniongyrchol o dan y gyfraith. Gall unigolyn/person gyflwyno achos yn erbyn corff am dorri hawl benodol o dan y Ddeddf honno."[273]

**270.** Yn ôl adroddiad yr EHRC "pan ofynnwyd am fecanweithiau posibl ar gyfer gwella atebolrwydd Llywodraeth Cymru am gydymffurfio â hawliau plant, nid oedd yr un o'r rhanddeiliaid a holwyd yn awgrymu dyletswydd gyfreithiol ddiwygiedig. Yn hytrach, canolbwyntiodd nifer o randdeiliaid ar yr angen i wella a chryfhau dulliau presennol a gyflwynwyd gan y Mesur".[274]

**271.** Dywedodd ProMo-Cymru wrth y Pwyllgor fod dealltwriaeth plant a phobl ifanc o sut mae'r Confensiwn yn effeithio arnynt yn ddiffygiol o ran gwybodaeth a dealltwriaeth o'r hawl i gael cymorth a allai fod ganddynt pan nad yw pethau'n mynd yn dda a pha hawl i gael iawn a allai fod ganddynt mewn penderfyniadau a wneir sy'n effeithio arnynt.[275]

**272.** Dywedodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru:

> "[…] I can say with some confidence that, amongst the reasons that were given for a lack of uptake of the complaints procedure is that it's an adults' complaints procedure. It's a complaints procedure that the Welsh Government has in place for adults to complain about decisions and actions of the Welsh Government, which has then been bolted on to the scheme, if you like. So, it's not child-friendly, it's not accessible, and it's not the sort of mechanism that children necessarily would make use of."[276]

**273.** Dywedodd y Grŵp:

> "[…] the forthcoming refreshed Children's Scheme now provides an opportunity to set out ways in which children could be better made

---

[273] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[274] Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Effaith Integreiddio Cyfreithiol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru, Awst 2018.

[275] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 23 – ProMo-Cymru.

[276] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 100], 16 Hydref 2019.

> aware of the complaints mechanism, supported by child-friendly and web-based materials."[277]

**274.** Cytunodd y Comisiynydd Plant, gan ddweud bod diwygiadau i'r Cynllun Hawliau Plant wedi tynnu sylw at hyn fel maes y mae angen ei ddatblygu i fod yn fwy addas a hygyrch i blant:

> "Byddai angen i'r iaith gael ei haddasu ac nid yw'r opsiynau sydd ar gael yn rhoi llawer o wybodaeth ynghylch sut gellir cefnogi person ifanc yn y broses hon. Fy awgrym i fyddai bod proses/taflen gwynion ar wahân yn cael ei chreu, fel bod plant a phobl ifanc yn gallu codi unrhyw faterion polisi maen nhw'n teimlo nad yw'r Llywodraeth yn eu cymryd o ddifri, ac i gael clywed eu lleisiau ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw. Ni weithredwyd ar yr adborth hwn hyd yma."[278]

**275.** Pan ofynnwyd am ei barn pam na wnaed cwynion, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor:

> "I suppose it's important to say that it is a relatively new scheme. It is—. I think we are the first country in the UK to have such a scheme, and so it is unique. I think it's important to say that Wales has led the way in doing this. So, in terms of complaints, I'm sure we will get them, but we certainly haven't had any so far, and I'm sure that's not because there wasn't anything to complaint about, because there's bound to have been something that there could have been complaints about. But we have produced a summary version of our corporate complaints procedure for children and young people and their representatives to use, so there is a summary version for people to see how they do it."[279]

## Ein barn ni

**276.** Nodwn nad yw'r dull cwyno wedi'i ddefnyddio gan blant a phobl ifanc ar sail methiant gan Weinidogion Cymru i gydymffurfio â'r Mesur. Rydym yn cytuno â sylwadau'r Dirprwy Weinidog nad yw hyn yn debygol o fod am nad oes dim byd i gwyno yn ei gylch.

**277.** Rydym yn derbyn y dystiolaeth a gyflwynwyd nad yw adolygiad barnwrol yn opsiwn realistig ar gyfer sicrhau iawn i blant a phobl ifanc oherwydd y gost

277 Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 14 – Grŵp Monitro CCUHP Cymru.

278 Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

279 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 108], 6 Tachwedd 2019.

ariannol, yr amserlenni, a heb os oherwydd cymhlethdod y broses. Nodwn hefyd nad oedd unrhyw awgrym cyson bod angen diwygio'r Mesur yn hyn o beth.

**278.** Er hynny, rydym yn cydnabod bod y dull cwyno, fel y'i hamlinellir yn y Cynllun Hawliau Plant, yn cael ei danddefnyddio ac rydym yn credu y dylai'r ffocws fod ar wella hyn. Credwn fod angen mwy o wybodaeth i egluro i blant fod ganddynt hawl i gwyno pan fyddant yn teimlo nad yw Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd "sylw dyledus" wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

**279.** Rydym hefyd yn cytuno â'r rhanddeiliaid bod y weithdrefn gwyno gyfredol wedi'i hanelu at gynulleidfa sy'n oedolion, ac mae'n amlwg nad yw'n hygyrch nac yn addas i blant. Felly, rydym o'r farn bod y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i adnewyddu'r Cynllun Hawliau Plant yn gyfle delfrydol i gynnwys dull cwyno cryfach sy'n mynd i'r afael â'r holl bryderon a godwyd mewn tystiolaeth.

**Argymhelliad 10.** Y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys dull cwyno cryfach ac addas i blant yn ei Chynllun Hawliau Plant diwygiedig i rymuso plant a phobl ifanc i geisio iawn pan fo angen hynny ac i gynnal eu hawliau.

## Cwynion yn uniongyrchol i'r Cenhedloedd Unedig

**280.** Daeth trydydd Protocol Dewisol i'r Confensiwn i rym yn 2014: y Protocol Dewisol ar weithdrefn gyfathrebu.[280] Pan gaiff ei gadarnhau gan Wladwriaeth, mae'n rhoi hawl i blant unigol ddeisebu i gyflwyno sylwadau yn uniongyrchol i'r Cenhedloedd Unedig.

**281.** Yn 2016, argymhellodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylai'r Deyrnas Unedig gadarnhau'r Protocol Dewisol hwn er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cyflawni mewn modd cryfach.[281] Roedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi nodi o'r blaen yn 2014 y byddai'n "parhau i adolygu'r mater hwn".[282] Serch hynny, nid yw wedi nodi unrhyw gamau pellach y mae'n bwriadu eu cymryd i'w gadarnhau.

[280] Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig, Optional Protocol to the Convention on the Rights of the Child on a communications procedure.

[281] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Concluding Observations on the fifth periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland, 2016.

[282] United Nations Universal Periodic Review Mid Term Report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland, and the British Overseas Territories, and Crown Dependencies, 2014.

**282.** Dywedodd yr EHRC yn glir y dylai'r Deyrnas Unedig gadarnhau'r Protocol Dewisol.[283] Ychwanegodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru:

> "[...] the optional protocol, if we had access to it, would be of great benefit, but, of course, we're in the hands of the UK Government as far as that's concerned. I think the principle that the optional protocol represents—that children should be able to make complaints and should have a redress mechanism, although it's a rather weak redress mechanism at international level—is an important one. I think, for me, the focus would be not what the UK Government controls, but what we can control within Wales."[284]

**283.** Awgrymodd Comisiynydd Plant Cymru y byddai'r gallu i gwyno'n uniongyrchol i'r Cenhedloedd Unedig ynghyd â chyfle i blant gael mynediad at ddull cwyno effeithiol yng Nghymru yn ddatganiad cryf iawn i blant "about their right to seek redress when they feel that either their national rights, or internationally their rights, have been breached".[285]

## Ein barn ni

**284.** Rydym yn cydnabod mai mater i Lywodraeth y Deyrnas Unedig yw'r penderfyniad i gadarnhau'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn a fyddai'n rhoi hawl i blant unigol yn y Deyrnas Unedig gyflwyno sylwadau yn uniongyrchol i'r Cenhedloedd Unedig. Er hynny, rydym wedi'n perswadio y byddai mynediad at ddull cwyno cryfach ac effeithiol yng Nghymru, ynghyd â'r Protocol Dewisol, yn anfon neges gref at blant a phobl ifanc Cymru bod Llywodraeth Cymru yn eu grymuso i amddiffyn eu hawliau.

**Argymhelliad 11.** Y dylai Llywodraeth Cymru alw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gadarnhau Protocol Dewisol 2014 i'r Confensiwn er mwyn rhoi hawl i blant unigol gyflwyno sylwadau yn uniongyrchol i'r Cenhedloedd Unedig.

[283] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 371], 16 Hydref 2019.
[284] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 146], 16 Hydref 2019.
[285] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 457], 16 Hydref 2019.

# 7. Hawl plant i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw

Mae Erthygl 12 o'r Confensiwn yn dweud bod gan blant hawl i gael gwrandawiad, ac i'w barn gael ei hystyried, pan wneir penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Rydym wedi clywed bod yna gynnydd i'w wneud o hyd o ran agwedd Llywodraeth Cymru at gyfranogiad plant a phobl ifanc yn ei phenderfyniadau.

**285.** Mae Erthygl 12 o'r Confensiwn yn dweud:

> "States Parties shall assure to the child who is capable of forming his or her own views the right to express those views freely in all matters affecting the child, the views of the child being given due weight in accordance with the age and maturity of the child."[286]

**286.** Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig wedi dweud hyn hefyd: "the right of all children to be heard and taken seriously constitutes one of the fundamental values of the Convention".[287] Mae Erthygl 12 wedi'i nodi gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig fel un o bedair egwyddor gyffredinol y Confensiwn, a'r lleill yw'r hawl i beidio â dioddef gwahaniaethu, yr hawl i fyw a datblygu, a'r brif ystyriaeth o fuddiannau gorau'r plentyn.[288] Mae hyn yn tanlinellu'r ffaith bod yr Erthygl hon yn sefydlu nid yn unig yr hawl ynddi'i hun, ond hefyd y dylid ystyried yr hawl hefyd wrth ddehongli a gweithredu pob hawl arall.

## Cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt

**287.** Daeth archwiliad diweddaraf Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig o weithrediad y Confensiwn ledled y Deyrnas Unedig yn 2016 i'r casgliad "children's views are not

[284] Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

[287] Working methods for the participation of children in the reporting process of the Committee on the Rights of the Child.

[288] Working methods for the participation of children in the reporting process of the Committee on the Rights of the Child.

systematically heard in policymaking on issues that affect them", gan nodi hefyd nad oedd senedd ieuenctid yng Nghymru ar y pryd.[289]

**288.** Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, dywedodd Barnardo's Cymru fod Cymru wedi gwneud cynnydd yn y maes hwn ac awgrymodd fod y Mesur wedi helpu:

> "Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yng Nghymru, gyda mecanweithiau a systemau i hybu cyfleoedd gwell i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar y rheini sy'n gwneud penderfyniadau, fel fforymau arbenigol, strwythurau democrataidd lleol, a chyrff cenedlaethol fel Cymru Ifanc a Senedd Ieuenctid Cymru.
>
> Er mwyn gwneud datblygiadau o'r fath, rhaid cael yr amgylchedd a'r ymrwymiad priodol. Os dim arall, mae'r mesur wedi dangos yn glir ymrwymiad y Llywodraeth, a bod cyflwyno'r mesur wedi helpu i siapio'r amgylchedd."[290]

**289.** Dywedodd un o'r bobl ifanc wrth y Pwyllgor:

> **"The government should involve young people from low income backgrounds in decisions effecting them and their community. Provide more money for schools to provide a better education and to stop cutting the funding on youth centres."**[291]

**290.** Dywedodd person ifanc arall wrth y Pwyllgor:

> **"Welsh Government should reach out to young people more. For decision makers to attend groups such as the T4CYP mental health forum to meet with and listen to young people's views along with sharing their work in young person friendly language."**[292]

**291.** Cyfeiriodd person ifanc arall at yr awdurdod lleol a dweud:

---

[289] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Concluding Observations on the fifth periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland, 2016.

[290] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 19 – Barnardo's Cymru.

[291] Cyfarfod mewn Blwch – Crynodeb ymgysylltu.

[292] Cyfarfod mewn Blwch – Crynodeb ymgysylltu.

> **"No-one care's about young people aged 16-17 ... only my YJS (Youth Justice Services) Officer listened to me, Children's Services didn't."**[293]

**292.** Gan gyfeirio at addysg, dywedodd un hwylusydd grŵp wrth y Pwyllgor:

> **"Roedd y disgyblion yn teimlo bod eu hawliau'n cael eu bodloni'n iawn ond bod modd gwneud mwy. Y prif fater cyffredinol oedd y teimlad nad oedd oedolion yn gwrando arnyn nhw ac yn parchu eu barn."**[294]

**293.** Dywedodd un arall o'r hwyluswyr grŵp:

> **"Mae arnon ni angen mwy o gyfleoedd i ymateb i Lywodraeth Cymru. Y brif hawl o bell ffordd roedd ein grŵp ni eisiau i'r Llywodraeth weithio mwy arni oedd gwrando ar bobl ifanc."**[295]

**294.** Drwy'n hymwneud ni â phlant a phobl ifanc, llwyddodd y Pwyllgor i ddysgu am y cyfleoedd cadarnhaol i blant yng Nghymru leisio'u barn i'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Dywedodd plant a gymerodd ran yn ein gweithdai, a hwyluswyd gan Lleisiau Bach / Little Voices, fod hawliau plant wedi'u helpu i gael eu clywed yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach.[296] Dywedodd un o'r plant pam roedd yn mwynhau bod yn rhan o brosiect Lleisiau Bach, gan ddweud:

> **"Mae pobl yn gwrando arnom ac yn gadael inni gael effaith."**[297]

## Enghreifftiau ymarferol o leisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed

**295.** Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, tanlinellodd Estyn eu hadroddiad yn 2016, *Cyfranogiad Disgyblion – canllaw arfer orau*. Mae'r adroddiad yn nodi'r

[293] Cyfarfod mewn Blwch – Crynodeb ymgysylltu.

[294] Cyfarfod mewn Blwch – Crynodeb ymgysylltu.

[295] Cyfarfod mewn Blwch – Crynodeb ymgysylltu.

[296] Lleisiau Bach / Little Voices – Lleisiau Plant yn Cael eu Clywed.

[297] Lleisiau Bach / Little Voices – Lleisiau Plant yn Cael eu Clywed.

cyfraniad y gall cyfranogiad disgyblion ei wneud i wella ysgolion yn ogystal â'r buddion i'r disgyblion eu hunain.[298]

**296.** Croesawodd Comisiynydd Plant Cymru sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol wrth ddatblygu dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant. Awgrymodd y Comisiynydd y byddai meysydd polisi eraill ar eu hennill hefyd o gael modelau cyfranogi o'r fath.[299]

**297.** Nododd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid eu bod wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Comisiynydd Plant Cymru a gwasanaethau perthnasol eraill i ymgynghori â phlant ar faterion sy'n effeithio arnynt. Awgrymodd y Bwrdd fod dulliau o atal troseddau a mynd i'r afael ag anghenion a phryderon dioddefwyr yn fwy tebygol o fod yn effeithiol os cânt eu llywio gan blant a'u cyd-ddylunio gyda nhw.[300]

## Cyfleoedd i gynyddu cyfranogiad ystyrlon

**298.** Clywsom dystiolaeth gref yn gyffredinol y gellid gwneud mwy i gynyddu cyfranogiad ystyrlon plant a phobl ifanc yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

**299.** Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, dywedodd Achub y Plant:

> "In relation to article 12 (respect for the views of the child) we believe that there is considerable scope for this to be further developed in order to ensure that children's participation in public services is consistent across the range of Welsh Government services."[301]

**300.** Er bod cynnydd i'w weld mewn cyfeiriadau at y Confensiwn a'r defnydd o iaith sy'n seiliedig ar hawliau, yn arbennig o ran agenda iechyd meddwl a llesiant emosiynol plant a phobl ifanc, dywedodd ProMo-Cymru wrth y Pwyllgor:

> "[…] there is little evidence of CYP being active participants and engaged in the testing, design, implementation and accountability of proposed / actual changes.
>
> While we welcome the involvement and engagement of CYP in consultations and the sharing and promotion of their individual journeys, much more needs to be done to ensure their engagement at

[298] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 09 – Estyn.

[299] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[300] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 03 – Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

[301] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 22 – Achub y Plant.

> the level of influencing strategic and operational change and decision-making."[302]

**301.** Yn ei thystiolaeth hi, amlygodd Comisiynydd Plant Cymru ei hapeliadau at Lywodraeth Cymru am gynnwys cyfranogiad plant a phobl ifanc wrth ddylunio'r cwricwlwm newydd, gan bwyso am hyn ar ffurf argymhellion yn Adroddiadau Blynyddol 2015/16 a 2017/18. Dywedodd y Comisiynydd fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad yn 2015/6 yn gadarnhaol, a bod is-grŵp o'r grŵp rhanddeiliaid strategol wedi'i sefydlu yn 2016 i edrych yn benodol ar gyfranogi. Er hynny, dywedodd y Comisiynydd wrth y Pwyllgor fod y grŵp hwn wedi'i ddiddymu ac er gwaethaf ymdrechion sylweddol gan ei swyddfa, roedd y cyfle i gyd-adeiladu'n barhaus gyda phlant a phobl ifanc ar lefel genedlaethol wedi mynd heibio. Awgrymodd y Comisiynydd fod hyn wedyn yn fodel cyfranogi lle ymgynghorir â phobl ifanc a'u hysbysu nhw, yn hytrach na'u bod yn cydgynhyrchu'r polisi.[303]

**302.** Pwysleisiodd y Comisiynydd Plant hefyd mor bwysig yw hi bod pobl ifanc yn cael cyfle i ymateb yn uniongyrchol i ymgyngoriadau'r llywodraeth (yn ogystal â bwydo'u barn i mewn i ymatebion fel ei hymateb hithau). Manylodd ar nifer o rwystredigaethau gyda rhai o ymgyngoriadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru a dywedodd ei bod yn teimlo ar adegau na allai hybu ymgyngoriadau nad oedden nhw'n ddigon clir a hygyrch i blant a phobl ifanc ymwneud â nhw.[304]

**303.** Yn yr un modd, dywedodd tystiolaeth Ysbyty Plant Noah's Ark yng Nghymru mai prin yw'r dulliau yng Nghymru ar hyn o bryd sy'n caniatáu i farn plant gael ei chlywed wrth i ymchwil gael ei chynhyrchu ar anhwylderau sy'n effeithio arnynt. Gan ddyfynnu'r Arolwg Health Wise fel enghraifft o ddull nad yw'n ymgynghori â phlant sydd o dan 16 oed, tynnodd tystiolaeth ysgrifenedig yr Ysbyty sylw at argymhelliad Adolygiad Seneddol 2019 o Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus. Aeth ymlaen i ddweud:

> "Children currently do not have equal involvement in health care decision making that affects them."[305]

**304.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig hi, nododd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ddinasyddion llawn a gweithgar yng Nghymru a bod eu barn yn cael ei hystyried. Mae'n disgrifio Cymru fel gwlad

[302] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 23 – ProMo-Cymru.

[303] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[304] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[305] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 17 – Ysbyty Plant Noah's Ark yng Nghymru.

sy'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol am ei gwaith ar gyfranogiad plant o dan Erthygl 12 o'r Confensiwn. Mae'r papur yn amlinellu gwelliannau gan gynnwys cynnydd tuag at ostwng oedran pleidleisio yng Nghymru i 16, sefydlu Senedd Ieuenctid ac ymgynghori'r ffurfiol â phlant a phobl ifanc ynghylch Brexit, gan nodi mai Cymru yw'r unig wlad yn y Deyrnas Unedig hyd yn hyn i wneud hyn.[306]

**305.** Amlinellodd papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru nifer o fentrau i hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, gan gynnwys:

- **Cyllid i Blant yng Nghymru i ddatblygu Cymru Ifanc.** Llwyfan cyfranogi cenedlaethol i bobl ifanc ymwneud â'r llywodraeth ynghylch polisïau a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- **Canllawiau statudol i'r awdurdodau lleol i hybu a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt.** Er 2014, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymweld ag awdurdodau lleol yn rheolaidd i ddod i ddeall sut mae'r ddyletswydd hon yn cael ei chyflawni'n lleol.
- **Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc** Mae'r safonau'n nodi'r materion allweddol y dylai'r holl weithwyr fod yn ymwybodol ohonynt wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru ac fe'u hadnewyddwyd yn 2017 mewn ymgynghoriad â phobl ifanc.
- **Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru Gyfan.** Mae'r rhwydwaith yn darparu fforwm ledled Cymru i helpu i ddatblygu a rhannu polisi, ymchwil, arbenigedd a'r arferion gorau ynglŷn â hawliau a chyfranogiad plant ledled Cymru.
- **Pen-blwydd y Confensiwn yn ddeg ar hugain oed.** Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sector plant i wrando ar farn plant a phobl ifanc trwy lansio ymgyrch i ddathlu pen-blwydd y Confensiwn yn ddeg ar hugain oed.[307]

**306.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Dirprwy Weinidog ddweud pa mor aml yr oedd yn cyfarfod â phlant i drafod sut y gall plant a phobl ifanc ddylanwadu ar waith Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor:

---

[304] Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru.

[305] Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru.

> "I meet with children a lot, but it's to discuss lots of aspects of work. I have met with children quite a bit recently about this particular issue [children's rights, in respect of the thirtieth anniversary of the UNCRC] [...] I've had a lot of meetings with young carers, a lot of meetings with children who are looked after, and I wouldn't necessarily be discussing, in a formal way, about how children's rights impacted on their lives. But, fundamentally, it's all set in the context of what their rights are."[308]

## Ein barn ni

**307.** Rydym yn cydnabod pwysigrwydd Erthygl 12 o'r Confensiwn a'r hawl i blant gael eu clywed a'u cymryd o ddifrif. Amlygir arwyddocâd yr hawl hon gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig sy'n nodi hawl plant i gael eu clywed fel un o bedair egwyddor gyffredinol y Confensiwn.

**308.** Rydym hefyd yn glir bod cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hefyd yn arwain at well gwasanaethau a gwell gwerth am arian. Gellir siapio polisïau a gwasanaethau yn fwy effeithiol a gallant gyrraedd y rhai y maent wedi'u targedu atynt yn fwy effeithiol.

**309.** Rydym yn nodi argymhelliad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn 2016 nad yw gwneuthurwyr polisi yn gwrando ar blant a phobl ifanc ar faterion sy'n effeithio arnynt. Nodwn ymhellach gyfeiriad y Pwyllgor at y diffyg dulliau a oedd ar gael bryd hynny i hwyluso'r dylanwad hwn, megis senedd ieuenctid yng Nghymru. Rydym yn falch bod y Senedd wedi bwrw ymlaen â hyn ac wedi sefydlu Senedd Ieuenctid Cymru yn llwyddiannus yn 2018. Mae'r Pwyllgor hwn eisoes wedi cael cyfle i weld cyfranogiad y bobl ifanc ar waith ac mae'n ddiolchgar i Senedd Ieuenctid Cymru am eu cyfraniad at nifer o'n hymholiadau ers ei sefydlu.

**310.** Rydym yn croesawu'r sylwadau cadarnhaol gan randdeiliaid am y camau sylweddol sy'n cael eu cymryd i roi cyfleoedd i blant leisio'u barn i'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Mae hyn yn bwysig gan ei bod yn amlwg trwy'n hymgysylltiad ni â phlant a phobl ifanc fod y mater hwn yn flaenoriaeth uchel iddynt.

**311.** Er hynny, rydym hefyd yn nodi barn y sector plant bod modd gwneud mwy i gynyddu cyfranogiad ystyrlon plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau. Mae'n hanfodol bod lleisiau plant yn cael eu clywed yn y trafodaethau sy'n effeithio arnyn nhw. Nodwn rai o'r rhwystredigaethau a fynegwyd ynghylch eglurder a hygyrchedd dulliau sy'n eu galluogi i wneud hyn, megis

[308] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 143], 6 Tachwedd 2019.

ymgyngoriadau cyhoeddus y llywodraeth. Rhaid i Lywodraeth Cymru fyfyrio ar ei dull presennol a'i dull yn y dyfodol o wrando ar blant a phobl ifanc.

**312.** Yn bwysicaf oll, neges glir y bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw yw bod llawer o waith i'w wneud. Nid oedd rhai pobl ifanc erioed wedi clywed am eu hawliau ac roedd yn amlwg nad oedd eraill yn teimlo bod neb yn gwrando arnynt. Mae'n amlwg bod mwy o waith i'w wneud gan gyrff cyhoeddus eraill hefyd yn hyn o beth.

**313.** Er ein bod yn croesawu'r ymdrechion a wnaed eisoes gan Lywodraeth Cymru hyd yn hyn, credwn y bydd strategaeth gyfranogi glir yn Llywodraeth Cymru yn rhoi dyletswyddau'r Mesur ar waith a hefyd yn gwella gwasanaethau ac yn targedu adnoddau'n well. Dylid nodi hyn yn y Cynllun Hawliau Plant diwygiedig i'w wneud yn dryloyw ac yn atebol.

> **Argymhelliad 12.** Y dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei Chynllun Hawliau Plant diwygiedig strategaeth glir i sicrhau cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn trafodaethau ar benderfyniadau gan Lywodraeth Cymru sy'n effeithio arnynt.

# 8. Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Cenhedloedd Unedig

Rhoddodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ei ddyfarniad yn 2016 ar ba gynnydd a wnaed i gyflawni hawliau plant yng Nghymru. Er ei bod yn glir bod llawer o gynnydd wedi'i wneud ynglŷn ag argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig, clywsom bryderon ynghylch a yw ymateb Llywodraeth Cymru i'r Sylwadau Terfynol yn strategol ac yn systematig.

**314.** Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn banel rhyngwladol o arbenigwyr a sefydlwyd ym 1991 i graffu ar hanes llywodraethau o gydymffurfio â'r hawliau sydd gan blant, fel y'u nodir yn y Confensiwn.

**315.** Yn y Deyrnas Unedig mae ei ddyfarniad yn cael ei seilio ar y canlynol:

- tystiolaeth ysgrifenedig gan lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig;
- tystiolaeth gan bob un o bedwar Comisiynydd Plant y Deyrnas Unedig;
- adroddiadau cenedlaethol gan Sefydliadau Anllywodraethol; a
- thystiolaeth a ddarperir gan blant a phobl ifanc.

**316.** Cyhoeddodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ei ganfyddiadau o'i archwiliad diweddar o lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn 2016.[309] Cyfeirir at argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig fel "Sylwadau Terfynol". Amlygodd y Sylwadau Terfynol hyn safbwyntiau cadarnhaol a negyddol ynghylch rhoi'r Confensiwn ar waith ledled y Deyrnas Unedig, ac arweiniodd at fwy na 150 o argymhellion.

[309] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Concluding Observations on the fifth periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland, 2016.

## Argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig fel y'u cymhwysir at Gymru

**317.** Adroddiad 2016 oedd y pumed tro i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig edrych ar y cynnydd a wnaed wrth ddarparu hawliau plant a phobl ifanc ers i Lywodraeth y Deyrnas Unedig lofnodi'r Confensiwn ym 1989.

**318.** Mae argymhellion y Cenhedloedd Unedig yn cyfeirio at ystod eang o faterion sydd wedi bod yn amlwg yn y Cynulliad hwn a'r Cynulliadau blaenorol. Mae'r argymhellion yn cynnwys pynciau fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed; y bwlch cyrhaeddiad mewn addysg; plant sy'n derbyn gofal; plant ag anghenion addysgol arbennig; chwarae plant; a gordewdra ymhlith plant.

**319.** Gan gyfeirio'n benodol at Gymru, roedd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn pryderu yn 2016:

- Bod cyfradd tlodi plant yn dal yn uchel ac yn effeithio fwyaf ar blant yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.[310]
- nad oedd barn plant yn cael ei chlywed yn systematig wrth lunio polisïau ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw ac nad oedd senedd ieuenctid wedi'i sefydlu bryd hynny.[311]
- bod pwerau Comisiynydd Plant Cymru yn dal yn gyfyngedig.[312]

**320.** Proses adrodd 2016 oedd y tro cyntaf i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig werthuso record Cymru ar ôl i'r Mesur gael ei roi ar waith.

**321.** Yn eu Sylwadau Terfynol, croesawodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y camau cadarnhaol yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd tuag at ymgorffori'r Confensiwn yn llawn yn y gyfraith ddomestig:

> "The Committee welcomes […] the progress achieved by the State party in various areas related to children's rights and the adoption of a

[310] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Concluding Observations on the fifth periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland, 2016.

[311] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Concluding Observations on the fifth periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland, 2016.

[312] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Concluding Observations on the fifth periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland, 2016.

> number of new laws and institutional and policy measures since its last review."[313]

## Ymateb yn ffurfiol i argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig

**322.** Er na all Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig orfodi llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru i newid eu cyfreithiau, eu polisïau a'u harferion, y disgwyl yw y bydd y ddwy Lywodraeth yn cymryd canfyddiadau Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig o ddifrif ac yn ymateb iddynt yn gyflym ac yn ystyrlon. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gennym yn awgrymu bod pryderon ynghylch i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn ffurfiol i argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn 2016.

**323.** Cyn argymhellion 2016, rhoddodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ei ddyfarniad ddiwethaf ar hawliau plant yng Nghymru yn 2008. Mewn ymateb i'w argymhellion, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar y pryd gynllun gweithredu 5 mlynedd, sef *Gwneud Pethau'n Iawn*.[314]

**324.** Tanlinellodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru fod Gweinidogion perthnasol o Gymru wedi cyfeirio at rai o argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ers i Sylwadau Terfynol 2016 gael eu rhyddhau. Er hynny, does dim adroddiad wedi'i gyhoeddi yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn wrth symud ymlaen â'r camau gweithredu a'r gweithgarwch sydd wedi'i gynllunio yn y dyfodol i weithredu'r argymhellion fel y maent yn ymwneud â chymwyseddau datganoledig Cymru, yn wahanol i'r achlysuron blaenorol.[315]

**325.** Dywedodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru:

> "A lot of work goes in, in the planning stages before the state party inquiry in Geneva. We as a monitoring group prepare a report and submit a report, and work with young people around reports, to inform the committee's recommendation. It's massive—there are 150 recommendations from the CRC, and it's important that those concluding observations do take effect when they're brought back to the UK, and then they're brought back to Wales, around devolved competencies. At the moment, we don't have a formal detailed response to those concluding observations for 2016, in terms of

[313] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Concluding Observations on the fifth periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland, 2016.

[312] Getting it right 2009: United Nations convention on the Rights of the Child.

[315] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 14 – Grŵp Monitro CCUHP Cymru.

> identifying what are the specific actions of Welsh Government against those concluding observations within their competencies."[316]

**326.** Dywedodd Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent y byddai wedi disgwyl gweld cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â phryderon Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig.[317]

**327.** Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddiffyg ymateb manwl i'r Sylwadau Terfynol hefyd. Amlygodd eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw bryderon bod gweithredoedd wedi'u rhestru yn *Ffyniant i Bawb* a *Mynd â Chymru Ymlaen* yn lle sefydlu rhaglen benodol ar gyfer plant a phobl ifanc mewn ymateb i'r argymhellion. Awgrymir nad yw'r dogfennau polisi hyn yn rhoi ffocws strategol pwrpasol i'r Sylwadau Terfynol gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.[318]

**328.** Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrth y Pwyllgor fod Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn ganllaw defnyddiol iawn i'r Llywodraeth o ran yr hyn y dylent fod yn ei wneud o safbwynt cyflawni rhaglen i blant yn ei chyfanrwydd.[319] Er hynny, awgrymodd y Comisiynydd yn ei thystiolaeth ysgrifenedig: "wrth siarad â swyddogion o amrywiaeth o adrannau'r llywodraeth, nid ymddengys eu bod yn ymwybodol o'r Sylwadau Terfynol sy'n berthnasol i'w maes polisi".[320]

**329.** Nododd y Comisiynydd Plant ei bod yn credu bod diffyg ymateb manwl yn gyfle a gollwyd:

> "I do think that the Government has missed an opportunity to properly analyse where we're at in relation to them [y sylwadau terfynol], and to actually highlight some progress they've made—because the Government has made progress on some of the concluding observations, so, in a way, I'm surprised they haven't taken the opportunity to make people aware of that—but, also, of course, to acknowledge where they haven't made progress as well. It's important for accountability to children in Wales that they see that very clearly."[321]

---

[316] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 124], 16 Hydref 2019.

[317] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 16 – Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent.

[318] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 24 – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

[319] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 452], 16 Hydref 2019.

[320] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[321] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 182], 16 Hydref 2019.

**330.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig hi, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at farn Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar faterion ledled y Deyrnas Unedig gan gynnwys yr angen i fynd ati, fel blaenoriaeth, i wahardd pob cosb gorfforol yn y teulu, gan gynnwys diddymu'r holl amddiffyniadau cyfreithiol, megis "cosb resymol".[322]

**331.** Aeth y Llywodraeth ymlaen i ddweud ei bod, ym mis Mawrth 2019, wedi cyflwyno Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) er mwyn dileu'r amddiffyniad yn y gyfraith gyffredin o gosb resymol fel nad yw hwnnw ar gael yng Nghymru mwyach i rieni na'r rhai sy'n gweithredu yn lle'r rhieni fel amddiffyniad ar gyfer ymosodiad neu guro yn erbyn plentyn".[323]

**332.** Pan ofynnwyd iddi pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymateb manwl ffurfiol i'r Sylwadau Terfynol, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

> "Well, all I can say is that we are responding to them all. We're not not responding to any of them. I think that the UNCRC has always felt that, in Wales, we have been working on children's rights, promoting rights, in a way that's been held up to other countries. So, whether we have a strategy or not, we've certainly got a response to all of those proposals. Personally, I think that there has been huge progress. It has taken years to get here, but we are making progress now, particularly with these legislative measures that we're taking at the moment."[324]

## Cynllun gweithredu cenedlaethol

**333.** Yn eu tystiolaeth nhw, galwodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru ar Lywodraeth Cymru i ystyried cyflwyno dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi a monitro cynllun cenedlaethol i nodi'r cynnydd a wnaed wrth weithredu Sylwadau Terfynol 2016.[325]

**334.** Er bod y Mesur yn dweud bod rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw wrth baratoi Cynllun Hawliau Plant i unrhyw adroddiadau, awgrymiadau, argymhellion cyffredinol neu ddogfennau eraill a gyhoeddir gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig sy'n ymwneud â gweithredu'r Confensiwn, dywedodd y Grŵp nad yw hyn

[320] Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru.

[321] Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru.

[324] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 182], 6 Tachwedd 2019.

[325] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 14 – Grŵp Monitro CCUHP Cymru.

yr un fath â dyletswydd i gyhoeddi cynllun gweithredu cenedlaethol cynhwysfawr ar weithgareddau i roi'r Sylwadau Terfynol ar waith.[326]

**335.** Cododd Grŵp Monitro CCUHP Cymru y ffaith bod adroddiad diweddaraf Llywodraeth yr Alban mewn ymateb i'r Sylwadau Terfynol yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yr argymhellion ymlaen, a'r gweithgarwch arfaethedig tan 2021. Pwysleisiodd y Grŵp hefyd y rhwymedigaeth gyfreithiol a roddir ar Lywodraeth yr Alban i adrodd ar y camau a gymerwyd i roi effaith bellach i'r Confensiwn. Yn ychwanegol at hyn, amlygodd y Grŵp y pwerau sydd ar gael o dan Ran 6 o'r Mesur[327] y gellid eu defnyddio i osod dyletswydd debyg ar Weinidogion Cymru.[328]

## Mecanwaith cenedlaethol ar gyfer gweithredu ar argymhellion y Cenhedloedd Unedig, adrodd arnynt a gwneud gwaith dilynol arnynt

**336.** Amlygodd yr EHRC fod Sylwadau Terfynol 2016 Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn galw ar y Deyrnas Unedig i gryfhau'r gwaith cydgysylltu a gwerthuso ynglŷn â rhoi'r Confensiwn ar waith. Soniodd yn fwy cyffredinol nad oes dull ffurfiol yn Llywodraeth Cymru na Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gydlynu a monitro sut mae argymhellion y Cenhedloedd Unedig yn cael eu rhoi ar waith ac nad oes yna weithredu yn aml ar nifer fawr o argymhellion y Cenhedloedd Unedig.[329] O ran tystiolaeth atodol, amlygodd yr EHRC enghreifftiau o wahanol fodelau o ddulliau cenedlaethol ar gyfer gweithredu ar argymhellion y Cenhedloedd Unedig, adrodd arnynt a gwneud gwaith dilynol arnynt.[330]

**337.** Galwodd y EHRC am y canlynol:

- Llywodraeth Cymru i fabwysiadu dull ffurfiol i gydlynu a monitro gweithrediad holl argymhellion y Cenhedloedd Unedig, gan gynnwys y rhai gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, i roi modd i Weinidogion Cymru olrhain cynnydd yn fwy cyfannol;
- y dulliau hyn i fod yn barhaol a chynnwys croestoriad o adrannau a chynrychiolwyr perthnasol o gyrff cyhoeddus eraill, seneddau a'r

[326] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 14 – Grŵp Monitro CCUHP Cymru.

[327] Mae Adran 6 o'r Mesur yn darparu pŵer i ddiwygio'r ddeddfwriaeth os yw adroddiad gan Lywodraeth Cymru ar "gydymffurfio" yn dod i'r casgliad y byddai'n ddymunol at ddibenion rhoi effaith bellach i'r hawliau yn y Confensiwn.

[328] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 14 – Grŵp Monitro CCUHP Cymru.

[329] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 26 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

[330] Tystiolaeth ysgrifenedig atodol – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 18 Hydref 2019.

farnwriaeth, sefydliadau hawliau dynol cenedlaethol a'r gymdeithas sifil.[331]

**338.** Roedd Grŵp Monitro CCUHP Cymru o blaid sefydlu dull ffurfiol i fonitro gweithrediad argymhellion y Cenhedloedd Unedig.[332] Awgrymodd y Grŵp y gallai unrhyw ddull olrhain sy'n edrych ar y Sylwadau Terfynol helpu hefyd i ddylanwadu ar adroddiad nesaf y Wladwriaeth sy'n Barti (sef cyflwyniad ysgrifenedig llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig cyn yr adolygiad a ddisgwylir yn 2022).[333]

## Ein barn ni

**339.** Rydym yn cydnabod y cynnydd a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cymru ers yr adolygiad diwethaf gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn 2008, fel y nodwyd yn ei Sylwadau Terfynol yn 2016. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael cydnabyddiaeth ryngwladol am gyflwyno'r Mesur, sy'n ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn y gyfraith ddomestig yng Nghymru.

**340.** Er hynny, byddem yn croesawu cyhoeddi ymateb manwl gan Lywodraeth Cymru i Sylwadau Terfynol 2016. O gofio bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb i adroddiadau blaenorol trwy gyhoeddi cynllun gweithredu treigl, gan nodi meysydd blaenoriaeth a ymatebodd i argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig, gellir dadlau bod y sefyllfa bresennol yn gam yn ôl.

**341.** Mae'n glir bod Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â nifer o argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig, megis cyflwyno'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru). Er hynny, nodwn bryderon Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ynghylch cyfraddau tlodi plant sy'n effeithio ar blant yng Nghymru yn arbennig; dyma faes amlwg lle y gallai Llywodraeth Cymru fod yn fwy tryloyw yn yr ymagwedd y mae'n ei harddel at fynd i'r afael â Sylwadau Terfynol y Cenhedloedd Unedig. Er enghraifft, yn adroddiad Llywodraeth Cymru, *Tlodi Plant: Adroddiad Cynnydd 2019*[334] mae yna gyfeiriadau at hawliau plant ond does dim byd i ddweud yn benodol fod y Llywodraeth yn mynd i'r afael ag argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig.

[331] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 26 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

[332] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 14 – Grŵp Monitro CCUHP Cymru.

[333] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 130], 16 Hydref 2019.

[334] Llywodraeth Cymru, Tlodi Plant: Adroddiad Cynnydd 2019, Rhagfyr 2019.

**342.** Credwn y bydd ymateb strategol manwl i Sylwadau Terfynol 2016, gan gynnwys canlyniadau mesuradwy, yn dangos ymrwymiad clir a newydd gan Lywodraeth Cymru i'r agenda hawliau plant yng Nghymru.

**343.** Rydym hefyd o'r farn y byddai diweddariadau blynyddol ar y cynnydd a wneir yn erbyn Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn dryloyw wrth adrodd ar ei chynnydd ac yn atebol am ei gwaith i gyflawni rhaglen i blant. Gallai dull o'r fath helpu hefyd i fwydo cyflwyniad Llywodraeth Cymru i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig pan fydd y cynnydd yn cael ei archwilio nesaf.

**344.** Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fyfyrio ar yr arferion rhyngwladol ac ystyried opsiynau ar gyfer dull monitro ffurfiol.

**Argymhelliad 13.** Y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ymateb strategol manwl i Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn 2016 o fewn y chwe mis nesaf. Dylai hyn gynnwys manylion y cynnydd a wnaed yn erbyn yr holl argymhellion a pha gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â meysydd pryder.

**Argymhelliad 14.** Y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi diweddariad blynyddol o'r cynnydd a wneir yn erbyn Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, i'w osod gerbron y Senedd ac i fod yn destun gwaith craffu blynyddol gan y pwyllgor perthnasol.

# 9. Cryfhau'r sefyllfa gyfreithiol ar hawliau plant

Roedd tystiolaeth a gawsom gan randdeiliaid allweddol yn awgrymu bod angen adolygu ac o bosibl gryfhau'r sefyllfa gyfreithiol ar hawliau plant yng Nghymru. Er y bernid bod y sefyllfa gyfreithiol yn addas adeg cyflwyno'r Mesur yn 2010, nodwyd bod setliad datganoli Cymru wedi newid wedyn. Ddegawd yn ddiweddarach, mae'n bryd ystyried a yw'r ddeddfwriaeth yn dal yn addas at ei diben.

**345.** Dywedodd cynrychiolwyr Grŵp Monitro CCUHP Cymru wrth y Pwyllgor:

> "Wales had taken a particular approach to incorporation of the UNCRC in 2011, which was suitable at the time in relation to where we were in devolution, and devolution, I think, and Wales, in human rights terms, have come a long way since then."[335]

**346.** Dywedodd swyddfa Comisiynydd Plant Cymru hefyd:

> "[…] the Measure is seen as sometimes a bit of a high watermark, and that children's rights in Wales are now embedded and implemented because of it, and that the foot then comes off the pedal a little bit.
>
> […] the Measure was what was achievable at the time in the context of devolution, but those barriers are not necessarily in place now. I think, particularly, with all of the equalities and human rights work, I wouldn't want anyone to see the Measure as the best possible thing that could be achieved in 2019, because I think there could be a lot more that could be done with the levers that are now open to the Assembly."[336]

**347.** Mae Adran 6 o'r Mesur yn darparu pŵer i ddiwygio'r ddeddfwriaeth os bydd adroddiad Llywodraeth Cymru ynghylch cydymffurfio "yn dod i'r casgliad y byddai'n ddymunol, at ddibenion rhoi effaith bellach neu effaith well" i'r hawliau

[335] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 147], 16 Hydref 2019.

[336] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 444], 16 Hydref 2019.

yn y Confensiwn.[337] Mae'r Mesur hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd arall, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd.

## Cyrff cyhoeddus

**348.** Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd "sylw dyledus" ar Weinidogion Cymru ond nid yw'n gosod unrhyw ddyletswyddau yn uniongyrchol ar gyrff cyhoeddus, er enghraifft awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol (y mae llawer o swyddogaethau'r Gweinidogion yn cael eu cyflawni trwyddynt). Mae darnau deddfwriaeth mwy diweddar, gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[338] a Deddf Tribiwnlys Anghenion Dysgu ac Addysg Ychwanegol (Cymru) 2018[339] wedi'i gwneud yn ofynnol i rai cyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i Ran 1 o'r Confensiwn o dan amgylchiadau penodol.

**349.** Ceisiodd y Pwyllgor gael tystiolaeth ynghylch i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio i sicrhau bod ei dyletswyddau yn y Mesur yn cael eu trosglwyddo i waith cyffredinol cyrff cyhoeddus, sef gwaith yr awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd yn bennaf yn y cyd-destun hwn.

**350.** Croesawodd yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant ymdrechion Llywodraeth Cymru i osod dyletswydd "sylw dyledus" ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Dywedodd yr Arsyllfa fod y Mesur wedi dylanwadu ar ganllawiau a deddfwriaeth sy'n gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus yn fwy cyson â hawliau plant.[340] Nodwyd hyn hefyd gan Gomisiynydd Plant Cymru.[341] Er hynny, dywedodd yr Arsyllfa mai yn "dameidiog" yr oedd y ddyletswydd "sylw dyledus" yn cael ei chymhwyso at gyrff cyhoeddus.[342]

**351.** Yn ôl Hafal, er bod ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd "sylw dyledus" yn amlwg yn ymgyngoriadau ac areithiau Llywodraeth Cymru, nid yw Hafal wedi'i argyhoeddi bod hyn yn cael ei roi ar waith yn gadarn, yn enwedig felly erbyn i'r ddyletswydd gyrraedd yr awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd.[343] O ran y cwestiwn a yw'r Mesur wedi cyflawni "mesurau cyffredinol" y Confensiwn ynglŷn â gweithredu, dywedodd Hafal:

---

[337] Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

[336] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

[339] Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

[340] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 04 – Yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant.

[341] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[342] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 04 – Yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant.

[343] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 18 – Hafal.

> "This is difficult to assess as the Children's Commissioner does not have sufficient powers to ensure local authorities and health boards act on Welsh Government policy in this area. We believe the Welsh Government has too much of a 'hands-off' approach with local service provision to ensure its effective implementation."[344]

**352.** Gwelwyd pryderon nad yw'r dyletswyddau yn y Mesur yn cael eu trosglwyddo i waith cyrff cyhoeddus mewn tystiolaeth gan Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, yn benodol o ran cynnydd mewn gwaharddiadau ar gyfer hiliaeth mewn ysgolion yng Nghymru:

> "[…] the data provided regarding the number of racist incidents in schools raises serious questions about its robustness and whether or not local authorities are obtaining a clear picture of the incidence of racism in their schools.
>
> Failure to keep an accurate record of the incidence of racism in schools could result in LAs and schools failing to respond appropriately, leaving victims unsupported and perpetrators uneducated in the consequences of their actions."[345]

**353.** Er nad oedd ef mewn sefyllfa i asesu effaith gyffredinol y Mesur ar lunio polisïau Llywodraeth Cymru, dywedodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod rhai tueddiadau a themâu cyffredinol a amlygwyd mewn gwaith achosion ers 2011 yn ymwneud ag achosion lle roedd plant a phobl ifanc yn dal i gael eu heffeithio gan gamweinyddu a methiant yng ngwasanaethau cyrff cyhoeddus.[346]

**354.** Cododd cynrychiolwyr Ysbyty Plant Noah's Ark yng Nghymru bryderon ynghylch arweinyddiaeth o ran hawliau plant. Dywedodd y cynrychiolwyr wrth y Pwyllgor:

> "[…] three out of the seven health boards do not have a board-level lead or a champion for children's services, and this certainly reduces opportunities for children to have their voice heard and their human rights respected in organisational decision making."[347]

[344] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 18 – Hafal.

[345] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 02 – Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth.

[346] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 05 – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

[347] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 178], 16 Hydref 2019.

**355.** Ar y llaw arall, nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ei fod yn datblygu Siarter a fydd yn ystyried Hawliau'r Plentyn ac y rhoddir ystyriaeth i dystiolaeth o ganlyniadau.[348]

**356.** Cyfeiriodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru at enghreifftiau o Abertawe a Chaerdydd lle roedd awdurdodau lleol yn dangos tystiolaeth o ymrwymiad i'r Confensiwn. Dywedodd y Gymdeithas fod rhai awdurdodau lleol wedi ceisio "arfer eu hymrwymiad i hawliau plant o'u gwirfodd gydag egni o'r newydd"[349], gan nodi:

> "O dan gyfraith ryngwladol tybir fod gan bob haen o lywodraeth ddyletswydd o ran hawliau plant. Mae ganddynt i gyd gyfrifoldebau i sicrhau fod y rhwymedigaethau yn y Confensiwn yn cael eu hamddiffyn, eu parchu a'u cyflawni. Mae hyn yn unol ag Erthyglau 4 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r Mesurau Gweithredu Cyffredinol fel nodwyd gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae Erthygl 3 y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol ac Erthygl 27 o Gonfensiwn Fienna ar y Gyfraith a Chytundebau hefyd yn nodi fod methiant unrhyw awdurdod cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, i gynnal hawliau dynol yn fethiant y Wladwriaeth."[350]

**357.** Galwodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y ddyletswydd "sylw dyledus" yn y Mesur yn cael ei rhoi ar waith yn dda trwy hyfforddiant a thrwy godi ymwybyddiaeth.[351] Argymhellodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan y gellid cryfhau'r broses o drosglwyddo'r gwaith ar hawliau plant i gyrff cyhoeddus ymhellach trwy estyn y gofyniad i gwblhau Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer pob penderfyniad polisi newydd i bob sefydliad gwasanaeth cyhoeddus.[352]

## Ymestyn y ddyletswydd "sylw dyledus" i gyrff cyhoeddus

**358.** Galwodd nifer o ymatebion ar Lywodraeth Cymru i estyn y ddyletswydd "sylw dyledus" i gyrff cyhoeddus, fel y byddai'n ofynnol i bob un ohonynt roi sylw dyledus i'r Confensiwn wrth arfer eu holl swyddogaethau, yn unol â'r ddyletswydd a osodwyd ar y Gweinidogion. Dywedodd Achub y Plant wrth y Pwyllgor:

[348] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 06 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

[349] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 24 – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

[350] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 24 – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

[351] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 12 – Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs.

[352] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 21 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

> "We believe consideration should be given to amending the Measure to ensure that all public bodies are given a statutory requirement to have due regard to the UNCRC in the exercise of all their functions."[353]

**359.** Esboniodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru fod rôl cyrff cyhoeddus yn ganolog wrth ddarparu gwasanaethau a all wella'r broses o hybu hawliau plant a helpu plant i sicrhau gwell canlyniadau.[354] Dadleuai'r Grŵp y dylai Gweinidogion Cymru estyn dyletswydd gyffredinol y sector cyhoeddus o roi sylw dyledus i'r Confensiwn yng Nghymru sy'n gymwys i bob corff cyhoeddus a phob corff sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus[355] gan ychwanegu, er enghraifft, ei bod yn debyg bod unrhyw elfen o wasanaethau i'r gymuned Teithwyr yn dioddef am nad oedd dyletswydd sylw dyledus ar unigolion a chyrff cyhoeddus.[356] Rhybuddiodd y Grŵp nad oedd yn credu bod gan Lywodraeth Cymru yr arbenigedd na'r gallu i gefnogi datblygiad y canllawiau neu'r ddeddfwriaeth angenrheidiol i ymestyn y ddyletswydd i gyrff cyhoeddus.[357]

**360.** Galwodd Ysbyty Plant Noah's Ark yng Nghymru hefyd am ddyletswydd sector cyhoeddus.[358] Amlygodd cynrychiolwyr yr Ysbyty ddiffyg cysondeb yn y trefniadau presennol, gan alw am strategaethau gweithredu corfforaethol ac ymrwymiad ar lefel uchel, ond pwysleisiwyd na fyddai hyn yn digwydd heb ofyniad cyfreithiol.[359] Ychwanegodd:

> "[…] what we need is capacity, resource and support and direction from Welsh Government on how to do this. You've already had experience over the last seven years of doing it—the Welsh Government doing it in terms of a model. It's working to some degree. Let's build on that."[360]

**361.** Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrth y Pwyllgor ei bod hi'n "ffafrio ymgorffori CCUHP yn fwy trwy osod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i weithredu'n unol â CCUHP wrth gyflawni eu dyletswyddau".[361] Dywedodd y Comisiynydd hefyd:

---

[353] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 22 – Achub y Plant.
[354] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 14 – Grŵp Monitro CCUHP Cymru.
[355] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 14 – Grŵp Monitro CCUHP Cymru.
[356] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 94], 16 Hydref 2019.
[357] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 89], 16 Hydref 2019.
[358] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 17 – Ysbyty Plant Noah's Ark yng Nghymru.
[359] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 244], 16 Hydref 2019.
[360] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 248], 16 Hydref 2019.
[361] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

> "What I'm seeing in my engagement with public bodies is that they're welcoming the chance to think about what a children's rights approach looks like; I find that I'm pushing at open doors with public bodies. They're actively coming to us and asking us how we can help them implement children's rights. I think they're ready to do it, and I think this would be a really progressive step for Wales."[362]

**362.** Pan gafodd ei holi ynghylch gsod y ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

> "I'm open to consider further reform, but I'd have to take legal advice, I think, on that, about what could be done."[363]

## Ein barn ni

**363.** Er nad yw'r Mesur yn gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus, maen nhw'n chwarae rhan ganolog wrth ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ac o'r herwydd maent yn derbyn cryn dipyn o arian cyhoeddus. Rydym yn croesawu ymdrechion Llywodraeth Cymru, fel y'u disgrifiwyd gan randdeiliaid allweddol, i drosglwyddo'r dyletswyddau yn y Mesur i waith yr awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd yng Nghymru trwy ganllawiau a deddfwriaeth arall.

**364.** Nodwn bryderon mewn rhywfaint o'r dystiolaeth bod gan Lywodraeth Cymru ormod o ymagwedd "dim dwylo"[364] at ddarparu gwasanaethau lleol i sicrhau bod y Mesur yn cael dylanwad uniongyrchol ar waith y cyrff cyhoeddus y mae'n darparu cyllid iddynt.

**365.** Nodwn y consensws clir yn y dystiolaeth o blaid ymestyn y ddyletswydd "sylw dyledus" yn y Mesur i gyrff cyhoeddus. Rydym felly yn croesawu barn Comisiynydd Plant Cymru bod parodrwydd ymhlith cyrff cyhoeddus i helpu i weithredu'r dyletswyddau yn y Mesur. Rhaid gwireddu hyn.

**366.** Mae croeso hefyd i'r ffaith bod y Dirprwy Weinidog yn "agored" i newid yn y sefyllfa gyfreithiol.

**367.** Rydym wedi'n perswadio bod gan gyrff cyhoeddus rôl ganolog wrth sicrhau gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc ledled Cymru, a chredwn y bydd ymestyn y ddyletswydd i gyrff cyhoeddus yn helpu i gyflawni gwelliannau yn hyn o beth.

---

[362] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 443], 16 Hydref 2019.

[363] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 147], 6 Tachwedd 2019.

[364] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 18 – Hafal.

**Argymhelliad 15.** Y dylai pob corff cyhoeddus datganoledig (megis awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol) gael eu gosod o dan ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau i bob corff cyhoeddus datganoledig ynghylch yr hyn y mae hyn yn ei olygu o ran eu swyddogaethau beunyddiol a sut y caiff cydymffurfiaeth ei monitro.

**368.** Gellid gwneud hyn trwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae Adran 6 o'r Mesur hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth, os ydynt wedi dod i'r casgliad, mewn adroddiad y maent wedi'i gyhoeddi o dan adran 4 o'r Mesur, y byddai'n ddymunol diwygio deddfwriaeth neu offerynnau uchelfreiniol penodol, er mwyn rhoi effaith bellach neu well i'r hawliau a'r rhwymedigaethau a nodir yn Rhan I o'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol.

## Ymgorffori'r Confensiwn ymhellach yng nghyfraith Cymru

**369.** Er nad yw Cymru yn Wladwriaeth syn Barti i'r Confensiwn, deddfodd Llywodraeth Cymru i "roi effaith bellach" i'r Confensiwn yn y gyfraith ddomestig trwy'r Mesur.[365]

**370.** Amlinellodd adroddiad yr EHRC yn 208 farn y Comisiwn ar y gwahaniaeth rhwng y Mesur yng Nghymru ac ymgorffori'r Confensiwn yn y system gyfreithiol genedlaethol. Daeth i'r casgliad a ganlyn:

> "Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn argymell ymgorffori'r Confensiwn mewn systemau cyfreithiol cenedlaethol. Mae hyn yn golygu y dylai'r Confensiwn gael ei weithredu'n uniongyrchol gerbron llysoedd cenedlaethol ac y bydd yn drech pan fydd yn gwrthdaro â chyfraith ddomestig, ac y bydd ateb yn cael ei ddarparu ar gyfer torri.
>
> [...] Mae'r Mesur wedi ychwanegu sail newydd ar gyfer adolygiad barnwrol a gellir dibynnu ar y Confensiwn gerbron llys yn y DU i herio penderfyniad a wnaed gan Weinidog yng Nghymru. Gellir dadlau bod hyn yn diwallu gofyniad cyntaf Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar gyfer ymgorffori. Fodd bynnag, mae ymgorffori fel y'i ystyriwyd gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig hefyd yn gofyn am ddatrysiad a gwneud iawn addas pan fydd hawliau'r Confensiwn yn cael eu torri, gan gynnwys iawndal. Fel arfer, nid yw atebion ar adolygiad barnwrol yn cynnwys iawndal.72 Beth bynnag, nid yw'r fformiwla sylw dyledus yn cynnwys ymgorffori gan nad yw'n rhoi statws uwch i'r Confensiwn dros bolisi a benderfynir gan Lywodraeth Cymru.

[365] Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

> Er bod Llywodraeth Cymru wedi mynd ymhellach na Llywodraeth y DU ac unrhyw awdurdod datganoledig arall yn y DU i integreiddio'r Confensiwn mewn cyfraith ddomestig, ni ellir dweud ei bod wedi ymgorffori'r Confensiwn fel y'i rhagwelwyd gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig. Yn hytrach, mae'r Mesur yn fesur deddfwriaethol o weithredu i integreiddio'r Confensiwn i gyfraith Cymru."[366]

**371.** Gan ddisgrifio'r Mesur fel "carreg gamu" tuag at ymgorffori llawn, dywedodd yr EHRC wrth y Pwyllgor fod diffyg dannedd cyfreithiol yn y Mesur ac nad yw mewn unrhyw fodd yn cyfrif fel ymgorfforiad llawn o ran gorfodaeth gyfreithiol ar hawliau plant yng Nghymru.[367] Galwodd yr EHRC am gryfhau mesurau i amddiffyn hawliau plant yng Nghymru ymhellach trwy wneud yr hawliau hyn yn orfodadwy yn gyfreithiol.[368]

**372.** Yn 2012, comisiynodd UNICEF UK Brifysgol y Frenhines, Belfast, i astudio gwledydd lle mae'r Confensiwn wedi'i ymgorffori'n llawn yn y gyfraith. Er bod ymgorffori'n golygu bod y Confensiwn yn rhan lawn o'r system gyfreithiol ddomestig, daeth yr astudiaeth i'r casgliad y bernid bod ei brif werth i'w gael yn y neges gref yr oedd yn ei chyfleu am statws plant a hawliau plant, a'r effeithiau canlyniadol ar gyfer gweithredu egwyddorion hawliau plant yn y gyfraith a'r polisi domestig.[369]

**373.** Ategwyd y farn hon gan Ddyneiddwyr Cymru a ddywedodd y dylid ymgorffori'r Confensiwn yn uniongyrchol yng nghyfraith Cymru:

> "This [ymgorffori] would send a clear message that Wales is committed to children's rights and make the Convention directly enforceable rather than, as is currently the case under the 2011 Measure, something which retains an optional status as long as the Government pays it 'due regard' during the policy-making process."[370]

**374.** Pan ofynnwyd iddi am ymgorffori'r Confensiwn cyfan yn llawn yng nghyfraith Cymru, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor:

[366] Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Effaith Integreiddio Cyfreithiol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru, Awst 2018.

[367] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 267], 16 Hydref 2019.

[368] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 26, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

[369] UNICEF UK, The UN Convention on the Rights of the Child: a study of legal implementation in 12 countries.

[370] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 08 – Dyneiddwyr Cymru.

> "Well, obviously, there's more than one way of incorporating an international treaty in domestic law, and, in Wales, we've incorporated the UNCRC by using the Measure to place a duty on Welsh Ministers. So, we have to take regard of the UNCRC when we're making new legislation, new policies and a review or change to existing policies. And I do believe that this is having an impact on policy making in Wales, and I hope it will continue to have even more of an impact on policy making in Wales."[371]

**375.** Cyfeiriodd Comisiynydd Plant Cymru at gyhoeddiad Llywodraeth Cymru[372] ar hybu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru:

> "Yn 2018 fe gyflwynais bapur i swyddogion o'r Gangen Plant (fy nghangen gyswllt yn y Llywodraeth) ar ymgorffori CCUHP ymhellach i gyfraith Cymru, yn dilyn trafodaethau ar hynny gyda'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ar y pryd yn ein cyfarfodydd chwarterol. Ar yr adeg honno, cyhoeddodd Arweinydd y Tŷ ar y pryd fod bwriad i gomisiynu ymchwil ar yr ystod o gytuniadau sy'n berthnasol i Gymru a lefelau uniongyrchol ac anuniongyrchol eu hymgorffori, gyda golwg ar archwilio estyniadau posibl, ac mae fy swyddfa'n cael ei chynrychioli ar grŵp llywio ar gyfer y gwaith hwn."[373]

**376.** Ar y mater hwn, dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd:

> "I think it's important to draw the committee's attention to the fact that the leader of the house is also conducting a review into advancing equality and human rights in Wales, and obviously consideration of children's rights is in there as well. So, she may be coming forward with some proposals as well. But I think there's no doubt that other countries are looking to us about how we're implementing the Measure."[374]

[371] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 157], 6 Tachwedd 2019.

[372] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [para 289 – 305], 11 Mehefin 2019.

[373] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[374] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 165], 6 Tachwedd 2019.

## Ymgorffori ymhellach y Confensiwn mewn cyfraith ddomestig mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig

**377.** Mae Deddf Plant a Phobl Ifanc (Yr Alban) 2014[375] yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion yr Alban roi ystyriaeth ddyledus i sut y gellir gweithredu'r Confensiwn yn well. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn ceisio barn ar ymgorffori'r Confensiwn yn llawn yng Nghyfraith yr Alban, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ym mis Tachwedd 2019 y bydd yn ymgorffori'r Confensiwn yn y gyfraith i'r graddau mwyaf sy'n bosibl o fewn pwerau Senedd yr Alban.[376]

**378.** Cyfeiriodd Comisiynydd Plant Cymru at Jersey, lle mae deddfwriaeth yn cael ei dilyn mewn dau gam:

> "[...] the first step is a Measure just like ours, but they have in place, then, full incorporation to come a couple of years later."[377]

**379.** Yn ôl Barnardo's Cymru, er bod y Mesur "yn elfen gadarnhaol o gorff cyfraith Cymru ac yn parhau i fod", awgrymodd fod "yr amser yn iawn ar gyfer adolygiad trylwyr" o'r dull o amddiffyn a hybu hawliau plant trwy'r Mesur.[378] Ychwanegodd Barnardo's Cymru:

> "Byddem hefyd yn dadlau ein bod bron â chyrraedd pen draw'r cynnydd sy'n bosib gyda'r capasiti a'r systemau presennol, neu ein bod wedi cyrraedd hynny'n barod. Felly, rydym hefyd yn awgrymu y byddai'n fuddiol mynd ati i ddatblygu'n sylweddol yr hyn sydd ar waith yn barod, yn hytrach na newid popeth yn llwyr.
>
> [...]Mae'r mesur wedi cael ei ystyried yn gam cadarnhaol mewn mannau eraill, wrth i ffordd Cymru o weithredu gael sylw yn y ddadl am ddeddfwriaeth hawliau yn yr Alban. Rydym yn siŵr y bydd y Llywodraeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chymdeithas sifil yn gwylio hyn yn ofalus er mwyn gweld beth allwn ni ei ddysgu ganddyn nhw, a sut gallem ystyried gwella'r mesur, yn enwedig gan fod ein proses ddatganoli wedi symud ymlaen ers pan gafodd y mesur ei gyflwyno."[379]

---

[375] Deddf Plant a Phobl Ifanc (Yr Alban) 2014.

[376] Newyddion Llywodraeth yr Alban, Strengthening children's rights, 20 Tachwedd 2019.

[377] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 440], 16 Hydref 2019.

[378] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 19 – Barnardo's Cymru.

[379] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 19 – Barnardo's Cymru.

**380.** Dadleuodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru y dylid ystyried dull yr Alban o weithredu yn unol â dyletswydd fel rhan o ymgorffori'r Confensiwn yn y gyfraith yng Nghymru.[380]

**381.** Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog yn ei thystiolaeth hi ei bod hi a'i swyddogion wedi cael trafodaethau gyda chymheiriaid yn yr Alban i rannu'r gwersi a ddysgwyd drwy weithredu'r Mesur yng Nghymru.[381] Ychwanegodd ei swyddog y canlynol:

> "It's worth noting as well, I think, that they value our duty of due regard so much they're actually going to, I think, introduce a duty of due regard, a children's rights scheme, along the lines of what we've done, because they can see the value of having that policy discussion and that requirement for officials and Ministers to consider, when they're making policy, the issues of children's rights and the UNCRC. So, they're taking a lot of things from Wales as they try to move forward in what they're doing."[382]

## Ein barn ni

**382.** Rydym wedi gwrando'n ofalus ar y dystiolaeth ynghylch manteision ymgorffori'r Confensiwn ymhellach. Er hynny, rydym hefyd yn ymwybodol o ffactorau allanol eraill megis effaith anhysbys Brexit ar gydraddoldeb a hawliau dynol i Gymru. Byddai angen ymgorffori'r Confensiwn yn llawn trwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Felly byddai angen rhoi ystyriaeth ofalus i faterion cymhwysedd deddfwriaethol, capasiti a'r amser deddfwriaethol sydd ar gael cyn bwrw ymlaen â chynigion deddfwriaethol arwyddocaol i ymgorffori'r Confensiwn yn llawn yng nghyfraith Cymru.

**383.** Rydym yn ymwybodol o farn y Dirprwy Weinidog fod y Mesur yn cael effaith gadarnhaol ar broses llunio polisi yng Nghymru. Rydym hefyd yn nodi'r potensial ar gyfer Deddf Hawliau i Gymru, sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru.

**384.** Ein barn ni yw mai'r flaenoriaeth gyfredol yw sicrhau bod y ddeddfwriaeth bresennol yn gweithio'n effeithiol. Mae llawer mwy i'w wneud yn hyn o beth ac rydym wedi gwneud llawer o argymhellion ymarferol o'r meysydd yr hoffem eu gweld yn cael eu symud ymlaen. Ar ôl pwyso a mesur, rydym o'r farn nad dyma'r

[380] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 148], 16 Hydref 2019.
[381] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 158], 6 Tachwedd 2019.
[382] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 159], 6 Tachwedd 2019.

amser iawn i gyflwyno newidiadau deddfwriaethol i gryfhau'r sefyllfa gyfreithiol ar hawliau plant yng Nghymru i ymgorffori'r Confensiwn yn llawn. Dylai amser ac egni ganolbwyntio ar droi hawliau'n realiti i blant yng Nghymru ac nid ar ddeddfwriaeth ychwanegol ar hyn o bryd. Wrth gwrs, efallai na fydd hyn yn wir bob amser.

## Adolygu rôl Comisiynydd Plant Cymru

**385.** Penodir y Comisiynydd Plant gan y Prif Weinidog o dan Reoliad 2 o Reoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) 2000.[383] Ariennir y swydd a'r swyddfa ehangach hefyd gan Lywodraeth Cymru.

**386.** Prif nod y Comisiynydd Plant yw diogelu a hybu hawliau a lles plant. Rhaid mai hwn yw amcan pwysicaf y Comisiynydd wrth ymgymryd â'i gwaith.[384]

**387.** Croesawodd Sylwadau Terfynol 2016 Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig annibyniaeth gynyddol y Comisiynwyr Plant ym mhob un o'r pedair gweinyddiaeth ddatganoledig. Er hynny, galwodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig am gryfhau annibyniaeth y Comisiynwyr Plant sydd wedi'u sefydlu ymhellach, yn unol ag Egwyddorion Paris. Mae hyn yn cyfeirio at yr egwyddor y dylai cyrff hawliau dynol fod yn annibynnol ar y llywodraeth ac felly na ddylent eu penodi ganddynt.[385]

**388.** Cymeradwyodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru safbwynt Llywodraeth Cymru bod cylch gwaith Comisiynydd Plant Cymru yn ymestyn i unrhyw fater, datganoledig neu heb ei ddatganoli, sy'n effeithio ar blentyn neu blant yng Nghymru.[386] Serch hynny, nododd y Grŵp ei ofid hefyd fod argymhelliad yr adolygiad annibynnol o fframwaith deddfwriaethol, rôl ac atebolrwydd Comisiynydd Plant Cymru (a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2014[387]) – sef y dylai atebolrwydd a chyllid gael eu trosglwyddo i'r Senedd, yn gyson ag Egwyddorion Paris – wedi'i wrthod gan y Gweinidog Cymunedau a Thaclo Tlodi ar

[383] Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) 2000.

[384] Comisiynydd Plant Cymru, cyhoeddiad ar bwerau'r Comisiynydd, Hydref 2017.

[385] Mae Egwyddorion Paris yn sefydlu'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer annibyniaeth a gweithrediad effeithiol sefydliadau hawliau dynol cenedlaethol (NHRIs). Maent yn manylu ar y rôl y mae disgwyl i NHRIs ei chyflawni (hynny yw, monitro a gweithredu safonau hawliau dynol) a'r ffordd y dylid cyflawni'r rôl hon (hynny yw, cynnal annibyniaeth ar y llywodraeth a chymdeithas sifil).

[386] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 14 – Grŵp Monitro CCUHP Cymru.

[387] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig, Adolygu swyddogaethau a chyfrifoldebau Comisiynydd Plant Cymru – Cyhoeddi enw'r Adolygydd, 18 Mehefin 2014.

y pryd, Lesley Griffiths AC.[388] Galwodd y Grŵp am ddeddfwriaeth i ddiwygio rôl a chylch gwaith statudol y Comisiynydd, gan gynnwys trwy wneud y Comisiynydd yn atebol i'r ddeddfwrfa yn hytrach na'r weithrediaeth.[389]

**389.** Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, dywedodd Gwasanaeth Seicoleg Gymunedol, Seicoleg a Therapïau Plant a Theuluoedd Gwent ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan: "There should be consideration given to elevating the status of the Measure through primary legislation to further strengthen the role of the Children's Commissioner for Wales in order to enable the officeholder to have the necessary levers to hold Ministers to account on their duty of paying due regard".[390]

**390.** Galwodd Achub y Plant hefyd am drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros atebolrwydd a chyllid i'r Comisiynydd Plant i'r Senedd ac y byddai'r annibyniaeth ychwanegol honno'n gwella'r gwaith craffu ar y Mesur ac felly'n helpu i'w roi ar waith.[391] Ategwyd hyn gan Hafal a alwodd am fwy o bwerau i'r Comisiynydd Plant ymyrryd lle nad yw'r Mesur yn cael ei ddilyn mewn llythyren ac ysbryd.[392]

**391.** Mae'r Comisiynydd Plant wedi dweud o'r blaen y "byddai annibyniaeth ar adain weithredol y llywodraeth yn rhoi llawer mwy o eglurder i'm rôl" ac "ni ellir anwybyddu'r gwrthdaro buddiant sylfaenol hwn".[393] Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, cydnabu'r Comisiynydd "nad wyf hyd yma wedi profi unrhyw ymyrraeth gan y Llywodraeth o ran sut rwy'n gwneud fy ngwaith"[394] ond ychwanegodd:

> "[…] dylai'r sefydliad hawliau dynol cenedlaethol hwn gael ei drin fel un sy'n gwbl annibynnol ar y Llywodraeth a Gweinidogion Cymru. Fel arall, mae perygl y gallai'r union gyrff cyhoeddus y sefydlwyd y swydd hon i fwrw golwg drostynt a'u herio gyfyngu ar ddeilydd y swydd hon. Nodaf farn y Prif Weinidog blaenorol, pan godwyd y mater hwn gydag ef o'r blaen, sef na fu problem o ran annibyniaeth erioed, ac felly nad oedd yn barnu bod hynny'n flaenoriaeth. Er fy mod i'n cydnabod na fu

[388] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig, Ymateb i argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o Swydd a Swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru, 15 Gorffennaf 2015.

[389] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 14 – Grŵp Monitro CCUHP Cymru.

[390] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 25 – Gwasanaeth Seicoleg Gymunedol, Gwasanaeth Seicoleg a Therapïau Plant a Theuluoedd Gwent, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

[391] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 22 – Achub y Plant.

[392] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 18 – Hafal.

[393] Comisiynydd Plant Cymru, papur ar safbwynt Comisiynydd Plant Cymru o ran argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o Rôl a Swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru, Hydref 2015.

[394] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

problem, nid oedd unrhyw fesurau ffurfiol i ddiogelu statws rôl y Comisiynydd petai agwedd wahanol gan unrhyw Lywodraeth yn y dyfodol."[395]

**392.** Pan ofynnwyd iddi a oedd unrhyw ystyriaeth bellach wedi'i rhoi i'r sefyllfa hon, yn enwedig yng ngoleuni'r broses recriwtio ar gyfer Comisiynydd Plant newydd a fydd yn cychwyn yn y ddwy flynedd nesaf, atebodd y Dirprwy Weinidog:

> "[...] I don't actually see any disadvantages. I can't see any disadvantages of the arrangements remaining as they are. I think that the children's commissioner does operate independently. I think, in fact, she's said that she doesn't feel in any way inhibited by the Government."[396]

## Ein barn ni

**393.** Rydym yn cydnabod rôl holl-bwysig Comisiynydd Plant Cymru wrth gynnal hawliau plant.

**394.** Er hynny, nodwn argymhelliad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylid cryfhau annibyniaeth Comisiynwyr Plant sefydledig ymhellach, yn unol ag Egwyddorion Paris.

**395.** Nodwn y gofid a fynegwyd gan Grŵp Monitro CCUHP Cymru bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod argymhelliad blaenorol y dylid trosglwyddo atebolrwydd a chyllid swydd y Comisiynydd i'r Senedd.

**396.** Argymhellodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Pedwerydd Cynulliad yn ei adroddiad etifeddiaeth y "dylai unrhyw Bwyllgor olynol geisio sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd yn adolygu'r penderfyniad i beidio â throsglwyddo cyfrifoldeb am benodi ac ariannu'r Comisiynydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru".[397]

**397.** Er ein bod yn cydnabod y sicrwydd a roddodd y Comisiynydd Plant a'r Dirprwy Weinidog na fu unrhyw ymyrraeth yn annibyniaeth gwaith y Comisiynydd hyd yma, rydym yn nodi barn y Comisiynydd Plant ei hun y byddai annibyniaeth

---

[395] Tystiolaeth ysgrifenedig, CRW 11 – Comisiynydd Plant Cymru.

[396] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [para 167], 6 Tachwedd 2019.

[396] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Adroddiad Etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad, Mawrth 2016.

bellach o'r Llywodraeth yn mynd i'r afael â'r "gwrthdaro buddiant sylfaenol"[398] y mae hi'n credu ei fod yn bodoli o dan y trefniadau presennol.

**398.** Rydym wedi'n perswadio y byddai trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros benodi'r Comisiynydd Plant i'r Senedd yn gam ymlaen, ond rydym yn cydnabod y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i drosglwyddo'r cyllid angenrheidiol a gwneud y Comisiynydd Plant yn atebol i'r Senedd.

**Argymhelliad 16.** Y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r penderfyniad i beidio â throsglwyddo'r cyfrifoldeb dros benodi ac ariannu Comisiynydd Plant Cymru i'r Senedd, a hynny ar y cyfle cyntaf i ddeddfu.

[398] Comisiynydd Plant Cymru, papur ar safbwynt Comisiynydd Plant Cymru o ran argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o Rôl a Swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru, Hydref 2015.